# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi:

(09.30) (Tudalennau 1 - 5)

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio - Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 12 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 6 - 8)

**2.2 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19 - 14 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 9 - 10)

**2.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Cynllun Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi - 13 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 11 - 12)

**2.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) - 15 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 13 - 16)

**2.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) - 21 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 17 - 20)

**2.6 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Nodyn Technegol**

(Tudalen 21)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 1 (Swyddfa Archwilio Cymru)

(09.30–10.15) (Tudalennau 22 - 92)

Mike Usher, Cyfarwyddwr ac Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog, Swyddfa Archwilio Cymru

Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru

Matthew Coe, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar baratoadau i'w weithredu

Papur 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad

## 4 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 2 (Llywodraeth Cymru)

(10.15–11.15) (Tudalennau 93 - 134)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Claire McDonald, Rheolwr Cynllun Gweithredu, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

Papur 3 - Y trydydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflwyno a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.15)

## 6 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Ystyried y dystiolaeth

(11.15–11.30) (Tudalennau 135 - 159)

Papur 4 - Y trydydd adroddiad blynyddol gan Lywodraeth y DU ynghylch cyflwyno a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014

## 7 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: Offeryn Statudol Treth

(11.30-11.45) (Tudalennau 160 - 165)

Papur 5 - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 - Memorandwm Esboniadol

## 8 Gohebiaeth gan Gomisiwn y Cynulliad

(11.45-12.00) (Tudalennau 166 - 186)

Papur 6 - 2il Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18 Comisiwn y Cynulliad - Memorandwm Esboniadol

Papur 7 - Tanwariant rhagamcanol: Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

## 9 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 2il Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18

(12.00-12.15) (Tudalennau 187 - 188)

Papur 8 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 2il Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18 - Memorandwm Esboniadol

## 10 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19: Adolygiad o'r broses gyllideb newydd

(12.15-12.45) (Tudalennau 189 - 215)

Papur 9 - Adolygiad o'r broses gyllideb newydd

## 11 Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth: Ymateb Llywodraeth Cymru

(12.45-13.00) (Tudalennau 216 - 222)

Papur 10 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 12 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

(13.00-13.30) (Tudalennau 223 - 232)

Papur 11 – Adroddiad drafft

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2017

Amser: 09.32 - 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4430

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru<br>Janine Hale, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 - Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru - 24 Tachwedd 2017

### 2.2 Cynllun Ffioedd Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018-19

2.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018-19, yn unol ag adran 24(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Llywodraeth a Busnes Corfforaethol; a Janine Hale, Prif Swyddog Ymchwil (Economeg Iechyd) ar oblygiadau ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

3.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i:

- ddarparu gwybodaeth am yr adolygiad cymheiriaid a gynhaliwyd ar y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y gwaith modelu gan Brifysgol Sheffield;
- darparu rhagor o wybodaeth am yr arian a ddyrennir i godi ymwybyddiaeth o'r isafbris am alcohol;
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Swyddfa Gartref, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y fframwaith ariannol; ac
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar drafodaethau â Chonsortiwm Manwerthu Cymru ynghylch ardoll wirfoddol bosibl.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 y cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2017

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Ystyried y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Tanwariant Penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau - Papur cwmpasu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull tuag at ei ymchwiliad ar Danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2017

Amser: 09.33 - 12.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4431

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Robert Chote, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd - Papur cwmpasu

1.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur cwmpasu ar baratoad ariannol Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## 2 Blaenraglen Waith – Papur cwmpasu

2.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn.

## 3 Offerynnau Statudol Treth: Sesiwn friffio technegol

3.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio technegol ar Offerynnau Statudol Treth gan swyddogion canlynol Llywodraeth Cymru: Liz Matthews, Rheolwr Prosiect Gweithrediadau Awdurdod Refeniw Cymru; Gurvinder Bhakar, Cyfreithiwr, Tîm y Trysorlys; Andrew Hewitt, Rheolwr Prosiect y Dreth Trafodion Tir; a Sarah Govier, Rheolwr Prosiect Polisi Trethi Datganoledig.

## 4 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

4.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

4.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a David Rees AC.

## 5 Papur(au) i'w nodi:

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 5.1 PTN1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Cyllidebau Awdurdod Refeniw Cymru ar gyfer 2017/18 – 2019/20 – 4 Rhagfyr 2017

### 5.2 PTN2 – Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad Ebrill 2017 – Medi 2017 – 7 Rhagfyr 2017

## 6 Papur briffio: Rhagolygon ar gyfer Trethi Datganoledig

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Robert Chote, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar ragolygon ar gyfer trethi datganoledig.

Eitem 2.1

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf MA - L/RE/0857/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

Diolch yn fawr am eich llythyr.

Fel y gofynnwyd, mae dadansoddiad o gyfanswm y ddyled ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ynghlwm. Y ffigurau fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2016 yw'r rhain, sef y rhai mwyaf diweddar sydd ar gael.

Fe ofynnoch hefyd am eglurhad ynghylch a fyddai dyled hanesyddol Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru os aiff yn fethdalwr.

Nid yw dyled hanesyddol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn trosglwyddo'n awtomatig i Lywodraeth Cymru os daw'n fethdalwr.

Mae'r camau a gymerir mewn achos o ansolfedd yn cael eu hamlinellu yn adrannau 39 -50 o Ddeddf Tai 1996.

Y cam cychwynnol fydd personau neu sefydliadau sy'n bwriadu gorfodi unrhyw warant dros dir neu sy'n bwriadu cyflwyno deiseb ar gyfer dirwyn landlord i ben yn rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru. Rhaid rhoi rhagor o rybudd wedyn ar ôl i'r camau gael eu cymryd.

Mae hyn yn sbarduno moratoriwm am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf pan na all y landlord gael gwared ar unrhyw dir, gan gynnwys cartrefi, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru heblaw am rai gwarediadau arferol penodol fel gosodiadau. Nid yw'r Bil yn effeithio ar y gofyniad hwn am gydsyniad.

Yn ystod y moratoriwm, sy'n parhau am 28 diwrnod ond y mae modd ei ymestyn, bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio gyda'r credydwyr sicredig i wneud cynigion amgen ar

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyfer rheoli a pherchenogaeth y tir yn y dyfodol. Y canlyniad mwyaf tebygol fyddai canfod Landlord Cymdeithasol Cofrestredig arall i gymryd cyfrifoldeb dros y tir drwy drosglwyddo ymrwymiadau. Mae trosglwyddo ymrwymiadau yn golygu bod y cyfrifoldeb dros holl asedau a rhwymedigaethau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, gan gynnwys unrhyw ddyled hanesyddol, yn cael eu hysgwyddo gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig y cânt eu trosglwyddo iddo.

Gall Gweinidogion Cymru benodi rheolwr dros dro i weithredu'r cynigion y cytunwyd arnynt a gallant rymuso'r rheolwr i wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i weithredu'r cynigion. Gall Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu'r rheolwr at ddibenion cyflawni'r cynigion, gan gynnwys benthyca staff a / neu dalu cydnabyddiaeth ariannol neu dreuliau yn ogystal â chymorth ariannol rhesymol arall.

Nid yw'r Bil yn effeithio'n sylweddol ar y darpariaethau ansolfedd hyn. Mae'r darpariaethau ar waith i sicrhau bod tenantiaid, asedau tai cymdeithasol a buddsoddiad cyhoeddus yn cael eu diogelu drwy ofyn am rybudd cynnar gan unrhyw barti o unrhyw fwriad i gymryd camau a allai arwain at ansolfedd a darparu cyfnod moratoriwm i benderfynu ar y camau hynny a'u cymryd.

Dylid nodi hefyd y byddai materion a allai o ddangos risg o ansolfedd yn debygol o ddod i'r amlwg drwy Gyd-reoleiddio, goruchwyliaeth reoleiddiol a chudd-wybodaeth. Ymateb cychwynnol y tîm rheoleiddio wedyn fyddai gweithio gyda'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a'i gefnogi, ynghyd â'r cyllidwyr, i reoli a datrys problemau er mwyn ceisio atal y sefyllfa rhag gwaethygu a throi'n achos o ansolfedd.

Cofion gorau

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Atodiad - Dadansoddiad o Gyfanswm y Ddyled ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ar 31 Mawrth 2016.

**Atodiad**

## Dadansoddiad o Ddyledion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

| Cymdeithas Tai | Balans y Benthyciad sy'n Ddyledus ar 31/03/2016 £'000oedd |
|---|---|
| Bro Myrddin | 14,114 |
| Bron Afon | 73,915 |
| Cadwyn | 30,449 |
| Canolbarth Cymru | 40,965 |
| Cantref | 30,019 |
| Cartrefi Conwy | 28,500 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | 24,000 |
| Cartrefi Dinas Casnewydd | 63,000 |
| Cartrefi NPT | 69,675 |
| Cartrefi RCT | 66,500 |
| Coastal | 152,427 |
| Cymoedd i'r Arfordir | 55,100 |
| Cymuned Caerdydd | 72,029 |
| Cynon Taf | 25,197 |
| Dewis Cyntaf | 17,214 |
| Gogledd Cymru | 58,267 |
| Grŵp Cynefin | 92,686 |
| Gwynedd | 69,000 |
| Hafod - Gofal | 17,558 |
| Hafod - Tai | 82,847 |
| Linc | 98,446 |
| Melin | 78,029 |
| Merthyr Tudful | 15,620 |
| Newydd | 62,436 |
| Penfro | 77,844 |
| Pennaf - Clwyd Alyn | 136,411 |
| Pennaf - Tŷ Glas | 9,279 |
| Pobl - Cartrefi | 92,491 |
| Pobl - Derwen | 20,322 |
| Pobl - Gwalia | 143,310 |
| Pobl - Seren Living | 4,866 |
| Pobl - Siarter | 145,300 |
| Rhondda | 29,045 |
| Sir Fynwy | 19,400 |
| Taf | 33,076 |
| Tai Calon | 71,500 |
| Tai Ceredigion | 21,400 |
| Tai Unedig Cymru | 177,090 |
| Teulu | 78,465 |
| Wales and West | 157,536 |
| **Cyfanswm** | **2,555,329** |

Eitem 2.2

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Simon Thomas AM,
Chair, National Assembly for Wales Finance Committee

Thursday 14th December 2017

Annwyl Simon,

Thank you for inviting me to provide evidence to the Finance Committee in relation to the Welsh Government 2018-19 draft budget process. I was pleased to note that three of your nine recommendations to the Welsh Government explicitly referenced the Well-being of Future Generations Act.

During the evidence session, you asked for further detail about the feedback that my office has provided to the Welsh Government in relation to their sessions piloting participatory budgeting.

We acknowledged that the scale of the challenge of how to seek people's views on the budgeting process in a meaningful way is not to be under-estimated. Welsh Government are viewing this as a longer-term piece of work, and it is helpful that their starting point is to use pilot sessions to work out the best approaches to take. However, if Welsh Government does not provide communities and individuals with the same information (or at least the headlines) being used by decision-makers, they risk people feeling that they are being "done to" and not "done with". People will not feel that they are being taken on a journey as policy develops, one that provides them with the understanding and rationale for decisions and new approaches and the opportunity to meaningfully contribute. Welsh Government risks asking them to divide a pot of money without the wider context – in one of the pilot sessions it was evident that there were frustrations that some services within the local community were being cut whilst for example, the majority of money goes into the health budget; yet people did not fully understand what was behind this or how to change it. Comments indicated that people wanted long-term thinking and preventative spend but needed more information on this.

We also provided a number of comments on how the sessions were run and suggestions for taking the work forward, particularly in relation to the five ways of working set out as the sustainable development principle in the legislation. In a single session it is a challenge to explain the financial and political process involved in budget setting as well as moving to seek people's views. We suggested that Welsh Government should give further thought to the best balance to strike between facilitating a conversation that is useful to people in developing their understanding of the context of the budget setting process but also generating something that is useful in informing the budgeting process and the next steps for engagement.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Welsh Government should see this work as an opportunity to see this work as not just a short series of engagements but to develop ongoing conversations. It is also an opportunity to consider the legacy both for Welsh Government to build their expertise in 'involvement techniques' amongst officials; and, as a result of this, to develop knowledge and skills within communities themselves around active participation and engagement, building knowledge and understanding of budgeting and other political processes. This means people, who are the experts in their own lives, will be better placed to offer up solutions and suggestions rather than frustrations. Welsh Government could explore taking further engagement to where people already are, and working in collaboration with partners to factor engagement into existing initiatives. In terms of improving the involvement/facilitation capability of officials, we suggested perhaps they could work with one or two trusted individuals who are used to working within their communities, building their knowledge and skills and work to support them to effectively facilitate the discussions.

I welcome Welsh Government's commitment to trialling new approaches to involvement, and my team are providing support and challenge to officials to take stock of the learning from the pilot sessions and plan next steps.

Yn gywir / Yours sincerely

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Commissioner for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Eitem 2.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Simon,

13 Rhagfyr 2017

Ysgrifennaf atoch i roi'r diweddaraf ichi am benodi corff dosbarthu ar gyfer Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Ar 8 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i gyflwyno tendr ar gyfer penodi corff dosbarthu. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, rwy'n falch o gyhoeddi bod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cael ei benodi i redeg y Cynllun o fis Ebrill 2018. Mae hyn yn nodi cyfnod newydd a throi cefn ar y Gronfa Cymunedau Tirlenwi'r DU bresennol. Mae'n dod â Chynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, drwy gael un corff dosbarthu, yn agosach at y cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio gan warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid am eich cefnogaeth yn ystod hynt y ddeddfwriaeth.

Fel rhan o'r Gyllideb 2018-19 ddrafft, ymrwymais i neilltuo £1.5m (£1.4m o gyllid prosiect a £100k ar gyfer costau gweinyddol y corff dosbarthu) y flwyddyn i'r Cynllun dros y pedair blynedd nesaf, er mwyn cadw ein haddewid i gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi. Mae hyn yn darparu ffrwd gyllido sefydlog i'r cymunedau hynny dros y pedair blynedd nesaf er bod disgwyl i'r refeniw a ddaw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ostwng yn ystod y cyfnod hwn.

Dros y misoedd nesaf, bydd swyddogion yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i benderfynu'n derfynol ar fanylion y Cynllun er mwyn ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018, yn unol â'n hymrwymiad deddfwriaethol yn adran 92 o Ddeddf y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru). Wedi iddo gael ei lansio ym mis Ebrill 2018, bydd y cyfrifoldeb dros y Cynllun yn cael ei roi yn nwylo fy nghyfaill Hannah Blythyn, y Gweinidog dros yr Amgylchedd. Bydd y gyllideb ar gyfer y Cynllun yn rhan o MEG yr Amgylchedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio hefyd gyda CThEM i sicrhau na fydd y trefniadau newydd yn cael effaith niweidiol ar brosiectau yng Nghymru sy'n cael eu cymorth ar hyn o bryd gan y Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Cytunwyd ar gyfnod pontio o ddwy flynedd a fydd yn rhoi amser i gwblhau prosiectau presennol yng Nghymru ac i unrhyw Gronfeydd Cymunedau Tirlenwi sy'n weddill gael eu gwario. Bydd y cyfnod pontio yn ymestyn o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2020.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Eitem 2.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA - L/KW/0871/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCYPE@cynulliad.cymru

15 Rhagfyr 2017

Annwyl Lynne,

Ym mis Medi, ysgrifennodd cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes atoch i roi diweddariad ar weithrediad y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ymrwymodd i wneud hynny bob chwarter; roedd hyn mewn ymateb i ail argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad cam 1 ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Y llythyr hwn yw'r ail o'r diweddariadau hyn. Darperais gopi hefyd o'm llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 11 Rhagfyr ar y dadansoddiad o'r pecyn buddsoddi £20 miliwn i gyflawni'r rhaglen.

**Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol**

Roedd hi'n fraint cael helpu i lywio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drwy ei gamau olaf, ac roeddwn yn falch iawn ei fod wedi'i basio'n unfrydol gan y Cynulliad ddydd Mawrth 12 Rhagfyr, flwyddyn union ar ôl ei gyflwyno yn 2016.

Hoffwn ddiolch eto i'ch Pwyllgor am roi ystyriaeth drylwyr iddo gydol y broses ddeddfu a gryfhaodd wydnwch y Bil. Rwy'n hyderus y bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i greu gwell system ar gyfer cefnogi rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Wrth symud ymlaen, gan ragweld y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd ein ffocws yn 2018 yn symud i'r is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys ymgynghoriad yn yr hydref ar rai o'r rheoliadau drafft ac iteriad nesaf y Cod ADY drafft, Yna, bydd y rhain

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn destun craffu gan y Cynulliad. Rhagwelaf y bydd y Cod terfynol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2019.

**Gweithredu/cymorth pontio**

Ar 11 Rhagfyr cyhoeddais grynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar weithrediad y Bil law yn llaw â'r dull arfaethedig. Bydd dysgwyr sydd â Datganiadau cyfredol yn trosglwyddo i'r system newydd o fewn dwy flynedd, a phob dysgwr arall sydd â chynlluniau anstatudol yn cael eu trosglwyddo o fewn tair blynedd. Mae hyn yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid o'n hymgynghoriad ar opsiynau i'w rhoi ar waith.

Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio nawr i ddatblygu a choethi'r canllawiau ar bontio ar gyfer partneriaid cyflenwi, a fydd yn nodi canllawiau manwl i gefnogi gweithrediad. Bydd hyn yn cynnwys amserlenni manwl ar gyfer cyflwyno cynlluniau datblygu unigol i bob cohort o ddysgwyr yn raddol. Datblygir y canllawiau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad y flwyddyn nesaf. Yn 2018 byddwn yn cynnal mwy a mwy o weithgareddau wrth i ni symud i'r cyfnod gweithredu, gan gynnwys cymorth a her ar gyfer partneriaid i baratoi ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith.

Bydd y pum arweinydd trawsnewid ADY yn dechrau ar eu gwaith yn y Flwyddyn Newydd ac yn gyfrifol am gefnogi partneriaid cyflenwi i gynnal asesiadau parodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu. Bydd y gwaith ymbaratoi yn cael ei ategu gan adolygiad thematig y bydd Estyn yn ei gynnal, a fydd yn pwyso a mesur i ba raddau y mae ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg ar wahân i'r ysgol yn ymwybodol o'r diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Bil ac yn paratoi ar gyfer eu rhoi ar waith.

Ym mis Medi 2017, cynhaliodd Grŵp Gweithredu Strategol ADY ei gyfarfod olaf ar ei ffurf bresennol. Mae'r grŵp wedi bod yn hollbwysig hyd yma yn ad-drefnu'r dull gweithredu a'r rhaglen trawsnewid yn gyffredinol. Maent wedi cytuno wrth i ni symud ymlaen i gyfnod gweithredu'r diwygiadau, y bydd grŵp lefel uwch llai o faint yn goruchwylio gwaith Arweinwyr Trawsnewid ADY ac yn cynorthwyo gyda'r agweddau cysondeb o ran gweithredu, cydweithio a rhannu arferion da.

Bydd yr wyth grŵp arbenigol a sefydlwyd gan Grŵp Gweithredu Strategol ADY yn parhau i weithio tuag at y gyfres o gamau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r templed Cynllun Datblygu Unigol, deunyddiau codi ymwybyddiaeth a threfniadau newydd ar gyfer ymarferwyr iechyd.

**Datblygu'r gweithlu**

Mae gan arbenigwyr gyfraniad allweddol o ran helpu dysgwyr ag ADY. Mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Uned Ddata Cymru, mae penaethiaid awdurdodau lleol wedi'n helpu ni i gael darlun cliriach o weithlu gwasanaethau cymorth arbenigol awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Rwyf wedi cytuno i ddyrannu £352,000 o gyllideb datblygu'r gweithlu ADY i'w ddosbarthu fel arian grant i awdurdodau lleol dros y 2 flwyddyn ariannol nesaf (2018-19 and 2019-20) er mwyn helpu gyda hyfforddiant ôl-raddedig athrawon arbenigol a

chynghorol awdurdodau lleol dysgwyr â nam ar y golwg, nam ar y clyw a nam amlsynnwyr. Gellir defnyddio'r arian hwn hefyd er mwyn hwyluso hyfforddaint Braille ac Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff arbenigol awdurdodau lleol.

Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o Seicolegwyr Addysg, rydym yn ariannu rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysg (DEdPsy). Rwyf wedi cytuno i barhau â threfniadau cyfredol DEdPsy am gohort pellach o fis Medi 2018 ymlaen, tra bod trafodaethau am drefniadau 2019-20 ymlaen yn mynd rhagddynt.

Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor, rydym wedi cynnal gwaith pellach ar gwmpasu rôl y Cydlynydd ADY. Mae fy swyddogion wedi cydweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid i nodi gofynion sgiliau a hyfforddiant y rôl bwysig hon. Rydym yn rhagweld y bydd Cydlynwyr ADY yn darparu arweiniad strategol ac yn bwynt cyswllt cyntaf o fewn y lleoliad addysg, ar gyfer cyngor ac arweiniad ychwanegol a phroffesiynol.

**Codi ymwybyddiaeth**

O ganlyniad i'r adborth i'r ymgynghoriad ar weithredu'r Bil, rydym wedi comisiynu Eliesha Cymru i ddatblygu cyfres o ddeunyddiau dysgu a hyfforddiant er mwyn helpu i roi rhaglen trawsnewid ADY ar waith, gan gynnwys y Bil. Byddant yn sail i hyfforddiant gweithredu amlasiantaeth unwaith y bydd y Cod a'r is-ddeddfwriaeth mewn grym. Bydd yn helpu ymarferwyr i ddeall a pharatoi ar gyfer y newidiadau a gaiff eu cyflwyno dan y drefn newydd ac yn helpu i sicrhau cysondeb o Fôn i Fynwy.

Cafodd asesiadau tystiolaeth cyflym a chanllawiau hygyrch ar ymyriadau effeithiol i gefnogi plant a phobl ifanc ag amrywiaeth o ADY eu comisiynu yn gynharach eleni. Mae'r asesiadau tystiolaeth cyflym o'r ymyriadau i helpu plant a phobl ifanc ag ADHD ac ASD hefyd bron yn barod. Defnyddiwyd tystiolaeth o'r asesiadau i ddatblygu canllawiau hygyrch a chynhaliwyd gweithdai gydag ymarferwyr a rhieni er mwyn deall eu hoffterau o ran strwythur a chynnwys y canllawiau.

**Polisi ategol / parhad busnes**


Mae'r elfen hon o'r rhaglen yn canolbwyntio ar sicrhau bod y system AAA ac LDD gyfredol yn gweithio'n esmwyth tan y daw'r system ADY newydd i rym. Wrth i ni nesáu at y broses weithredu, mae'r agwedd hon ar y rhaglen yn canolbwyntio fwyfwy ar gynnal parhad busnes.

Er mwyn cefnogi'r broses lleoliad arbenigol ôl-16, rwyf wedi cytuno i gyhoeddi canllawiau technegol ar gyfer sefydliadau addysg bellach arbenigol. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor clir ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar rôl sefydliadau Addysg Bellach wrth gyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 i bobl ifanc. Hefyd, rwyf wedi cytuno i gyhoeddi canllawiau technegol diwygiedig i Gyrfa Cymru. Byddwn yn defnyddio gweithdai i ategu'r canllawiau ac archwilio sut mae'n gweithio'n ymarferol.

Gobeithio y gallwn barhau i weithio'n effeithiol yn ystod y cam gweithredu ar yr hyn sy'n becyn trawsnewid o bwys a fydd o fudd i'r bobl mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid a Mick Antoniw AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Deddfwriaethol.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA/L/VG/0869/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

21 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr sy'n amlinellu'r meysydd y cytunais i roi rhagor o wybodaeth amdanynt pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 7 Rhagfyr.

Bydd yr adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield yn cynnwys dadansoddiad o effeithiau gwahanol isafbrisiau uned a fodelwyd (yn amrywio o ran cynnydd fesul 5c o 35c i 70c) a dadansoddiad o effeithiau ehangach cyflwyno isafbris uned, gan gynnwys effeithiau ar absenoldeb yn y gweithle a throseddau.

Bydd hefyd yn cynnwys cymhariaeth o'r cynnydd cyfrannol mewn tollau alcohol y byddai ei angen i gyflawni'r un gostyngiad yn y defnydd o alcohol a marwolaethau oherwydd alcohol ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol ag isafbris uned, er enghraifft. Fel y soniais yn ystod fy nhystiolaeth i'r pwyllgor, y dyddiad cyhoeddi arfaethedig ar gyfer yr adroddiad hwn bellach yw Chwefror 2018.

Roedd fy swyddogion - mewn sesiwn friffio dechnegol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 25 Hydref - a minnau wedi nodi mewn llythyr i'r pwyllgor hwnnw, dyddiedig 14 Tachwedd, mai'r bwriad gwreiddiol oedd i'r adroddiad llawn fod ar gael ym mis Ionawr 2018. Fodd bynnag, bu oedi wrth gael data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a ddefnyddir yn sail i effeithiau cyflwyno isafbris uned a fodelwyd ar droseddu.

Roedd fy swyddogion yn disgwyl derbyn y data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Hydref, ond dim ond ar 6 Rhagfyr y cyrhaeddodd yr wybodaeth honno Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, bu oedi cyn i Brifysgol Sheffield allu diweddaru'r elfen hon o'i gwaith modelu a dadansoddi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddodd Prifysgol Sheffield ei hadroddiad interim ar 29 Tachwedd. Mae hwn yn rhoi diweddariad ar yr enghraifft o isafbris uned o 50c a ddefnyddiwyd yn ei adroddiad yn 2014 ac sydd wedi'i gynnwys ym memorandwm esboniadol y Bil. Er bod y data ychwanegol o'r adroddiad llawn yn bwysig o ran craffu ar y Bil ei hun, bydd yn arbennig o berthnasol er mwyn pennu lefel wirioneddol yr isafbris uned, pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio'r ddeddfwriaeth hon.

Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon ynghylch sut y mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiad llawn Prifysgol Sheffield yn cyd-fynd â'r dyddiad cau ar gyfer adroddiad cyfnod un y pwyllgor; byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau sy'n gysylltiedig â chraffu ar y Bil. Byddaf yn rhannu'r adroddiad llawn cyn gynted â phosibl.

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid, cytunais hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am nifer o faterion eraill.

**Manylion yr adolygiad gan gymheiriaid a gynhaliwyd ar y dull o asesu ansicrwydd a ddefnyddiwyd yng ngwaith modelu Prifysgol Sheffield**

Gofynnoch am ragor o fanylion am yr adolygiad gan gymheiriaid o Fodel Polisi Alcohol Prifysgol Sheffield a'i dull o asesu ansicrwydd. Mae'r dull a fabwysiadwyd i ddadansoddi senario/sensitifrwydd yn un sy'n cael ei argymell gan Lyfr Gwyrdd Trysorlys y DU ac nid yw'n unigryw i'r model hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhaliwyd yr adolygiad gan gymheiriaid o waith modelu Sheffield yn ddienw, fel sy'n arferol ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o erthyglau cyfnodolion sydd i'w cyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r papurau sy'n seiliedig ar Fodel Polisi Alcohol Sheffield wedi'u cyhoeddi mewn nifer o wahanol gyfnodolion mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys cyfnodolion megis *The Lancet* (ddwywaith), *BMJ* a *PLOS Medicine*. Bydd model a dull Sheffield wedi cael eu hadolygu gan economegwyr, epidemiolegwyr, economegwyr iechyd ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd blaenllaw. Mae adroddiadau Prifysgol Sheffield ar gyfer y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), yr Adran Iechyd a Public Health England hefyd wedi'u hadolygu'n annibynnol. Mae Prifysgol Sheffield hefyd wedi sefydlu grwpiau llywio arbenigol ar gyfer prosiectau ymchwil unigol - y mwyaf nodedig o'r rhain oedd ar gyfer y Rhaglen Ymchwil Alcohol Ryngddisgyblaethol. Mae'r grŵp llywio (y mae Prifysgol Sheffield yn trafod penderfyniadau modelu allweddol ag ef) yn cynnwys yr arbenigwyr canlynol mewn polisi alcohol ac epidemioleg: Paul Gruenewald, Peter Miller, Bill Ponicki, Robin Room, Tim Stockwell, Alex Wagenaar, Clare Beeston, Joanna Shapland, Gerhard Gmel and Juergen Rehm.

Mae'r memorandwm esboniadol a gynhyrchwyd ar gyfer y Bil hefyd wedi cael ei adolygu'n annibynnol gan ddau academydd.

**Gwybodaeth am yr arian a ddyrennir i godi ymwybyddiaeth o'r isafbris uned**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd buddsoddi mewn cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o ofynion y ddeddfwriaeth, cyn ei gweithredu. Gan ddysgu o'n profiadau o weithredu deddfwriaeth debyg yn y gorffennol, mae angen inni greu momentwm a sicrhau cydymffurfiaeth ymysg manwerthwyr o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn nodi £100,000 ar gyfer cyfathrebu (gweler tabl naw). Yn benodol, mae paragraff 303 yn nodi: "Bydd angen ffocws cryf ar gyfathrebu gofynion y ddeddfwriaeth, yn enwedig yn ystod misoedd cyntaf y gwaith gweithredu. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau er mwyn rhoi gwybod i fusnesau, er enghraifft drwy ohebiaeth uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau masnach, a hynny am gost o ryw £80,000, ac er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd, er enghraifft drwy ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, digwyddiad lansio ac ar y we a chyfryngau cymdeithasol, a hynny am gost o ryw £20,000."

**Cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y fframwaith cyllidol**

Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion y Swyddfa Gartref ar 19 Rhagfyr. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch unrhyw effeithiau ar y fframwaith cyllidol a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'r mater hwn yn y Flwyddyn Newydd.

**Trafodaethau â Chonsortiwm Manwerthu Cymru ynglŷn ag ymholiad y pwyllgor ynghylch a ddylai ardoll wirfoddol fod yn gysylltiedig â'r isafbris uned**

Bydd fy swyddogion yn cwrdd â chynrychiolwyr o Gonsortiwm Manwerthu Cymru yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd a byddant yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor mewn perthynas â thrafodaethau am y syniad hwn. Fodd bynnag, mae heriau cydnabyddedig, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cynnydd posibl mewn refeniw i fanwerthwyr a ble yn y gadwyn gyflenwi y gallai'r rhain godi. Bydd hyn yn cael ei adolygu.

**Costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arolygu a gorfodi ychwanegol gan awdurdodau lleol.**

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru i sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i weithgareddau arolygu a gorfodi sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil.

Mae'r memorandwm esboniadol yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen £150,000 yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil, £100,000 yn yr ail flwyddyn a £50,000 yn y drydedd flwyddyn er mwyn cynnal gweithgareddau arolygu a gorfodi adnoddau yn ychwanegol at yr hyn a fyddai'n digwydd beth bynnag, fel rhan o systemau arolygu presennol sy'n ymwneud ag adeiladau sy'n cyflenwi alcohol. Mae trafodaethau rhwng swyddogion a Safonau Masnach yn parhau ar hyn o bryd ynglŷn â'r proffil gwariant mwyaf priodol o fewn y dyraniad tair blynedd (2019-2022) o £300,000.

Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y system arolygu fwyaf effeithiol drwy dargedu gorfodaeth ar yr adeg iawn wrth weithredu'r ddeddfwriaeth. Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor gyda rhagor o fanylion ynghylch sut y caiff yr arian ei broffilio o fewn y dyraniad cyffredinol o £300,000 ar ôl cytuno ar hyn yn ffurfiol.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

# Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

**Nodyn Technegol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid**

**Hysbysu tenantiaid am y newidiadau a gynigiwyd ym Mil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru)**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 23 Tachwedd, trafodwyd y gost o roi gwybod am y newidiadau i drefniadau llywodraethiant Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ganlyniad i'r Bil. Efallai y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn y nodyn hwn o ddiddordeb i'r Aelodau at ddibenion eglurhad.

Pan ofynnwyd "How well has the ONS decision been communicated in the sector generally, including with tenants?" yng nghyfarfod Is-bwyllgor o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 7 Tachwedd, dywedodd Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru - TPAS Cymru "...it's certainly been communicated well within the sector in terms of the professional level. I don't think there's any doubt about that. We've drawn on conversations with tenants, our tenant networks, regulation events and had some conversations with tenants at those."

Yn ogystal, mae swyddogion wedi rhoi cyflwyniadau mewn nifer o gyfarfodydd i denantiaid er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfle i glywed am y cynigion, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i egluro'r cynigion yn fanylach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda TPAS o dan y contract presennol, a bydd yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau bod y neges ynghylch goblygiadau'r Bil yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl.

Serch hynny, mater i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig dan sylw yw trosglwyddo'r wybodaeth am y newidiadau i'r trefniadau llywodraethiant fel rhan o'u busnes bob dydd. Er enghraifft, newidiodd 10 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig eu hoffer llywodraethiant yn y flwyddyn ddiwethaf. Gallaf gadarnhau hefyd nad yw'r gost o roi gwybod am y newidiadau i'r trefniadau llywodraethiant yn fater sydd wedi'i godi mewn unrhyw drafodaethau neu ymgynghori â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac felly nid yw'n fater perthnasol.

21 Rhagfyr 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Datganoli cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratoadau ar gyfer gweithredu

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys
Matthew Coe, Gareth Lucey, Ben Robertson a Deborah Woods
o dan gyfarwyddyd Richard Harries.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Crynodeb 6

1 Mae'r agenda diwygio cyllidol wedi gwneud cynnydd da ymhob maes allweddol yn ystod 2017 14

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar fframwaith cyllidol diwygiedig, er, mae'n rhy gynnar i gynnal asesiad llawn o'i werth ariannol i Gymru 15

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd da wrth ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ofynnol ar gyfer trefniadau trethi datganoledig 19

Mae'r strwythur llywodraethu a'r trefniadau rheoli ar gyfer yr agenda diwygio cyllidol wedi parhau i esblygu'n briodol i adlewyrchu amgylchiadau newidiol 20

Paratôdd Llywodraeth Cymru ragolygon refeniw amserol ar gyfer y trethi newydd-ddatganoledig, ac mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer Cyfradd Dreth Incwm Cymru 22

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da hyd yn hyn wrth ddatblygu gweithdrefnau cyllidebol diwygiedig, a'u gweithredu 26

Mae Llywodraethu Cymru wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag arbenigwyr ar drethi a rhanddeiliaid, i sefydlu fframwaith polisi trethi a chynllun gwaith blynyddol ar gyfer Trysorlys Cymru yn 2018-19 28

2 Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn dechrau ar gyfnod hanfodol, gydag amserlen dynn i gyflawni popeth sy'n ofynnol erbyn 1 Ebrill 2018, yn enwedig y systemau casglu trethi digidol 30

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru wedi esblygu i roi mwy o amlygrwydd i bobl a materion sy'n gysylltiedig â chyllid 31

Wedi sefydlu ACC ym mis Hydref 2017, mae angen gwaith pellach i sicrhau y deellir y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC yn glir 33

Yn gyffredinol, mae'r gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru sy'n weithredol, yn mynd rhagddo'n dda ond cyflawni systemau digidol yw'r risg pennaf o hyd, ac mae'n cychwyn ar gyfnod hanfodol heb fawr o le i wallau 35

Er bod y costau gweithredu'n parhau o fewn yr amrediad a amcangyfrifwyd, bydd cyllidebau gweithredol cychwynnol ACC yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol 43

Mae perthnasoedd da yn cael eu datblygu rhwng ACC a rhanddeiliaid allanol 45

Atodiadau


Atodiad 1 – Dulliau 48

# Crynodeb

1 Mae datganoli cyllidol yn cyfeirio at drosglwyddo pwerau trethiant a benthyca o Lywodraeth y DU i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) a Gweinidogion Cymru. O 1 Ebrill 2018, ac am y tro cyntaf ers dros 800 mlynedd, bydd Cymru yn gyfrifol am godi elfen o'i refeniw treth ei hun.

2 Datganolodd **Deddf Cymru (2014)** rai pwerau trethiant a benthyca o Lywodraeth a Senedd y DU i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Am y tro cyntaf, mae'r Ddeddf yn grymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â threthi wrth brynu neu lesio tir ac adeiladau a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi. Mae hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli elfen o bwerau codi treth incwm i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol, yn ymestyn yr amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru fenthyca yn y byrdymor i reoli cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae Eitem 1 yn nodi'r newidiadau penodol i'r amgylchedd ariannol yng Nghymru.

## Eitem 1 – trethi datganoledig yng Nghymru





Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio tuag at ddyddiad gweithredu o ran datganoli treth incwm erbyn mis Ebrill 2019.

3 Dilynwyd **Deddf Cymru 2014 gan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ym mis Ebrill 2016. Ynghyd â **Threth Trafodiadau Tir a Deddf Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017**, mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod y sylfeini ar gyfer trefniant drethi Cymru. Mae'n cynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ar 18 Hydref 2017 i gasglu trethi datganoledig Cymru, Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r ddeddf yn gosod y seiliau ar gyfer trefniant drethi ddatganoledig i Gymru (Eitem 2).

Eitem 2 – Sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru




Hawlfraint: Llywodraeth Cymru

4 Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol[2]. Daethom i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru yn paratoi'n dda i ymgymryd â'i chyfrifoldebau datganoli cyllidol, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru erbyn dyddiad cychwyn ym mis Ebrill 2018. Serch hynny, nodwyd bod heriau sylweddol o hyd wrth geisio cyflwyno cynlluniau manwl a chyflawni prosiectau allweddol. Nodwyd hefyd, am fod y gwaith allweddol yn dal i fynd yn ei flaen, y byddem yn cynnal ail arolwg yn yr hydref 2017 i asesu'r cynnydd.

5 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hwnnw, o ran yr agenda ehangach o ddiwygio cyllidol i gychwyn, ac yn ail o ran Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ac (o 18 Hydref 2017) yr ACC ei hun. Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd digonol tuag at weithredu datganoli cyllidol yn llwyddiannus yng Nghymru erbyn 1 Ebrill 2018?'. Yn Atodiad 1 ceir mwy o fanylion am ein dulliau archwilio.

6 Yn ein hadroddiad blaenorol, gwnaethom un argymhelliad allweddol, sef er mwyn cyflawni cerrig milltir allweddol ei hamserlen hollbwysig, bydd angen i Lywodraeth Cymru gwblhau ei chynlluniau cyflawni manwl cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu i fyrddau a Grwpiau'r rhaglen symud i'r cam cyflawni yn 2017. Nodwyd nifer o feysydd penodol yr oedd angen i'r cynlluniau cyflawni manwl hyn roi sylw iddynt hefyd, ac rydym wedi adolygu'r cynnydd yn y meysydd hyn fel rhan o'r ail adolygiad hwn. Ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y meysydd ffocws isod.

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru**, Rhagfyr 2016. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion pellach am y newidiadau i'r trefniadau trethi yng Nghymru yn dilyn **Deddf Cymru 2014** Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## Eitem 3 – cynnydd a wnaed yn erbyn y meysydd ffocws yn 2016

| Maes penodol a nodwyd ym mis Rhagfyr 2016 | |
|---|---|
| O gofio bod y biliau ar gyfer y trethi penodol yn mynd trwy'r broses ddeddfwriaethol, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau yr adlewyrchir effaith unrhyw welliannau i'r biliau hyn yng nghynlluniau a phrosesau manwl y prosiectau. | Cynnydd da |
| Bydd heriau'n codi o ran cytuno ar fframwaith cyllidol amserol gan daro cydbwysedd rhwng paratoi rhagolygon mor hwyr â phosibl er mwyn sicrhau cywirdeb, a chaniatáu digon o amser i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar gyllideb 2018-19. | Cynnydd da |
| Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn parhau i adolygu pa rai o swyddogaethau Trysorlys Cymru y mae eu hangen mewn perthynas â datganoli cyllidol, yn enwedig capasiti a nifer y staff i gyflawni'r rolau hyn hyd at 1 Ebrill 2018 a thu hwnt. | Parhaus |
| Bydd angen dull manwl ac agos o ymgysylltu wrth i'r rhaglen fynd drwy'r cam cyflawni ac agosáu at y dyddiad gweithredu, sef 1 Ebrill 2018, gan gynnwys yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r gyfundrefn drethi yng Nghymru ymhlith y cyhoedd yn fwy cyffredinol. | Cynnydd da |
| Mae angen i sail statudol a fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd Awdurdod Cyllid Cymru gael eu diffinio'n glir a sicrhau bod pob un o'i rhanddeiliaid allweddol yn eu deall o'r dechrau. | Cynnydd da |
| Mae angen i Raglen Weithredu ACC gymeradwyo cynlluniau prosiectau sylfaenol yn ffurfiol cyn gynted â phosibl, er mwyn i bob prosiect gyflawni ei amcanion yn gyflym. Bydd angen llywodraethu, rheoli a monitro'r rhaglen yn ofalus iawn wrth iddi ddatblygu dros y misoedd i ddod. | Cynnydd da |
| Mae angen datblygu cyllidebau manylach yn awr er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei sefydlu ar amser, yn unol â'r gost a gyda phobl sy'n meddu ar y sgiliau cywir. | Cynnydd cymysg |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

7 **Daethom i’r casgliad fod Llywodraeth Cymru ac ACC wedi gwneud cynnydd pwysig yn y rhan fwyaf o’ meysydd, ond eu bod bellach ar gyfnod hanfodol ar gyfer cyflawni prosiectau allweddol yn ystod yr ychydig fisoedd sy’n weddill hyd nes mis Ebrill 2018. Y prif ffocws a’r her yn ystod y cyfnod nesaf hyd nes 1 Ebrill 2018 yw darparu systemau casglu trethi cadarn, gan gynnwys darparu’r systemau digidol a’u profi, a chyhoeddi’r canllawiau y bydd ar gwsmeriaid ACC eu hangen wrth lenwi eu ffurflenni treth, wedi ymgysylltu â’r cwsmer.** Yn y paragraffau canlynol, ceir trosolwg cryno o’n prif ganfyddiadau.

8 **Mae’r agenda diwygio cyllidol wedi gwneud cynnydd ymhob maes allweddol yn ystod 2017**. Cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i ‘fframwaith cyllidol’ diwygiedig, er ei bod yn rhy gynnar i gynnal asesiad llawn o’i werth ariannol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru’n parhau i wneud cynnydd da wrth ddatblygu’r fframwaith deddfwriaethol sy’n ofynnol ar gyfer trefniadau trethi datganoledig. Mae’r strwythur llywodraethu a’r trefniadau rheoli ar gyfer yr agenda diwygio cyllidol wedi parhau i esblygu’n briodol i adlewyrchu amgylchiadau newidiol. Paratôdd Llywodraeth Cymru ragolygon refeniw amserol ar gyfer y trethi newydd-ddatganoledig, ac mae’n paratoi’r ffordd ar gyfer Cyfradd Dreth Incwm Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da hyd yn hyn wrth ddatblygu gweithdrefnau cyllidebol diwygiedig a’u gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu’n llwyddiannus ag arbenigwyr ar drethi a rhanddeiliaid, i sefydlu fframwaith polisi trethi a chynllun gwaith blynyddol ar gyfer Trysorlys Cymru yn 2018-19.

9 **Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn dechrau ar gyfnod hanfodol gydag amserlen dynn i gyflawni popeth sy’n ofynnol erbyn 1 Ebrill 2018, yn enwedig y systemau casglu trethi digidol**. Mae’r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru wedi esblygu i roi mwy o amlygrwydd i bobl a materion sy’n gysylltiedig â chyllid. Wedi sefydlu’r ACC y mis Hydref 2017, mae angen gwaith pellach i sicrhau y deellir y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a’r ACC yn glir. Yn gyffredinol, mae’r gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru sy’n weithredol, yn mynd rhagddo’n dda. Cyflawni systemau digidol yw’r risg pennaf o hyd, ac mae’n cychwyn ar gyfnod hanfodol heb fawr o le i wallau . Er bod y costau gweithredu’n parhau o fewn yr amrediad a amcangyfrifwyd, bydd cyllidebau gweithredol cychwynnol ACC yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol. Mae perthnasoedd da’n cael eu datblygu rhwng yr ACC a rhanddeiliaid allanol.


10 Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru nawr mewn cyfnod

hanfodol yn y broses o'i chyflawni i sicrhau bod modd casglu trethi o 1 Ebrill 2018. Gallai'r Archwilydd Cyffredinol roi'r diweddaraf yn gryno ar y cynnydd pellach a wnaed gyda'r prif feysydd a nodwyd isod, yn gynnar yn 2018. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cynnal adolygiad arall yn hydref 2018 i asesu sut mae ACC yn gweithredu, i ba raddau y llwyddwyd i gasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir, a pharatoadau ar gyfer cyflwyno Cyfradd Dreth Incwm Cymru o 1 Ebrill 2019.

## Meysydd ffocws allweddol hyd nes mis Ebrill 2018

11 Mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen yn dda ar drywydd yr amserlen hanfodol ar gyfer datganoli trethi i Gymru a grynhoir yn Eitem 4 isod.

Eitem 4 – Amserlen gryno ar gyfer trethi datganoledig yng Nghymru




Hawlfraint: Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 33

12 Er nad ydym yn codi unrhyw argymhellion penodol yn yr adroddiad hwn, yn ystod yr ychydig fisoedd sy'n weddill hyd nes 1 Ebrill 2018, mae angen i Lywodraeth Cymru ac ACC gadw ffocws ar y camau hanfodol y mae angen eu cymryd i sicrhau bod systemau casglu treth ar waith ar y dyddiad hwnnw.

13 Mae'r meysydd/cerrig milltir penodol ar gyfer y cyfnod sydd ar droed yn cynnwys:

- gweithredu System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi ACC, a'i systemau cyllidol, a'u profi, mewn da bryd ar gyfer 1 Ebrill 2018;
- asesiad o barodrwydd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), i gadarnhau bod y ddwy ochr yn barod ar gyfer trosglwyddo'r trethi datganoledig newydd;
- datblygu cyllideb weithredol realistig, wedi'i diffinio'n glir, i ACC ar gyfer 2018-19, yn seiliedig ar y model cyflawni a'r lefelau staffio disgwyliedig, a chytuno arni;
- cwblhau cynlluniau wrth gefn clir i fynd i'r afael ag unrhyw elfennau o brosiectau nad ydynt yn cael eu cyflawni;
- cwblhau'r gwaith o recriwtio gweddill y 55 aelod o staff ACC fel eu bod yn eu lle pan fydd arno'u hangen;
- bydd angen i'r prosiect Polisi Gweithredol weithio'n agos gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion i sicrhau bod unrhyw risgiau neu oedi posib i'r broses ddeddfwriaethol yn cael eu lliniaru;
- mae angen cyhoeddi canllawiau gweithredol i gwsmeriaid ACC a chwblhau polisïau mewnol ACC;
- mae angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar drefniadau ar gyfer adolygiadau annibynnol o ragolygon Trysorlys Cymru yn y dyfodol;
- adolygu ar ôl gweithredu, ar adeg briodol, yn fuan wedi Ebrill 2018, ac adolygu'r gwersi a ddysgwyd;
- cynlluniau cyfathrebu clir gan ACC i barhau i ymgysylltu â chyrff sector cyhoeddus Cymru, asiantaethau eraill sy'n casglu trethi a rhanddeiliaid allweddol eraill;
- cytundeb cynnar ar strategaeth ACC a chynlluniau tymor canolig, ar ôl i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Llythyr Cylch Gorchwyl terfynol; ac
- mae angen cwblhau fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd ACC a rhaid bod ei holl randdeiliaid allweddol yn eu deall yn glir, yn benodol trwy gytuno ar Ddogfen Fframwaith derfynol gyda Llywodraeth Cymru a chyhoeddi'r Llythyr Cylch Gwaith terfynol gan Weinidogion Cymru.

Rhan 1

# Mae’r agenda diwygio cyllidol wedi gwneud cynnydd da ymhob maes allweddol yn ystod 2017



## Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar fframwaith cyllidol diwygiedig, er, mae'n rhy gynnar i gynnal asesiad llawn o'i werth ariannol i Gymru

1.1 Bydd y drefn drethi ddatganoledig yn gweithredu o fewn fframwaith cyllidol diwygiedig rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ym mis Rhagfyr 2016 ar y fframwaith cyllidol diwygiedig hwn a ddaw i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

1.2 Mae'r Cytundeb Fframwaith Cyllidol yn nodi sut y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrifo cyfanswm y grant bloc a'r addasiadau ar gyfer refeniwiau treth newydd, a phwerau Llywodraeth Cymru i gynilo arian cyhoeddus a'i fenthyg. Mae'r fframwaith hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i osod trethi datganoledig gyda dealltwriaeth gadarn o'r goblygiadau ariannol tebygol. Disgwylir y bydd yn fframwaith parhaol, gydag adolygiadau o bryd i'w gilydd ond heb aildrafod rheolaidd. Mae Eitem 5 yn amlinellu prif nodweddion y cytundeb.

## Eitem 5 – Cytundeb Fframwaith Cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig



### Yr addasiad grant bloc

Mae Llywodraeth y DU yn darparu grant bloc o gyllid i Gronfa Gyfunol Cymru, sydd yn ei dro yn ariannu Llywodraeth Cymru. Bydd y grant bloc yn cael ei ostwng i adlewyrchu'r refeniw a ragwelir o Dreth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir a gesglir yng Nghymru. Erbyn hyn, cytunwyd ar y dull o gyfrifo'r lleihad yn y grant bloc mewn blynyddoedd dilynol a cheir cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob treth. Wrth edrych ymlaen, ar gyfer Cyfradd Dreth Incwm Cymru bydd cyfrifiadau ar wahân hefyd ar gyfer cyfradd safonol, cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol treth incwm, gan fod cyfran Cymru'n amrywio'n sylweddol ar gyfer pob band.



### Pwerau benthyca

Mae Deddf Cymru 2017 yn ymestyn y pwerau benthyca a grëwyd yn Neddf Cymru 2014. Mae'r cyfanswm ar gyfer benthyca cyfalaf yn codi o £500 miliwn i £1 biliwn, ac mae'r terfyn blynyddol yn cynyddu o £125 miliwn i £150 miliwn. Mae'r terfyn benthyca refeniw'n parhau ar £500 miliwn a bydd yn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg sy'n deillio o'r ffaith fod refeniw treth yn is na'r hyn a ragwelwyd neu ei fod yn dod i mewn yn arafach na'r disgwyl.



### Cronfa ariannol wrth gefn

Bydd Cronfa Ariannol Wrth Gefn i Gymru o 2018-19 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gario hyd at £350 miliwn o gyllidebau heb eu gwario, neu warged mewn refeniw treth uwchben y rhagolygon, ymlaen. Cyfyngir yr arian a dynnir i lawr yn flynyddol i £125 miliwn at ddibenion refeniw a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

### Addasiadau gwneud iawn

Mae’r cytundeb yn cydnabod bod penderfyniadau cyllidol mewn un wlad yn gallu cael effaith uniongyrchol ar refeniw neu wariant cyhoeddus mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae’r fframwaith yn rhoi lle i wneud addasiadau i’r grant bloc i wneud iawn am newidiadau mewn polisïau oherwydd penderfyniadau’r Llywodraeth. Gellir hefyd cyfrif am effeithiau ymddygiadol megis cynnydd mewn mewnfudo oherwydd cyfraddau trethi gwahanol mewn amgylchiadau eithriadol.

### Rhagolygon refeniw

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn defnyddio rhagolygon annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gyfrifo addasiadau grant bloc. Bydd rhagolygon yn cael eu cysoni gydag alldro unwaith y bydd yr wybodaeth ar gael. Defnyddir canlyniad y gwaith cysoni gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Bydd Llywodraeth Cymru’n sefydlu trefniadau annibynnol ar gyfer llunio rhagolygon yn dilyn cyfnod interim byr.

### Gweinyddu a chraffu

Goruchwylir llywodraethu gan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Cymru) sy’n cynnwys y Gweinidogion perthnasol o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda chefnogaeth uwch-swyddogion. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi sicrwydd annibynnol fod CThEM wedi adnabod y refeniw treth incwm priodol yn gywir ac wedi ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.3 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y fframwaith newydd yn fwy ffafriol i Gymru na'r trefniadau cyfredol. Mae'n diwygio Fformwla Barnett ac yn adlewyrchu anghenion cyllido hirdymor a nodwyd ac a argymhellwyd yn Adroddiad Holtham. Awgryma asesiadau Llywodraeth Cymru y bydd gan Gymru fwy o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus nag sydd ar gael o dan y trefniadau presennol. Serch hynny, newydd ei sefydlu y mae'r fframwaith ac mae'n rhy gynnar i asesu ei fuddion cyffredinol i Gymru, gan fod hyn yn dibynnu ar refeniwiau treth yn ogystal â dyraniadau gwario.

1.4 Mae'r Fframwaith Cyllidol yn egluro egwyddorion cyfrifo addasiadau'r grant bloc ar gyfer refeniwiau treth newydd. Bydd yr addasiadau'n seiliedig ar refeniw gwirioneddol a ddaw o Gymru yn 2017-18, felly bydd Cymru'n agored i ddwy risg yn benodol: y risg y gallai ei sylfaen drethi ddatganoledig gynyddu neu ostwng ar gyfradd gyflymach na'r cyfartaledd ar gyfer y Deyrnas Unedig; a'r risg y bydd y refeniwiau'n uwch neu'n is na'r rhagolygon. Gallai'r ddwy risg hon gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyllid cyhoeddus Cymru ac maent yn debygol o newid gydag amser.

1.5 Mae'r cytundeb hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fenthyg mwy a gosod mwy o arian mewn cronfeydd wrth gefn, er mwyn helpu lliniaru effaith y risgiau hyn. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddi wrth ymdrin â thanwariant yn ei chyllidebau, a gall Llywodraeth Cymru gario hyd at £350 miliwn o'i chyllidebau cyfalaf ac adnoddau ymlaen fel rhan o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

1.6 Mae angen cyswllt parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi, er mwyn gweinyddu manylion ymarferol y fframwaith, a datrys unrhyw anghydfod a allai godi. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ar femoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n cyflwyno canllawiau manylach gyda CThEM a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod egwyddorion y fframwaith cyllidol diwygiedig wedi gweithredu'n hwylus yng nghamau cynnar proses gyllidebu 2018-19.

## Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd da wrth ddatblygu’r fframwaith deddfwriaethol sy’n ofynnol ar gyfer trefniadau trethi datganoledig

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu’r fframwaith deddfwriaethol i sefydlu’r trefniadau trethi datganoledig y darperir ar eu cyfer yn Neddf Cymru 2014 trwy dri darn allweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol i Gymru. Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar gyfer tair Deddf o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn (Eitem 6).

Eitem 6 – Deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer datganoli pwerau casglu trethi i Gymru sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol

| Deddf Casglu a Rheoli Trethi Cymru (Cymru) 2016 | Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 | Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 |
|---|---|---|
| Mae’n gosod sylfeini’r gyfundrefn dreth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig newydd, a chreu Awdurdod Cyllid Cymru. | Mae’n sefydlu treth ar drafodiadau sy’n ymwneud â buddion mewn tir, fel prynu tŷ, ac mae'n rhoi pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru weithredu ar wrthweithio osgoi trethi datganoledig. | Mae’n sefydlu treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi, ac yn rhoi pwerau i ACC i orfodi cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth. |
| Dyddiad Cydsyniad Brenhinol - 25 Ebrill 2016 | Dyddiad Cydsyniad Brenhinol - 24 May 2017 | Dyddiad Cydsyniad Brenhinol - 24 Mai 2017 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Ymhlith pethau eraill, bydd angen i Weinidogion Cymru benderfynu a ydynt am roi pwerau troseddol statudol i Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu is-ddeddfwriaeth i ddeddfu'r bandiau a'r cyfraddau treth a osodir gan Weinidogion Cymru. Mae prosiect 'Polisi Gweithredol' Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru hefyd yn datblygu is-ddeddfwriaeth arall sy'n anelu at weithrediadau ACC, gan gynnwys datgeliadau a ganiateir, rheoliadau gweinyddu Treth Gwarediadau Tirlenwi a rheoliadau pontio'r Dreth Trafodiadau Tir.

1.9 Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn edrych ymlaen at ddatblygu'r cynnig a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu cyfradd dreth incwm i drethdalwyr Cymru o 1 Ebrill 2019. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl cyflwyno'r ddeddfwriaeth ddrafft er ystyriaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn hwyr yn 2018.

## Mae'r strwythur llywodraethu a'r trefniadau rheoli ar gyfer yr agenda diwygio cyllidol wedi parhau i esblygu'n briodol i adlewyrchu amgylchiadau newidiol

1.10 Mae'r Grŵp Trosolwg Diwygio Cyllidol wedi monitro'r agenda diwygio cyllidol cyffredinol ers cychwyn 2016, gan gwrdd pedair gwaith yn ystod 2017. Cadeirydd y Grŵp Trosolwg oedd Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Drysorlys Cymru, Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru, Llywodraeth Cymru yn ehangach ac aelod allanol annibynnol. Roedd y Grŵp Trosolwg yn rhoi sicrwydd ynghylch amrediad o faterion yn deillio o adroddiad cyntaf Comisiwn Silk a deddfwriaeth ddilynol y Deyrnas Unedig (Deddfau Cymru 2014 a 2017), megis datblygu polisïau treth, llunio cyllidebau a chraffu arnynt, y fframwaith cyllidol a gweithredu ACC. Serch hynny, gan fod elfennau o'r agenda diwygio cyllidol wedi cael eu cyflawni, aseswyd yr angen am rôl sicrwydd y Grŵp Trosolwg a daeth y Grŵp Trosolwg i'r casgliad nad oedd y fforwm yn angenrheidiol mwyach. Penderfynodd y Grŵp Trosolwg ddiweddu eu rôl ym mis Rhagfyr 2017.

1.11 Mae Bwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn parhau i yrru gweithrediad ACC a'r gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn casglu trethi datganoledig. Caiff Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ei goruchwylio gan Gyfarwyddwr y Rhaglen a Rheolwr y Rhaglen, ac yn sylfaenol mae'n cynnwys pedwar prosiect unigol - gwasanaethau digidol; polisi gweithredol; pobl; a chyllid. Rydym yn ystyried cynnydd ar bob un o'r prosiectau hyn yn Rhan 2 yn yr adroddiad hwn.

1.12 Gan fod rhannau o'r agenda diwygio cyffredinol wedi cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru, sefydlwyd grwpiau llywodraethu ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n cyd-fynd â'r agenda diwygio cyllidol. Er enghraifft, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru gan CThEM o fis Gorffennaf 2017. Mae'r Bwrdd hwn yn darparu trosolwg ar lefel uwch ar gyfer Bwrdd Trosglwyddo'r Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp, yn ogystal â Bwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru sydd newydd ei sefydlu, ac mae'n darparu llwybr uwchgyfeirio ar gyfer y ddau brosiect. Mae gan y tri grŵp hyn gynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, CThEM, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Gymreig. Bwriad CThEM yw i Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru barhau i mewn i 2018, yn enwedig wrth i'r ffocws newid o weithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru i gyflwyno Cyfradd Dreth Incwm Cymru o 1 Ebrill 2019.

1.13 Mae'r trefniadau llywodraethu hyn wedi esblygu trwy gydol y flwyddyn a dylent ganiatáu i Lywodraeth Cymru ac ACC fonitro gweithrediad datganoli cyllidol yng Nghymru mewn ffordd briodol.

## Paratôdd Llywodraeth Cymru ragolygon refeniw amserol ar gyfer y trethi newydd-ddatganoledig, ac mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer Cyfradd Dreth Incwm Cymru

1.14 Mae rhagolygon cadarn ar gyfer refeniw posib o dreth yn rhan hanfodol o broses gyllidebu newydd Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod modd penderfynu'n effeithiol. Mae yna risg gynhenid o ansicrwydd ymhob rhagolwg, boed hynny oherwydd rhagdybiaethau cychwynnol gwael, neu oherwydd ffactorau allanol fel polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyflwyno'r gyfradd ychwanegol ar gyfer ail gartrefi yn ddiweddar, sy'n golygu ei bod yn anoddach darogan Treth Trafodiadau Tir. Mae derbyniadau Treth Trafodiadau Tir hefyd yn sensitif iawn i amodau economaidd sy'n effeithio ar newidiadau mewn prisiau eiddo a nifer y trafodion eiddo.

1.15 Dechreuodd Llywodraeth Cymru baratoi rhagolygon treth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru ar ddechrau 2017, gan eu mireinio a'u diweddaru dros y misoedd canlynol wrth ddatblygu'i chyllideb. Rhoddwyd y modelau trwy broses sicrhau ansawdd fewnol i gychwyn. Profwyd y modelau yn erbyn refeniw treth gwybyddus neu amcangyfrif o'r derbyniadau o flynyddoedd blaenorol hefyd, i asesu eu cywirdeb, a chawsant eu haddasu yn ôl yr angen.

## Eitem 7 – dull o lunio rhagolygon ar gyfer derbyniadau treth mewn perthynas â Threth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o lunio rhagolygon ar gyfer derbyniadau treth mewn perthynas â Threth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru.

| Treth | Dull o lunio rhagolygon |
|---|---|
| Treth Trafodiadau Tir | • Dull tebyg i'r dull a ddefnyddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i amcangyfrif refeniw Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr.<br>• Defnyddio rhagolygon economaidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, i amcangyfrif twf ym mhrisiau eiddo a nifer y trafodion.<br>• Mae'r prisiau a nifer y trafodion yn pennu refeniw treth ar gyfer pob un o'r pedwar math o dreth (prif gyfradd breswyl, cyfradd breswyl ychwanegol, eiddo amhreswyl, prydles amhreswyl).<br>• Profi'r model yn erbyn ffigurau gwirioneddol refeniw Treth Dir y Dreth Stamp o Gymru yn 2015-16 a blynyddoedd blaenorol.<br>• Mae'n cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd – sut y bydd refeniw'n newid os yw prisiau eiddo neu nifer y trafodiadau yn wahanol i'r rheiny yn y rhagolygon. |

| Treth | Dull o lunio rhagolygon |
|---|---|
| Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru | • Ni ellir adnabod ar wahân gyfran Cymru o'r derbyniadau treth o wybodaeth CThEM ar y Dreth Dirlenwi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac felly nid oedd gwybodaeth fanwl gywir ar gael ar dderbyniadau treth cyfredol.<br>• Casglu gwybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru i amcangyfrif faint o wastraff a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn 2015-16. Caiff hwn ei rannu yn wastraff arferol a gwastraff cyfradd is.<br>• Rhennir gwastraff cyfradd safonol yn wastraff o awdurdodau lleol Cymru a ffynonellau eraill:<br>o rhagdybir bod gwastraff o awdurdodau lleol yn cydymffurfio â chapasiti llosgi newydd (neu â thueddiadau 3 blynedd yr awdurdod os nad oes yna gynlluniau ar gyfer defnyddio llosgyddion ar hyn o bryd).<br>o rhagdybir y bydd elfen y gwastraff cyfradd safonol nad yw'n wastraff awdurdod lleol yn gostwng 10% y flwyddyn, yn unol â'r tueddiadau ledled y Deyrnas Unedig.<br>• Rhagdybir bod cyfanswm cyfaint gwastraff cyfradd is yn gostwng 1.1% y flwyddyn, yn unol â'r cyfartaledd tair blynedd hyd nes fis Mawrth 2016.<br>• Rhagdybir bod cynnydd yng nghapasiti llosgyddion yn digwydd yn ôl y bwriad.<br>• Nid oedd refeniw wedi'i gynnwys ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig gan nad oedd gwybodaeth ddibynadwy ar gael i seilio rhagolwg arni.<br>• Profwyd y model yn erbyn amcangyfrif CThEM o dderbyniadau'r Dreth Dirlenwi o Gymru mewn blynyddoedd blaenorol.<br>• Dadansoddiad sensitifrwydd i asesu sut yr effeithir ar refeniwiau os yw chwyddiant yn wahanol i'r rhagolwg, os yw cyfaint gwastraff awdurdodau lleol yn parhau ar lefelau 2015-16, neu os oes yna newid yn nhueddiadau gwastraff nad yw'n wastraff awdurdod lleol. |

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor, **Craffu a Sicrwydd Annibynnol ynghylch Rhagolygon Trethi Datganoledig i Gymru**, Hydref 2017

1.16 Mae ar y Cytundeb Fframwaith Cyllidol diwygiedig a ddisgrifir ym mharagraffau 1.1 i 1.6 angen gwaith craffu annibynnol ar ragolygon Llywodraeth Cymru a phenododd Llywodraeth Cymru Brifysgol Bangor i ymgymryd â'r gwaith hwn ar gyfer cyllideb 2018-19 Llywodraeth Cymru. Gweithiodd Prifysgol Bangor yn agos gyda Thrysorlys Cymru i adolygu methodoleg rhagolygon Trysorlys Cymru, a'u profi, a chynigiodd awgrymiadau ynghylch sut i wella'r dulliau hynny.

1.17 Cyhoeddodd Prifysgol Bangor ei sylwadau a'i barn ar y rhagolygon ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Hydref 2017. Daethant i'r casgliad fod y rhagolygon yn 'seiliedig ar fethodoleg a rhagdybiaethau cadarn a phriodol'. Bydd y Brifysgol yn asesu unrhyw newidiadau i'r rhagolygon yn dilyn cyllideb yr hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Golwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddir ar 22 Tachwedd 2017.

1.18 Gwnaeth Prifysgol Bangor sawl argymhelliad penodol i wella rhagolygon Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir yn y dyfodol, ac fe'u derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu data sy'n fwy penodol i Gymru, er enghraifft ar Dreth Trafodiadau Tir lle nad yw'r data ar gael. Serch hynny, byddai hyn yn waith heriol ac yn cymryd llawer o amser, a byddai angen i Lywodraeth Cymru asesu'r costau a'r manteision yn ofalus.

1.19 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hanghenion o ran rhagolygon ar gyfer Cyfradd Dreth Incwm Cymru, sy'n cael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2019. Gan ddilyn dull tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir, bydd angen datblygu amlinelliad o fodel rhagolygon ar gyfer cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018, a bydd angen iddo gael asesiad annibynnol.

1.20 Er mwyn goleuo'r model, mae gwybodaeth ar dreth incwm a dderbyniwyd gan drethdalwyr Cymru ar gael o set ddata a gedwir gan CThEM, sef yr Arolwg o Incwm Personol. Mae hon yn darparu data dienw ar gyfer unigolion ond nid amrediad llawn yr wybodaeth sydd ar gael i CThEM, a thrwyddo i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, i alluogi penderfyniadau ar bolisi trethi. Dyma'r materion penodol:

- ni chaiff yr wybodaeth ei dadansoddi o dan raddfa Cymru;
- mae yna bryderon ynghylch amseroldeb y data hwn, gan fod y set ddata ddiweddaraf yn ymwneud â 2014-15 oherwydd yr amser a gymerir i goladu data dienw o ffurflenni treth; ac
- nid yw Llywodraeth Cymru'n cael mynediad cynnar at y set ddata.

1.21 Serch hynny, y set ddata yw'r ffynhonnell wybodaeth orau o hyd, a buasai mynediad cynharach at y set ddata a gwybodaeth 'amser real' ynghylch derbyniadau treth incwm yng Nghymru, yn gymorth sylweddol i'r model rhagolygon. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y materion hyn gyda CThEM.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da hyd yn hyn wrth ddatblygu gweithdrefnau cyllidebol diwygiedig, a'u gweithredu

1.22 Mae Deddf Cymru 2014 yn rhoi mwy o gyfrifoldebau cyllidol i Lywodraeth Cymru ar gyfer datganoli trethi a benthyca. Yn ychwanegol at hyn, yn 2015 argymhelliad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol oedd datblygu proses ar gyfer craffu ar y gyllideb mewn dau gam[3] gydag eglurder pellach ar rolau'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau pwnc eraill yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb. O ganlyniad, sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect Cyllideb y Dyfodol yn 2014, i roi sylw i hyn ac i ddiweddaru'r trefniadau a oedd eisoes yn bodoli ac a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.

1.23 Ym mis Mehefin 2017, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar y diwygiadau terfynol i'r Rheolau Sefydlog a ddiweddarwyd, a phrotocol cyllidebu newydd i weithredu'r newidiadau angenrheidiol. Yn unol ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 mewn dau gam. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi llunio fframwaith cynllunio'r gyllideb ac wedi dechrau ei weithredu, ar gyfer Cyllideb Ddrafft a Therfynol 2018-19, ac maent yn datblygu'r broses ar gyfer cyllidebau atodol. Dangosir y cynnydd ar weithredu fframwaith cynllunio'r gyllideb yn Eitem 9.

3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cyllid, **Arfer Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio a gweithredu gweithdrefnau newydd ar gyfer y gyllideb**, Mawrth 2015

Eitem 8 – Cynnydd ar weithredu'r fframwaith diwygiedig ar gyfer cynllunio cyllideb 2018-19

| | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Ddrafft Amlinellol** | Nodi'r cynlluniau gwariant ac ariannu strategol ar lefel uchel, y bydd gan y Pwyllgor Cyllid o leiaf wyth wythnos i graffu arnynt, mewn blwyddyn arferol. | Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Hydref 2017 a chraffwyd arnynt gan y Pwyllgor Cyllid ar 5 Hydref 2017.<br>Yn y Gyllideb Ddrafft Amlinellol hon roedd mwy o bwyslais ar gynigion benthyca a threthu strategol, cynlluniau gwariant ar lefel uchel, ac, am y tro cyntaf, roeddent yn cynnwys adroddiadau cyllidol o ffynonellau allanol i'w cefnogi. |
| **2018-19 Cyllideb Fanwl Ddrafft** | Nodi cynlluniau gwariant manwl ar gyfer pob portffolio a bydd gan y pwyllgorau pwnc o leiaf bum wythnos i graffu arnynt. | Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Hydref 2017 a chraffwyd arnynt gan y pwyllgorau pwnc ym mis Hydref a mis Tachwedd 2017.<br>Roedd y Gyllideb Fanwl Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant manwl fesul portffolio Gweinidogaethol er mwyn i'r pwyllgorau pwnc unigol graffu arnynt. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.24 Datblygiad positif yn y broses gyllidebu ddiwygiedig yw cyhoeddi dogfennau allanol pwysig ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Amlinellol 2018-19. Roedd hyn yn cynnwys Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Bolisi Trethi; adroddiad Prifysgol Bangor ar graffu a sicrwydd annibynnol ynghylch rhagolygon trethi datganoledig; adroddiad y prif economegydd; a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Wedi i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar yr holl wybodaeth ychwanegol hon, ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2018-19 ym mis Rhagfyr 2017.

1.25 Wrth symud ymlaen, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn sefydlu Grŵp Polisi a Strategaeth Cyllidol i roi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar faterion cyllidol, ac i ddarparu fforwm ar gyfer trafod yr elfennau cyllidol sydd bellach yn bwydo i mewn i Gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru, a'u rheoli, ar y cyd.

## Mae Llywodraethu Cymru wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag arbenigwyr ar drethi a rhanddeiliaid, i sefydlu fframwaith polisi trethi a chynllun gwaith blynyddol ar gyfer Trysorlys Cymru yn 2018-19

1.26 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu rhaglen ymgysylltu wedi'i rheoli'n dda gyda rhanddeiliaid allweddol. Datblygodd y trefniadau hyn wrth i'r rhaglen o ddiwygio cyllidol aeddfedu ac wrth i'r dyddiad gweithredu, sef 1 Ebrill 2018, nesáu. Y rhanddeiliaid allanol allweddol o hyd yw aelodau Grŵp Cynghorol Trethi a'r Fforwm Trethi. Ynghyd â Grŵp Trethi'r Uwch Swyddogion, mae Grŵp Cynghorol Trethi yn rhoi cyngor strategol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch polisi trethi a gweinyddu trethi, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, llywodraeth leol a mudiadau'r trydydd sector. Mae'r Fforwm Trethi yn llwyfan i swyddogion ACC ymgysylltu â phroffesiynau a mudiadau perthnasol.

1.27 Cyfrannodd yr ymgysylltiad helaeth â’r Grwpiau hyn at gyhoeddiad **Fframwaith Polisi Trethi** a chynllun gwaith gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2017. Mae’r Fframwaith Polisi Trethi’n gosod y blaenoriaethau ar gyfer trethi yng Nghymru, a’r pum prif egwyddor fydd yn goleuo polisi trethi a datblygiad trethi. Mae hefyd yn nodi sut fydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag arbenigwyr a’r cyhoedd wrth iddi ddatblygu’r polisïau trethi hynny. Mae’r cynllun gwaith yn cynnwys nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac maent wedi’u halinio gyda chyrchnodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; agenda ‘Symud Cymru Ymlaen’ Llywodraeth Cymru ac amcanion polisi ehangach. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi cynllun gwaith wedi’i ddiweddaru ar gyfer 2018 yn gynnar yn 2018.

1.28 Fel rhan o gam Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2018-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad cynhwysfawr ar ei chynnydd wrth gyflawni’r amcanion yn y cynllun gwaith. Roedd y diweddariad yn cynnwys cyhoeddi’r cyfraddau a’r bandiau ar gyfer trethi newydd y Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae cyhoeddi’r diweddariad ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft Amlinellol yn gam cadarnhaol sy’n atgyfnerthu’r cyswllt newydd rhwng polisi trethi a gwariant i Gymru wrth symud ymlaen.

1.29 Gwelsom hefyd gynnydd mewn cyfathrebu, i godi ymwybyddiaeth o gyflwyniad y trethi newydd o 1 Ebrill 2018, ac i ymgysylltu â’r cyhoedd ehangach o ran deall yr agenda polisi trethi a chyfrannu ati. Roedd hyn yn cynnwys yr ymgyrch ‘Blwyddyn i Fynd’ ym mis Mawrth 2017, ac, yn dilyn cyhoeddi’r Fframwaith Polisi Trethi, ym mis Gorffennaf 2017, arweiniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid drafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ar drethi newydd. Adroddwyd yn helaeth ar y drafodaeth hon a chafwyd ymateb da gan y cyhoedd, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn erthyglau newyddion. Bydd angen cynnal y momentwm cadarnhaol a’r ymwybyddiaeth ehangach y mae hyn wedi’u creu, wrth i 1 Ebrill 2018 nesáu.

Rhan 2

# Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn dechrau ar gyfnod hanfodol, gydag amserlen dynn i gyflawni popeth sy'n ofynnol erbyn 1 Ebrill 2018, yn enwedig y systemau casglu trethi digidol




## Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru wedi esblygu i roi mwy o amlygrwydd i bobl a materion sy'n gysylltiedig â chyllid

2.1 Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn gyfrifol am sefydlu ACC a systemau casglu trethi cyn 1 Ebrill 2018. Mae trefniadau llywodraethu Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru, a'i strwythur, yn glir, ac mae byrddau prosiect unigol yn symud agweddau penodol yn eu blaenau.

2.2 Datblygwyd y strwythur yn 2017. Cyflwynwyd dau fwrdd prosiect newydd yn lle'r prosiect Llywodraethu a Threfniadaeth gynt, sef 'Pobl' a 'Chyllid'. Yn rhannol, gwnaethpwyd hyn i sicrhau bod y ddau faes yn cael y ffocws iawn a'r arbenigedd iawn, ond roedd hefyd yn cydnabod bod angen i Awdurdod Cyllid Cymru ddatblygu ei system gyllid ei hun a'i defnyddio. Cynyddodd y newid hwn amrediad Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn sylweddol. Gwahoddwyd aelodau allanol newydd i gynghori ar Fwrdd y Rhaglen, a ffurfiwyd Awdurdod Cyllid Cymru cysgodol i sicrhau bod sefydliad y dyfodol, a'i gwsmeriaid, yn cyfrannu at weithredu'r rhaglen. Yn Eitem 9 gweler trefniadau llywodraethu cyfredol Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru, a'i strwythur.

Eitem 9 – strwythur llywodraethu Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru a'i ffrydiau gwaith prosiect allweddol




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.3 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2016, diffiniwyd amodau gorchwyl ar gyfer Bwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ac mae'n cwmpasu strwythur y Bwrdd, ei gyfansoddiad a'i gylch gwaith. Mae aelodaeth y Bwrdd yn dal i gynnwys uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr allanol sy'n darparu arbenigedd, gwybodaeth a mewnwelediad. Arweinir Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru gan Gyfarwyddwr y Rhaglen sydd hefyd yn Brif Weithredwr ar ACC, ac mae hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o ACC.

2.4 Mae papurau Bwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn gryno ac yn cynnwys amserlenni'r rhaglen a chynlluniau cyflawni prosiectau. Maent hefyd yn tynnu sylw at adroddiadau o bob bwrdd prosiect. Yn gyffredinol, mae lefel yr adrodd manwl yn ddigonol. Gall aelodau ofyn am wybodaeth bellach os oes angen, ac maent yn gwneud hynny. Serch hynny, mae'r wybodaeth ar gostau gweithredu, a gweithredu ACC yn y dyfodol, yn llai manwl.

2.5 Mae cofrestr risg Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn asesu'r prif risgiau a'r camau y mae'r rhaglen yn eu cymryd i'w lliniaru, a hynny'n glir. Caiff risgiau eu nodi, eu monitro, eu lliniaru a'u cau, ac yn gyffredinol caiff achosion o rhyngddibyniaeth eu nodi. Mae'r rhaglen yn mynd ati i asesu'r risgiau gyda gofal. Mae hyn yn ystyried y risgiau sylweddol i enw da'r ddwy ochr yn ogystal ag effeithiau gweithredol peidio â chyflawni'r rhaglen.

## Wedi sefydlu ACC ym mis Hydref 2017, mae angen gwaith pellach i sicrhau y deellir y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC yn glir

2.6 Cafwyd gwaith sylweddol ar drefniadau llywodraethu ACC cyn ei sefydlu ar 18 Hydref 2017. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys recriwtio pobl allweddol fel y Cadeirydd (Chwefror 2017), y Prif Weithredwr (Medi 2017) ac aelodau anweithredol o Fwrdd ACC (Medi 2017). Derbyniodd cyfarfod cyntaf Bwrdd ACC, ar 18 Hydref 2017, ddogfennau llywodraethu allweddol megis rheolau sefydlog, cylch gwaith, strwythurau is-bwyllgorau'r Bwrdd ac awdurdodau dirprwyedig, a bu'n eu hadolygu.

2.7 ACC yw adran anweinidogol gyntaf Llywodraeth Cymru, gyda hunanreolaeth sylweddol dros weithrediadau beunyddiol ond o fewn cylch gwaith a osodir yn flynyddol gan Weinidogion Cymru. Oherwydd hynny, gallai fod dryswch ynghylch sut y mae ACC yn cael ei reoli a'i lywodraethu, a sut y dylai ryngweithio gyda gweddill sector cyhoeddus Cymru. Mae yna ddwy ddogfen allweddol a fydd yn hanfodol i sicrhau dealltwriaeth eang o rôl ACC wrth symud ymlaen, yn enwedig o fewn Llywodraeth Cymru:

- **Dogfen Fframwaith** – mae'r ddogfen hon yn diffinio fframwaith parhaol yn sylfaen i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC. O ganlyniad, mae'r ddwy ochr yn gweithio'n agos i gael y Ddogfen Fframwaith yn iawn o'r cychwyn. Cytunwyd ar egwyddorion y Fframwaith, ond mae'r gwaith yn parhau ar sut i weithredu'r fframwaith yn feunyddiol. Mi fydd yn bwysig i'r Ddogfen Fframwaith hon gael ei deall yn glir, ar draws Llywodraeth Cymru yn enwedig, ac mi fydd yn bwysig dychwelyd ati'n rheolaidd wrth i rôl ACC ddatblygu gydag amser.
- **Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidogion Cymru** – bydd hwn yn gosod yr amcanion tymor byrrach/canolig ar gyfer ACC, a disgwylir cyhoeddi'r Llythyr Cylch Gwaith terfynol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017. Unwaith y caiff ei dderbyn, gall ACC lunio cynllun corfforaethol a chyllideb weithredol fanwl hyd nes mis Ebrill 2019, gyda strategaethau tymor canolig i'w datblygu'n ddiweddarach yn 2018.

2.8 Gyda chau'r Grŵp Trosolwg Diwygio Cyllidol ym mis Hydref 2017, mater allweddol yw rôl ddeuol Prif Weithredwr ACC fel Cyfarwyddwr Gweithredu Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru hyd nes 1 Ebrill 2018. Mae'r unigolyn yn gyfrifol am drosglwyddo cyfrifoldeb o Lywodraeth Cymru i ACC, ynghyd â chyflawni rhaglen waith i sylfaenu'r sefydliad y bydd yn ei arwain. I bob pwrpas, mae'n cyflawni rhaglen waith iddo'i hun. Mae hyn yn codi risg posib i lywodraethu effeithiol ac atebolrwydd penderfyniadau.

2.9 I liniaru'r heriau hyn, sefydlwyd Grŵp Llywodraethu newydd – ar wahân i Fwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru – ym mis Tachwedd 2017. Mae'r Grŵp yn cynnwys Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru, Cadeirydd ACC a Phrif Weithredwr ACC/ Cyfarwyddwr Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru. Er y bydd yn ddatrysiad llywodraethu byrdymor ar gyfer penderfyniadau am gyflawni hyd nes mis Ebrill 2018, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru ac ACC yn ystyried rôl strategol y Grŵp a'r bartneriaeth barhaus tu hwnt i fis Ebrill 2018, o ystyried yr angen i ddeall perthynas ACC gyda Llywodraeth Cymru yn glir.

## Yn gyffredinol, mae'r gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru sy'n weithredol, yn mynd rhagddo'n dda ond cyflawni systemau digidol yw'r risg pennaf o hyd, ac mae'n cychwyn ar gyfnod hanfodol heb fawr o le i wallau

2.10 Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyflawni yn erbyn nifer o gerrig milltir allweddol ac elfennau i'w cyflawni a nodwyd yn ein hadroddiad y llynedd. Rhoddir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir hyn yn Eitem 10 a cheir sylwadau arnynt yn yr adrannau lefel prosiect isod.

Eitem 10 – cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol ac elfennau i'w cyflawni gan Raglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyfran 1**
**Chwefror 2016 – Medi 2016**

Galluoedd gwreiddiol a gyflawnwyd:
- Penderfyniad Dirprwyo Awdurdod Cyllid Cymru
- Cam Cadarnhau Prosiect Gwasanaethau Digidol
- Penodi Cyfarwyddwr Gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyfran 2**
**Medi 2016 – Ebrill 2017**

Galluoedd gwreiddiol a gyflawnwyd yn rhannol:
- Penderfyniad ar leoliad Awdurdod Cyllid Cymru
- Gwasanaethau Digidol yn 'profi'r' farchnad wedyn yn caffael gwasanaethau
- Cyhoeddi Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyfran 3**
**Ebrill 2017 – Tachwedd 2017**

Galluoedd gwreiddiol a gyflawnwyd yn rhannol:
- Penodi Aelodau Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru
- Recriwtio staff Awdurdod Cyllid Cymru yn raddol
- Cyflawni Gwasanaethau Digidol

**Cyfran 4**
**Tachwedd 2017 – Ebrill 2018**

Galluoedd i'w cyflawni:
- Ymgyrch gyfathrebu
- Cyhoeddi canllawiau mewnol ac allanol
- Rheoliadau ar waith
- Trethi'r DU wedi'u dileu, trethi Cymru ar waith

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.11 Y cerrig milltir allweddol sydd wedi eu cyflawni yn unol â'r amserlen a gynlluniwyd yw lleoliad ACC, a phenodi Cadeirydd ACC ac aelodau o Fwrdd ACC. Mae'r broses o recriwtio staff ACC yn raddol wedi dechrau, ac mae'n parhau. Serch hynny, ni chyflawnwyd y prosiect gwasanaethau digidol o fewn yr amserlen a gynlluniwyd yn wreiddiol ac rydym yn rhoi ystyriaeth i hyn ym mharagraffau 2.25 i 2.33 isod.

2.12 Fel y nodwyd ynghynt, mae yna bedwar prosiect sy'n hanfodol i gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus a sefydlu ACC. Rhoddir ystyriaeth fanylach i bob un o'r pedwar prosiect isod.

## Mae'r prosiect pobl wedi gwneud cynnydd da wrth recriwtio staff ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni ei brif amcanion

2.13 Mae'r prosiect pobl yn gyfrifol am bob agwedd ar Adnoddau Dynol wrth sefydlu'r ACC newydd, gan gynnwys y strwythur corfforaethol, recriwtio a dysgu a datblygu. Esblygodd strwythur trefniadaeth ACC ers y drafft cyntaf ym mis Mawrth 2017, ac ar hyn o bryd mae yna dri aelod uwch o staff yn y strwythur o dan y Prif Weithredwr – Pennaeth Cyflawni Gweithredol, Prif Swyddog Strategol a Phrif Swyddog Cyllid – i adlewyrchu prif swyddogaethau corfforaethol ACC. Mae yna gyfanswm o 75 o swyddi, a'r amcanestyniad o'r gost flynyddol yw £3.8 miliwn. Mae'r 75 o swyddi yn cynnwys naw swydd bontio i gynorthwyo ACC i ymsefydlu, a byddant yn cael eu dileu yn nes ymlaen yn 2018-19.

2.14 Mae'r prosiect pobl yn gwneud cynnydd da yn erbyn ei gynllun recriwtio. Hyd yn hyn mae ACC wedi penodi 9 aelod o staff, gan gynnwys Pennaeth Adnoddau Dynol. Mae pymtheg aelod o staff wedi dechrau yn eu gwaith, gan gynnwys y Prif Weithredwr, uwch dîm rheoli a 70% o'r haenen nesaf o reolwyr. Mae'r gwaith recriwtio eisoes ar waith ar gyfer 16 o swyddi eraill, a'r bwriad yw cyflogi i'r 38 o swyddi sy'n weddill cyn 1 Ebrill 2018. Mae ACC yn gweithio ar sicrhau cydbwysedd ofalus wrth recriwtio i sicrhau bod staff yn cael eu cyflogi a'u hyfforddi pan fydd arno'u hangen, ond nad ydynt yn eu gwaith yn rhy gynnar. Mae Llywodraeth Cymru ac ACC yn hapus â nifer yr ymgeiswyr, eu safon a'u hamrywiaeth ac nid ydynt wedi cael trafferth recriwtio ymgeiswyr addas ar gyfer y swyddi a hysbysebwyd hyd yn hyn.

2.15 Mae ACC wedi llwyddo i recriwtio nifer o aelodau o staff â phrofiad perthnasol ar fenthyg gan sefydliadau eraill, yn bennaf Llywodraeth Cymru a CThEM. Mae hyn yn golygu bod ACC yn dibynnu'n helaeth ar staff ar fenthyg o'r sefydliadau eraill hyn, i gychwyn – 15 o'r 19 penodiad hyd yn hyn, gan gynnwys uwch swyddi. Gyda secondiadau mae yna fantais o hyblygrwydd a throsglwyddiad hwylus o ran y cyflogwr a'r cyflogedig, ac maent wedi bod o gymorth i ddenu ymgeiswyr addas i ACC, sy'n sefydliad newydd a heb ei brofi. Serch hynny, mae dibyniaeth o'r fath ar staff ar fenthyg yn cyflwyno risg y bydd sgiliau allweddol yn cael eu colli unwaith fydd yr aelodau hyn o staff yn dychwelyd at eu cyflogwr 'cartref'. I liniaru'r risg yma, mae ACC yn dechrau darwahanu'r benthyciadau hyn, ac mae hefyd wedi hysbysebu swyddi eraill fel rolau parhaol.

2.16 Bydd cynllunio olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth yn dda, felly, yn hanfodol wrth reoli'r risg. Mae ACC yn ystyried trosglwyddo gwybodaeth yn flaenoriaeth allweddol, oherwydd ei ddibyniaeth ar staff wedi'u secondio, ac mae ganddo gynllun trosglwyddo gwybodaeth lefel uchel ar waith. Mae'n nodi'r wybodaeth i'w throsglwyddo a sut y bydd yn gwneud hyn, gyda ffocws ar ddysgu yn y gwaith yn hytrach na chyrsiau hyfforddiant ffurfiol. Bydd angen datblygu'r cynigion hyn yn gynllun dysgu a datblygu mwy manwl yn fuan yn 2018.

2.17 Mae tîm prosiect pobl wedi datblygu cynllun hyfforddiant cychwynnol i sicrhau bod yr holl staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a hyfforddiant technegol hanfodol cyn 1 Ebrill 2018. Bydd hyfforddiant pellach yn dilyn yn nes ymlaen, unwaith fydd gofynion yn gliriach, ac yn agosach at yr adeg y bydd staff yn defnyddio'r sgiliau perthnasol.

2.18 Mae'r prosiect pobl ar y trywydd cywir i gyflawni ei dargedau erbyn 1 Ebrill 2018, a'r brif her yw recriwtio'r 56 o aelodau o staff sy'n weddill fel eu bod yn eu swyddi erbyn y bydd ar ACC eu hangen. Yr heriau ychwanegol yw cynnal brwdfrydedd, morâl a chreadigrwydd cychwynnol yr holl staff; trosglwyddo sgiliau arbenigol at aelodau parhaol o staff; a chadw'r sgiliau hynny o fewn ACC yn y tymor canolig i hirach.

## Mae'r prosiect polisi gweithredol yn mynd rhagddo'n dda wrth ddatblygu canllawiau ac arferion gwaith allweddol ar gyfer ACC

2.19 Fel y nodwyd yn Rhan 1 uchod, mae prosiect polisi gweithredol ACC yn rheoli'r gwaith o ddrafftio a llunio is-ddeddfwriaeth i weithredu datganoli cyllidol yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, mae'r prosiect hwn hefyd yn datblygu polisïau mewnol ACC ei hun, gan gynnwys cydymffurfiaeth â pholisïau osgoi trethi a'r holl ganllawiau a'r gweithdrefnau sydd i'w gweld o'r tu allan. Hyd yn hyn, mae'r gwaith o gyflawni'r is-ddeddfwriaeth, polisïau gweithredol a chanllawiau ac arferion gwaith ACC ar y trywydd cywir. Serch hynny, mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn dynn.

2.20 Mae unigolion allweddol o Lywodraeth Cymru ac ACC yn drafftio'r canllawiau ar gyfer pob treth a'r is-ddeddfwriaeth. Mae cyfarfodydd misol yn sicrhau y caiff perthnasoedd ac adnoddau eu rheoli, bod ymgynghoriad llawn a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n hwylus i ACC.

2.21 Dechreuodd y gwaith drafftio ar y canllawiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r meysydd sy'n dod o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Gan adeiladu ar berthnasoedd a sefydlwyd wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth sylfaenol, rhannwyd drafftiau cynnar y Dreth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys CThEM, Cymdeithas y Cyfreithwyr ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, cyrff proffesiynol ac ymarferwyr bach a mawr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adborth cynnar ar y canllawiau drafft wedi bod yn gadarnhaol ac maent yn cael eu diwygio mewn ymateb i'w sylwadau.

2.22 Nodwyd 19 o eitemau pellach o is-ddeddfwriaeth gan y prosiect polisi gweithredol fel rhai sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu ACC a'i weithgareddau casglu trethi'n llawn ar 1 Ebrill 2018. Daethpwyd i gyswllt â Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y broses o basio'r ddeddfwriaeth, i adnabod y categori mwyaf addas ar gyfer pob eitem unigol o ddeddfwriaeth, fel a ganlyn:

- Gorchmynion Cychwyn: lle caiff deddfwriaeth arfaethedig ei chyhoeddi a'i chymeradwyo'n uniongyrchol gan Weinidogion neu swyddogion heb angen pleidlais gan y Cynulliad;
- Penderfyniad Negyddol: lle caiff deddfwriaeth ei chyhoeddi a'i chymeradwyo'n uniongyrchol gan Weinidogion neu swyddogion, ond gall y Cynulliad gytuno o fewn 40 niwrnod i ddirymu'r ddeddfwriaeth os yw Aelod Cynulliad yn cyflwyno cynnig o'r fath; a
- Phenderfyniad Cadarnhaol: lle caiff deddfwriaeth ei chyhoeddi, ac mae angen cymeradwyaeth y Cynulliad llawn cyn y gall ddod i rym.

2.23 Mae'r prosiect Polisi Gweithredol wedi sefydlu trefnlen fanwl i sicrhau bod pob eitem o ddeddfwriaeth unigol yn cael ei phasio yn ôl yr angen, er mwyn symud ymlaen yn hwylus gyda'r agenda diwygio cyllidol. Bydd angen i'r prosiect weithio'n agos gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion i sicrhau bod unrhyw risg posib neu oedi i'r broses ddeddfwriaethol yn cael eu lliniaru.

2.24 Erys ymgynghoriad fel elfen allweddol o'r broses ddeddfwriaethol. Caiff pob deddfwriaeth ddrafft (ac eithrio Gorchmynion Cychwyn) ei chraffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac mae yna fewnbwn gan randdeiliaid allanol.

## Mae'r prosiect gwasanaethau digidol yn dal i fod yn risg uchel wrth iddo gychwyn ar gam hanfodol yn y broses o gyflawni dros yr ychydig fisoedd sy'n weddill hyd nes 1 Ebrill 2018

2.25 Mae'r prosiect Gwasanaethau Digidol yn rheoli datblygiad parhaus y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi a'r gwaith o'i chyflawni. Unwaith y bydd yn ei lle, bydd y system yn galluogi trethdalwyr Cymru i gyflwyno ffurflenni ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi Cymru ar-lein o 1 Ebrill 2018. Bydd y system yn cynnwys dwy ran:

- **Cofrestru** – galluogi trethdalwyr a/neu eu hasiantau i gofrestru trwy'r system. Bwriedir cwblhau'r gwaith datblygu yn Rhagfyr 2017, gyda'r gwaith cofrestru'n dechrau ym mis Ionawr 2018.
- **Ffurflenni treth** – galluogi trethdalwyr a/neu eu hasiantau i gyflwyno ffurflenni treth ffurfiol ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a Threth Trafodiadau Tir. Bwriedir cwblhau'r gwaith datblygu yn Chwefror 2018, a 'mynd yn fyw' ar 1 Ebrill 2018.

2.26 Bwriad Llywodraeth Cymru oedd rhoi contract i gwmni cyflenwi llwyddiannus ar gyfer y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi erbyn diwedd 2016. Fodd bynnag, ni roddwyd contract hyd nes mis Ebrill 2017, ac felly cafwyd oedi o bedwar mis cyn dechrau'r prosiect. Roedd yr oedi hwn yn ganlyniad i nifer annisgwyl o uchel o geisiadau, a diffyg manylder yn y rhagofynion tendr cychwynnol a arweiniodd at geisiadau am eglurder gan gyflenwyr posibl. Penododd Llywodraeth Cymru gwmni cyflenwi ym mis Ebrill 2017 a dechreuodd y gwaith datblygu ym mis Mai 2017.

2.27 Mae sawl ffactor wedi cymhlethu cyflawniad y prosiect Gwasanaethau Digidol a'i reolaeth, ymhellach, gan gynnwys y canlynol:

- daeth amrediad y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi i fod yn fwy cymhleth yn dilyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru y byddai'r Dreth Trafodiadau Tir yn cynnal cyfradd dreth uwch ar ail eiddo, yn unol â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp.
- y penderfyniad ym mis Ionawr 2017 i'r ACC gael system gyllid fewnol wedi'i hintegreiddio gyda'r System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi, yn hytrach na defnyddio rhan o system Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn bodoli.
- i gychwyn, roedd diffyg eglurder rhwng y cwmni cyflenwi a thîm y prosiect ynghylch sut y byddai newidiadau i'r dyluniad yn cael eu rheoli dan fethodoleg YSTWYTH[4]. Roedd hyn oherwydd nad oedd digon o staff arbenigol o fewn ACC yn eu swyddi'n ddigon cynnar i weithio'n effeithiol mewn ffordd YSTWYTH gyda'r cwmni cyflenwi. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau parhaus ynghylch natur y newidiadau hynny a'u cost.

2.28 Mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru wedi gwneud defnydd da o'r prosesau adolygu porth trwy gydol 2016 a 2017 ar draws y rhaglen gyfan. Mae adolygiadau porth wedi bod yn llesol iawn i'r prosiect gwasanaethau digidol a chafwyd dau adolygiad allweddol – adolygiad prosiect llawn ym mis Mehefin 2017, ac adolygiad dilynol ym mis Medi 2017. Rhoddodd y ddau adolygiad sgôr 'oren/coch' i'r prosiect, ac fe'u diffiniwyd fel a ganlyn:

> ' Mae yna amheuaeth ynghylch y gallu i gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus, ac mae yna risgiau neu faterion sylweddol yn amlwg mewn nifer o feysydd allweddol'. Mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod y rhain yn cael sylw, ac i weld a oes modd datrys y sefyllfa.'

2.29 Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2017 edrychodd y prosiect ar gryfhau trefniadau ac adnabod a recriwtio'r bobl a'r sgiliau cywir yn fewnol i ymgysylltu'n well gyda'r cwmni cyflenwi. Cymerodd hyn amser ac roedd angen taro cydbwysedd gyda chyfyngiadau ar gostau ariannol yn y rhaglen. Canfu'r adolygiad ym mis Medi 2017 fod y prosiect wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran nifer o aregymhellion brys ers adolygiad mis Mehefin. Nodwy hefyd yn adolygiad mis Medi fod yr amserlen ar gyfer cyflwyno erbvn 1 Ebrill 2018 yn hynod gywasgedig er bod llawer o weithgarwch wedi bod, a hynny heb lawr o le i lithro, a bod yna risg fawr o hyd na fydd y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi wedi cael ei chyflwyno'n llywddiannus erbyn y dyddiad hwnnw.

4 Mae'r fethodoleg hon yn golygu lefel uchel o ymgynghori gyda rhanddeiliaid i adnabod gofynion, gan gyfuno gwaith datblygu a phrofi elfennau o'r system yn rhediadau byrion. Mae hyn yn cyferbynnu gyda'r dull 'rhaeadru' mwy traddodiadol o ddatblygu meddalwedd, lle mae'r camau dylunio, gweithredu a phrofi wedi'u gwahanu'n glir. Y farn eang yw bod AGILE yn cynhyrchu meddalwedd sy'n cydymffurfio'n well gydag anghenion y defnyddiwr, o fewn amserlenni tynn.

2.30 Ar ôl mis Medi 2017, a gyda phersonél allweddol bellach yn eu swyddi, gwelwyd newid sylweddol yn nhrefniadau rheoli'r prosiect rhwng y prosiect gwasanaethau digidol a'r cwmni cyflenwi. Yn benodol:

- gosodwyd amrediad ffurfiol y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi i ganolbwyntio ar yr hyn y mae arni angen ei gyflawni erbyn 1 Ebrill 2018 yn unig. Ni chaniateir unrhyw newidiadau pellach i'r dyluniad ac eithrio'r rheiny sy'n codi o waith datblygu a phrofi o dan fethodoleg YSTWYTH.
- diwygiwyd y cynllun prosiect ar gyfer cwblhau'r gwaith ac mae wedi cael ei leihau, a chytunwyd ar hyn rhwng y prosiect gwasanaethau digidol a'r cwmni cyflenwi. Dyrannwyd amserau penodol ar gyfer gwaith datblygu a phrofi gan ddefnyddwyr ymhob un o'r cyfnodau 'rhedeg' sy'n weddill o dan fethodoleg YSTWYTH.
- erbyn hyn mae yna gyswllt dyddiol rhwng y prosiect gwasanaethau digidol a'r cwmni cyflenwi, i fonitro'r cynnydd cyffredinol ac i adrodd ar unrhyw faterion sy'n codi. Rhoddir adroddiadau diweddaru rheolaidd i Reolwr Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru hefyd, yn wythnosol.

2.31 Yn ystod y cyfnod sy'n weddill tan y gweithredir y System, mae yna dri phrif faes ffocws ar gyfer y prosiect:

- mae angen i Reolwr Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru, ynghyd ag uwch staff a benodwyd i ACC yn ddiweddar, ddal y rhaglen at yr amrediad a bennwyd ar ei chyfer. Mae'n bwysig sicrhau bod y ffocws ar gyflawni'r System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi yn llwyddiannus fel y mae, yn hytrach na cheisio cyflwyno newidiadau pellach.
- rhaid i'r prosiect gwasanaethau digidol ddatblygu cynlluniau wrth gefn a phenderfynu'n derfynol arnynt. Er bod ffyrdd eraill o gasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir, ac mae modd amlinellu gweithdrefnau ar gyfer dod yn ôl o drychineb, nid yw'r cynlluniau wrth gefn manwl wedi'u cadarnhau eto.
- penodi rheolwr profi o fewn y prosiect Gwasanaethau Digidol. Bydd hyn yn sicrhau gwaith profi priodol a thrylwyr pen-i-ben cyn gweithredu.

2.32 Yn wreiddiol, y bwriad oedd cyflawni'r System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi ym mis Medi 2017 a dechrau profi'r System ym mis Hydref 2017. Roedd hyn yn rhoi cyfnod sylweddol wrth gefn cyn mis Ebrill 2018. Serch hynny, mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd newid i'r amrediad ar gyfer y gyfradd ychwanegol, a bydd y system gyllid a'r gwaith profi nawr yn dechrau ym mis Rhagfyr 2017 ac yn parhau hyd nes mis Chwefror 2018.

2.33 Ar y cam yma, gyda'r System Ddigidol ar gyfer Rheoli a Chasglu Trethi ar y trywydd iawn i gael ei chyflawni yng nghanol mis Chwefror, bach iawn o'r cyfnod wrth gefn sy'n weddill ac mae'r prosiect yn cychwyn ar gyfnod hanfodol. Gallai unrhyw faterion pellach o bwys fod yn fygythiad difrifol i'r gallu i gyflawni'r prosiect hwn. Er mai prin yw'r lle am wallau, mae'r holl arwyddion o gyfeiriad Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ac ACC yn awgrymu y bydd y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi ar waith erbyn 1 Ebrill 2018 os dilynir y cynllun prosiect diwygiedig.

## Mae'r prosiect cyllid wedi gwneud cynnydd sylweddol ar gaffael system ariannol fewnol a'i gweithredu, mewn cyfnod byr o amser

2.34 I gychwyn, bwriad Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru oedd y byddai ACC yn defnyddio system gyllid Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, penderfynodd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Chwefror 2017 y byddai ar ACC angen ei system gyllid ei hun. Yna, cynhaliodd y Rhaglen ymarfer meincnodi (a oedd yn cynnwys Revenue Scotland) i gadarnhau'r penderfyniad hwnnw a'i fireinio. Yn benodol, dysgodd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru y buasai'n haws integreiddio system cyllid trethi ochr yn ochr â datblygu System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi cyn mynd yn fyw. Buasai hefyd yn haws cyfateb taliadau treth unigol â ffurflenni treth unigol. Roedd cyflwyno cyfradd ychwanegol y Dreth Trafodiadau Tir hefyd yn ffactor pwysig gan bwysleisio'r angen i integreiddio'r ddwy system yn effeithiol. Mae'r penderfyniad yn tynnu sylw pellach at annibyniaeth ACC oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac yn golygu bod modd iddo ddatblygu ei systemau ei hun yn y dyfodol wrth i drethi ychwanegol gael eu trosglwyddo. Bydd y penderfyniad hwn yn arwain at gostau gweithredu ychwanegol o tua £0.5 miliwn, yn ogystal â chostau gweithredu ychwanegol parhaus ar gyfer staff cyllid a thechnoleg gwybodaeth ACC.

2.35 Sefydlwyd y prosiect cyllid gan Raglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Chwefror 2017, i adnabod prosesau ariannol priodol ar gyfer swyddogaethau casglu trethi a chyllid corfforaethol ACC, a'u cyflawni. Datblygodd y prosiect cyllid y gofynion, gan ddod o hyd i system gyllid 'oddi ar y silff' erbyn mis Ebrill 2017 a phenodi cwmni cyflenwi ym mis Mehefin 2017.

2.36 Cadarnhaodd y prosiect cyllid yr amrediad terfynol gyda'r cwmni cyflenwi a chaffael ar system gyllid ym mis Awst 2017. Mae'r gwaith o weithredu'r system ariannol eisoes yn mynd rhagddo'n dda ac yn cynnwys dwy ran: system gyllid gorfforaethol ar gyfer costau gweithredu, a system gyllid dreth i gasglu trethi a rheoli taliadau trethi. Y prif risg ar gyfer y prosiect yw'r rhyngwyneb angenrheidiol rhwng y system gyllid dreth a'r System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi, a dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2017 ar ofynion y rhyngwyneb. Mae'r system gyllid hefyd yn cynnwys system Adnoddau Dynol y bydd ACC yn ei defnyddio, er y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau'r gyflogres.

2.37 Hyd yn hyn, mae gwaith rheoli prosiect cadarn, a rheolwr prosiect profiadol, wedi sicrhau bod modd gwneud cynnydd sylweddol mewn cyfnod byr. Yn ôl yr arwyddion cyfredol, bydd y cynllun i gyflawni'r systemau cyllid ac Adnoddau Dynol y bydd ar y Rhaglen eu hangen erbyn 1 Ebrill 2018 yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â'r prosiect gwasanaethau digidol.

## Er bod y costau gweithredu'n parhau o fewn yr amrediad a amcangyfrifwyd, bydd cyllidebau gweithredol cychwynnol ACC yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol

2.38 Yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2016, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai'r gost o sefydlu ACC a'i gyllideb weithredol flynyddol yn cyfateb i'w amcangyfrifon cychwynnol. I gychwyn, amcangyfrifwyd y byddai costau sefydlu ACC rhwng £4.9 miliwn a £6.4 miliwn, ac amcangyfrifwyd y byddai costau gweithredu blynyddol ACC rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn. Fodd bynnag, roedd angen cyllidebau manylach i sicrhau bod ACC yn cael ei sefydlu ar amser ac o fewn y gyllideb.

2.39 Ni ddatblygwyd unrhyw gyllidebau manwl ar lefel y prosiect gan fod costau rhaglenni wedi'u hadrodd a'u craffu arnynt ar lefel reoli rhaglenni, a chan fod gwybodaeth ar lefel uchel wedi'i chyflwyno i Fwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2017, mis Medi 2017 a mis Rhagfyr 2017 yn esbonio'r newidiadau i'r costau gweithredu a chyflawni cychwynnol. Mae Eitem 11 yn dangos y costau yn y rhagolygon presennol.

Exhibit 11 – cymharu'r amcangyfrifon cychwynnol gyda chostau'r rhagolygon cyfredol

| | Amcangyfrifon cychwynnol | Rhagolygon cyfredol |
|---|---|---|
| Costau Cyflawni – Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru | £4.9 million - £6.4 million for the three- year period 2016-17 to 2018-19 | **£6.3 miliwn** far gyfer y cyfnod dwy flynedd o 2016-17 i 2017-18 |
| Costau Gweithredu Blynyddol – ACC | £2.8 million - £4 million in 2018-19 and beyond | **£1.5 miliwn yn 2017-18**<br>**£6.0 miliwn yn 2018-19 a 2019-20** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.40 Dengys yr amcanestyniadau cyfredol fod y costau gweithredu ar y trywydd iawn i fod o fewn yr amcangyfrifon gwreiddiol. Mae mwy o gostau'n codi yn y ddwy i dair blynedd gyntaf nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, ac ailbroffiliwyd y cyllid yn unol â hynny. Cododd costau o £1.3 miliwn yn 2016-17 ac mae Llywodraeth Cymru 'nawr yn credu y bydd y £5.0 miliwn o gostau sy'n weddill yn codi'n gyfan gwbl yn 2017-18. Nid yw Llywodraeth Cymru'n disgwyl i unrhyw gostau cyflawni pellach godi yn 2018-19 felly.

2.41 Adroddwyd bod costau rhedeg blynyddol ACC bellach oddeutu £6.0 miliwn ar gyfer blwyddyn lawn yn 2018-19 a 2019-20, yn erbyn yr amcangyfrif cychwynnol o hyd at £4.0 miliwn. Seiliwyd yr amcangyfrif o'r costau gweithredu blynyddol ar y rhagdybiaeth o sefydlu corff tebyg i Revenue Scotland gyda dulliau a systemau tebyg. Serch hynny, gwelwyd newidiadau sylweddol i systemau a phrosesau a gynlluniwyd o fewn ACC, a'r mwyaf nodedig oedd mabwysiadu system gyllid ac Adnoddau Dynol fewnol, a hefyd proses fewnol o gyhoeddi derbyniadau ar gyfer sieciau a ffurflenni treth ar bapur. Mae ychwanegu cyfradd uwch ar gyfer eiddo ychwanegol wedi cymhlethu prosesau'r systemau digidol a'r gofynion o ran adnoddau. Mae'r ddau gorff bellach yn eithaf gwahanol ac nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol gan fod ACC yn cyflawni mwy o swyddogaethau ei hun nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Oherwydd y newidiadau hyn, bydd cyllideb weithredol flynyddol ACC ar gyfer 2018-19 a thu hwnt yn sylweddol uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol, fel y dangosir yn y rhagolygon cyfredol uchod.

2.42 Nodwyd hefyd yn ein hadroddiad blaenorol fod cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2017-18 yn nodi £2.5 miliwn yn benodol ar gyfer costau gweithredu. Cadarnhaodd y Gweinidog ym mis Mawrth 2017 mai'r amcan diweddaraf ar gyfer costau cyflawni fyddai £3.5 miliwn, gydag £1.0 miliwn arall o gostau gweithredu yn ddisgwyliedig ar gyfer ACC yn 2017-18. Awgryma rhagolygon cyfredol Llywodraeth Cymru y caiff yr holl gyllideb sy'n weddill ar gyfer y costau cyflawni o £5.0 miliwn a chostau gweithredu ACC, sy'n £1.5 miliwn, ei wario yn 2017-18, ac felly y bydd angen cyllideb atodol ym mis Chwefror 2018 ar gyfer y gwahaniaeth rhwng yr amcan cychwynnol o £2.5 miliwn a'r rhagolygon cyfredol o £6.5 miliwn ar gyfer 2017-18.

2.43 Wrth symud ymlaen, mae angen i Raglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru ac ACC gynnal costau mwy manwl ac mae angen eu monitro ac adrodd arnynt er mwyn goleuo penderfyniadau a thrafodaethau yn ymwneud â'r gyllideb yn llawn yn y dyfodol.

## Mae perthnasoedd da yn cael eu datblygu rhwng ACC a rhanddeiliaid allanol

2.44 Fel y nodwyd ym mharagraffau 1.26 i 1.29, mae Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru ac ACC wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda rhanddeiliaid allanol, gan adeiladu ar y rheiny a sefydlwyd gan Drysorlys Cymru. Caiff ymgysylltiad â rhanddeiliaid ei reoli fel ffrwd gwaith ar draws y rhaglen, ac mae yna gynlluniau manwl ar waith i randdeiliaid er mwyn ymgysylltu ar feysydd gwaith penodol, gan gynnwys profi gan ddefnyddwyr, systemau, canllawiau, ac ati.

2.45 Mae yna Grŵp gweithredu ar y cyd gyda CThEM, er mwyn rheoli'r prosiect i drosglwyddo Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi. Datblygwyd perthnasoedd aeddfed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i CThEM weithio gyda Thrysorlys Cymru a Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru. Cynorthwywyd perthnasoedd gyda CThEM hefyd trwy recriwtio neu secondio nifer o reolwyr allweddol i mewn i ACC. Mae angen i hyn barhau wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad parodrwydd yn gynnar yn 2018, a fydd yn rhoi cadarnhad i Drysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru ynghylch y gallu i drosglwyddo Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r Dhreth Trafodiadau Tir o 1 Ebrill 2018.

2.46 Gweithiodd ACC yn dda gyda'r Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd, gan lunio canllawiau cyson ar gyfer eiddo sydd ar ffin Cymru/Lloegr. Mae angen i'r cydweithio hwn barhau wrth i'r cyrff rannu gwybodaeth at ddibenion cydymffurfiaeth ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir. Wrth i fwy o staff ACC gael eu penodi ac wrth i'r systemau a'r prosesau gael eu sefydlu, mae yna angen clir ar lefel weithredol i adlewyrchu'r ymgysylltu da hyd yn hyn gan uwch reolwyr.

2.47 Wrth edrych ymlaen ymhellach, mae angen meithrin perthnasoedd yn ofalus gyda'r rhain a rhanddeiliaid eraill, fel cyrff llywodraeth leol, er mwyn gwireddu potensial ACC i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus, i sbarduno newid wrth gyflawni polisïau allweddol yng Nghymru.

# Atodiadau



# Atodiad 1 – Dulliau

Gwnaethom adolygu ystod o wybodaeth yn ystod ein harchwiliad gan gynnwys:

- Deddfwriaeth amrywiol gan gynnwys Deddf Cymru 2014, Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a Deddf Treth Trafodiadau Tir, Deddf Gwarediadau Tirlenwi a Deddf Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)
- Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am ddatganoli cyllidol yn ymwneud â Chymru a'r Alban
- Adroddiadau ar ragolygon trethi gan Brifysgol Bangor
- Cynlluniau prosiect
- Yr adroddiadau ar uchafbwyntiau gan fyrddau prosiect/grwpiau.
- Y dogfennau llywodraethu
- Canlyniadau adolygiadau porth a gynhaliwyd
- Adroddiadau amrywiol gan gyrff archwilio eraill ar ddatganoli cyllidol a rheoli prosiectau gan gynnwys Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru

Cawsom gyflwyniad rhagarweiniol gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru a gwmpasodd y canlynol:

- Cyflwyno cynnydd i'r tîm archwilio i osod y cefndir
- Nodi sut y mae'r prosiect ac ACC yn datblygu
- Sut mae'r agenda, y rhaglen a'r prosiectau yn cael eu cyflawni
- Y risgiau allweddol i gyflawni'r gwaith
- Argymhellion adolygiadau porth a'r camau sydd ar waith
- Y camau nesaf ar gyfer y prosiectau/grwpiau unigol ac agenda diwygio cyllidol gyffredinol Llywodraeth Cymru

Cawsom arddangosiad o'r system ar gyfer casglu trethi, sy'n cael ei datblygu gan Awdurdod Cyllid Cymru

Buom yn siarad ag ystod eang o gynrychiolwyr a swyddogion o:

- Lywodraeth Cymru gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a Chyfarwyddwr Gweithredol Awdurdod Cyllid Cymru,
- Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Y cwmni sy'n cyflenwi ac yn datblygu'r System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi
- Aelodau allanol o Fwrdd Rhaglen Gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet
Office of the First Minister and Cabinet Office

Mr Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CAERDYDD
CF11 9LJ

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28/12/2017

Annwyl Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru

**Ymateb i'r adroddiad ' Y gwybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru' (21 Rhagfyr 2017)**

Hoffwn ddiolch i chi am yr adroddiad hwn. Rwyf yn falch bod y cynnydd sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf wedi'i gydnabod, ac rwy'n croesawu'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Fel y nodir gan yr adroddiad, mae hon yn rhaglen ddeinamig, sy'n addasu o hyd i ddarparu yn ystod amser pwysig ar ddaith datganoli cyllidol. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y meysydd penodol sy'n hanfodol i fod yn barod ar gyfer fis Ebrill 2018. Yr ydym yn hyderus y gellir ateb yr heriau hyn ac y byddwn yn llwyddiannus yn cyflawni datganoli trethi i Gymru.

Mae'r ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fod yn egnïol ac yn adeilado. O ganlyniad, unwaith eto, mae'r adroddiad hwn yn darparu adlewyrchiad wybodus a chywir o ein hymdrechion i ddiwygio cyllidol i Gymru. Yr wyf yn croesawu bwriad Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal adolygiad pellach o lwyddiant y gweithrediadau a'r paratoadau ar gyfer Cyfradd Treth Incwm Cymru yn yr Hydref.

Yn gywir

**Andrew Jeffreys**
Cyfarwyddwr
Trysorlys Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Telephone: 03000 250870
andrew.jeffreys@llyw.cymru
/ andrew.jeffreys@gov.wales
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

Copi: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cadeirydd Y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru
Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru
Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru
Uned Llywodraethu Corfforaethol, Llywodraeth Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eitem 4

# Y trydydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w ddwyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd, yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2017



OGL © Hawlfraint y Goron 2017

WG33678 ISBN digidol 978-1-78903-090-7 ISBN argraffu 978-1-78903-135-5

**Cynnwys**


| | tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 1 |
| **Cyflwyniad** | 2 |
| **Fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru** | 3 |
| **Polisi Trethi Cymru** | 4 |
| **Treth Trafodiadau Tir** | 5 |
| **Treth Gwarediadau Tirlenwi** | 7 |
| **Awdurdod Cyllid Cymru** | 10 |
| **Treth incwm** | 12 |
| **Y gallu i greu treth Gymreig newydd** | 14 |
| **Benthyca** | 16 |
| **Gweithdrefnau cyllidebol** | 18 |
| **Atodiad 1: Ymgysylltu** | 20 |
| **Atodiad 2: Gwybodaeth bellach** | 23 |
| **Atodiad 3: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | 25 |

**Rhagair**




Mewn ychydig fisoedd, bydd y trethi Cymreig cyntaf am bron 800 mlynedd yn cael eu cyflwyno. Byddant yn cael eu rheoli a'u gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru, yr adran anweinidogol gyntaf i'w chreu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn rhai pwysig, wrth i Gymru ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb am ei chyllid, a mynd ati i ddefnyddio ei hysgogiadau trethu i helpu i gefnogi ei huchelgais polisi ehangach.

Gwelwyd cynnydd ar sawl agwedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y ddeddfwriaeth angenrheidiol i gyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi; sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru; a datblygu gweithdrefnau cyllidebol newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Fis Rhagfyr diwethaf, deuthum i gytundeb â Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol, fframwaith sy'n pennu'r trefniadau ariannol ar gyfer Cymru ar ôl mis Mawrth 2018. Mae hyn wedi cyflwyno cyllid gwaelodol hirdymor er mwyn darparu sail decach o ba un y gall Cymru dyfu a datblygu i ddiwallu anghenion ei dinasyddion. Yn ei dro, mae hyn wedi golygu bod dechrau gweithio tuag at gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig ym mis Ebrill 2019 yn bosibl.

Gyda chyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig, bydd £5 biliwn o refeniw trethi datganoledig a lleol yn cael ei godi yng Nghymru, i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ein dull unigryw ein hunain o ran polisi trethi, sef rhywbeth yr oeddwn wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin. Mae'r fframwaith polisi trethi yn ceisio darparu cyfundrefn sy'n eglur, yn sefydlog, yn flaengar ac yn gadarn; yn ganolog i hyn fydd y gwaith ymgysylltu â threthdalwyr, arbenigwyr trethi, busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae ymateb gan ddinasyddion i'r alwad am awgrymiadau o ran trethi newydd wedi amlygu bod yna wir ddiddordeb yn y modd y gallwn ddefnyddio trethi fel ffordd o gyflawni rhai o'n hamcanion ehangach ar gyfer Cymru – er enghraifft, mynd i'r afael â phryder amgylcheddol neu gymdeithasol, creu swyddi a hyrwyddo twf, neu helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig neu seilwaith hanfodol – neu gyfuniad o'r rhain.

Mae nifer o bobl wedi neilltuo amser ac arbenigedd i gynghori Llywodraeth Cymru yn ei pharatoadau ar gyfer datganoli trethi. Rwy'n ddiolchgar am eu cyfraniadau defnyddiol, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gydag unigolion a sefydliadau ledled Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

Mae ein paratoadau ar gyfer datganoli trethi ymhell ar y blaen. Rydym yn parhau i weithio'n galed i sicrhau proses drosglwyddo lefn pan fydd y trethi Cymreig yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill.



Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Cyflwyniad**

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014[1], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r darpariaethau o dan Ran 2, tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio wedi i'r darpariaethau olaf gael eu gweithredu. Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol:

*(a) Datganiad o'r camau sydd wedi cael eu cymryd, pa un ai gan luniwr yr adroddiad neu gan eraill, ers llunio'r adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

*(b) Datganiad o'r camau y mae lluniwr yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, pa un ai gan luniwr yr adroddiad neu gan eraill, tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

*(c) Asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi cael eu rhoi ar waith,*

*(d) Asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyg arian, ac o unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u mewnosod neu sydd wedi'u diwygio gan y Rhan hon,*

*(e) Datganiad o ran effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac*

*(f) Unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac y mae lluniwr yr adroddiad yn ystyried y dylid eu dwyn i sylw'r Senedd neu'r Cynulliad.*

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014 – adran 10 (trethdalwyr Cymru i ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol). Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynnwys cynnydd tuag at gyflawni adran 22 yn yr adroddiad hwn.

Mae disgwyl i'r adroddiadau fod yn barod bob blwyddyn cyn pen-blwydd y dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol – 17 Rhagfyr 2014 – a bydd disgwyl i'r adroddiad terfynol fod yn barod flwyddyn ar ôl y diwrnod y bydd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cael ei gweithredu, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

**Fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru**

1. Yn dilyn negodiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol[2] a'r Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys, ar 19 Rhagfyr 2016, y cytunwyd ar fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru[3].

2. Mae'r fframwaith cyllidol yn cynnwys y pecyn canlynol o drefniadau:

   - Diwygio fformiwla Barnett fel y mae'n cael ei chymhwyso i Gymru – rhoi'r cyllid gwaelodol a argymhellwyd gan Gomisiwn Holtham ar waith;

   - Cytundeb o ran y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli trethu (gan y bydd hyn yn lleihau'r refeniw sy'n mynd i Lywodraeth y DU) sy'n adlewyrchu amgylchiadau unigryw Cymru, gan gynnwys dull ar gyfer addasu'r grant bloc ar gyfer treth incwm, sy'n sicrhau bod nodweddion y sylfaen drethu yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu mewn modd priodol;

   - Benthyca – bydd terfyn benthyca cyfalaf Cymru yn cynyddu i £1 biliwn;

   - Cronfa Wrth Gefn Cymru newydd i alluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb am flynyddoedd – bydd Llywodraeth Cymru yn gallu arbed refeniwiau gwarged rhag trethi datganoledig a thanwario ar y Terfyn Gwariant Adrannol yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru, i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod;

   - Darpariaeth ar gyfer trosolwg annibynnol – gan roi rôl i gyrff annibynnol, lle bo angen, i ddarparu mewnbwn i anghydfod rhwng llywodraethau Cymru a'r DU ar faterion sy'n ymwneud â chytundeb y fframwaith cyllidol.

3. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, mae'r pecyn yn diogelu cyllideb Llywodraeth Cymru rhag risgiau gormodol a all godi o ganlyniad i ddatganoli pwerau trethu, yn cynnwys effaith rhai newidiadau o bwys i bolisïau'r DU. Mae'r cytundeb hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli treth incwm yn rhannol i Gymru – cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig – ym mis Ebrill 2019.

[2] Mark Drakeford AC oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol o fis Mai 2016 tan fis Tachwedd 2017, ac yna daeth yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar ôl ad-drefnu'r Cabinet.
[3] http://gov.wales/docs/caecd/publications/161219-fiscal-agreement-cy.pdf

**Polisi trethi Cymru**

4. Ar 12 Mehefin 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid *Fframwaith Polisi Trethi*[4] a chynllun gwaith polisi trethu 2017[5]. Mae'r fframwaith yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ei bwerau trethu, gan gynnwys y pum egwyddor trethu:

   Dylai trethi Cymreig wneud y canlynol:
   - Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mor deg â phosibl;
   - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran cefnogi swyddi a thwf;
   - Bod yn eglur, yn sefydlog ac yn syml;
   - Cael eu datblygu trwy gydweithrediad a chyfranogiad;
   - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru fwy cyfartal.

5. Roedd y cynllun gwaith yn cynnwys y meysydd ymchwil sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru – rhai ohonynt yn rhai byrdymor ac yn cynnwys dadansoddiad i danategu'r penderfyniadau o ran cyfraddau a bandiau ar gyfer y trethi Cymreig newydd – treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi, i'w cyflwyno ym mis Ebrill 2018 – a gwaith mwy hirdymor, er enghraifft adolygu'r cydbwysedd cyffredinol o ran trethi rhwng incwm ac eiddo.

6. Cafodd diweddariad ar gynnydd, yn cynnwys papur technegol manwl ar gyfraddau a bandiau trethi (atodiad), ei gyhoeddi ar 3 Hydref 2017, law yn llaw â Chyllideb amlinellol ddrafft Llywodraeth Cymru[6].

[4] http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf
[5] http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-workplan-cy.pdf
[6] http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-welsh-tax-policy-report-a-cy.pdf

**Treth trafodiadau tir**

Mae Adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth Gymreig ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir. Mae Adran 16 ac Atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y DU i ddiddymu treth dir y dreth stamp yn y DU mewn perthynas â Chymru. Bydd y diwygiadau yn weithredol ar neu ar ôl dyddiad a benodir gan y Trysorlys trwy Orchymyn. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai treth dir y dreth stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018[7].

Deddfwriaeth

7. Pasiodd Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 trwy brosesau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod hanner cyntaf 2017.

8. Wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad, cyflwynwyd nifer o welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys yr atodlen ar gyfer y cyfraddau uwch ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl, ychwanegu adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir o fewn chwe blynedd i'w roi ar waith, ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno canllawiau i drethdalwyr pan fydd eiddo ar y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac ymrwymiad y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn dadansoddi data ynglŷn â'r dreth trafodiadau tir mewn perthynas â'r gyfradd uwch, er mwyn llywio'r drafodaeth gydag awdurdodau lleol ynghylch effaith y cyfraddau uwch yn eu hardaloedd. Mae'r Bil fel y pasiwyd ef hefyd yn cynnwys nifer o welliannau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

9. Cafodd Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2017.

10. Cafodd gorchymyn cychwyn cyntaf y Ddeddf ei wneud ar 24 Medi 2017. Roedd y gorchymyn hwn yn rhoi cychwyn i ddarpariaethau penodol ar 18 Hydref 2017. Yn anad dim, roedd y darpariaethau a gychwynnwyd yn rhai a oedd yn angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau cyn y dyddiad y rhoddir y dreth ar waith, sef 1 Ebrill 2018. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau a gychwynnwyd yn cynnwys:
    - Pennu cyfraddau trethi a bandiau trethi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi;
    - Pennu swm y rhent perthnasol;
    - Creu'r rheolau trosiannol o ran y newid o dreth dir y dreth stamp i'r dreth gwarediadau tirlenwi;
    - Cyflawni'r gofynion gweinyddol.

[7] *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol* Cm 8838, para 16: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

11. Mae'r rheoliadau hyn, at ei gilydd, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu trafod ac yn pleidleisio arnynt ym mis Ionawr 2018.

12. Bydd rhagor o ddarpariaethau yn cael eu cychwyn maes o law i sicrhau bod Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn dod i rym yn llawn erbyn 1 Ebrill 2018.

Cyfraddau a bandiau

13. Cafodd y cyfraddau a'r bandiau treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir eu cyhoeddi yng Nghyllideb amlinellol ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 ar 3 Hydref 2017[8] i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru am drethi a gwariant. Roedd y cyfraddau a'r bandiau treth hyn yn amodol ar ystyriaeth bellach o unrhyw newidiadau a wneid i dreth dir y dreth stamp yng Nghyllideb Hydref Llywodraeth y DU. Yn dilyn y newidiadau i dreth dir y dreth stamp i brynwyr tro cyntaf, cyhoeddwyd cyfraddau a bandiau newydd ar gyfer eiddo preswyl ar 11 Rhagfyr [9].

14. Ar gyfer eiddo preswyl, mae gennym chwe band a chyfundrefn dreth raddoledig sy'n golygu na fydd tua 80% o brynwyr tro cyntaf yng Nghymru yn talu treth o gwbl ac y bydd tua 90% o brynwyr tai yng Nghymru naill ai'n talu'r un faint o dreth, neu lai o dreth, nag y byddent yn ei wneud o dan dreth dir y dreth stamp. Mae yna bedair cyfradd ar gyfer eiddo amhreswyl, a thair cyfradd lesio amhreswyl. Gan Gymru y bydd y gyfradd dreth gychwynnol isaf yn y DU ar gyfer prynu safleoedd busnes, a bydd busnesau sy'n prynu safle yng Nghymru sy'n costio hyd at £1.1 miliwn un ai ddim yn talu treth o gwbl, neu'n talu llai o dreth nag o dan dreth dir y dreth stamp.

15. Cafodd gwybodaeth am yr ystyriaethau a roddwyd i osod y cyfraddau a'r bandiau ei chynnwys yn yr *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru*, a gyhoeddwyd law yn llaw â'r Gyllideb amlinellol ddrafft[10]. Cafodd y rhagolygon refeniw trethi a gynhwyswyd yn y Gyllideb ddrafft eu cadarnhau gan Brifysgol Bangor, ac mae disgrifiad o fethodoleg y rhagolygon refeniw trethi yn cael ei ddarparu yn ei hadroddiad[11]. Bydd rhagolygon diwygiedig yn cael eu cyhoeddi gyda'r Gyllideb derfynol ar 19 Rhagfyr a byddant yn cael eu cadarnhau gan Brifysgol Bangor hefyd.

16. Bydd rheoliadau i ddod â chyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir i rym yn cael eu gosod gyda'r Memorandwm Esboniadol Cysylltiedig, fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ym mis Ionawr 2018.

17. Ym mis Rhagfyr 2017, ysgrifennodd CThEM i roi gwybod am yr arbedion a fyddai'n deillio o'r ffaith na fyddai treth dir y dreth stamp yn weithredol yng Nghymru bellach; y gost i Lywodraeth Cymru o bontio o'r dreth stamp i dreth dir y dreth stamp; a chost cyflwyno cyfraddau Cymreig y dreth incwm. Mae'r costau hyn yn dal i gael eu trafod.

[8] Cynigion amlinellol Cyllideb Ddrafft 2018-19:
http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-budget-narrative-a-cy.pdf
[9] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/lttratesandbands/?lang=cy
[10] http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-welsh-tax-policy-report-a-cy.pdf
[11] Prifysgol Bangor (2017) *Gwaith Craffu Annibynnol ar Ragolygon Refeniw Trethi Datganoledig*:
http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-bangor-report-cy.pdf

**Treth gwarediadau tirlenwi**

Mae Adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth Gymreig ar warediadau tirlenwi. Mae Adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu treth dirlenwi y DU mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) hefyd yn datgan y byddai'r dreth dirlenwi yn dirwyn i ben o fis Ebrill 2018.

<u>Deddfwriaeth</u>

18. Ar 28 Tachwedd 2016, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Aeth Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) trwy gamau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hanner cyntaf 2017.

19. Wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad, cyflwynwyd nifer o welliannau arwyddocaol. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno adran 91 yn ystod Cyfnod 3. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru wrth arfer eu pwerau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Hefyd, yn ystod Cyfnod 2, cyflwynwyd y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynllun cymunedau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi ac ychwanegwyd Atodlen 1: Deunyddiau Cymwys.

20. Cafodd Deddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 7 Medi 2017.

21. Cafodd y gorchymyn cychwyn cyntaf ar gyfer y Ddeddf ei wneud ar 24 Medi 2017. Roedd y gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol ar 18 Hydref 2017. Yn anad dim, roedd y darpariaethau a gychwynnwyd yn rhai a oedd yn angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau gwneud rheoliadau i gyflawni'r canlynol:
    - Pennu cyfraddau trethu ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi;
    - Sefydlu'r Credyd Ansolfedd Cwsmer;
    - Sefydlu'r gofynion ar gyfer pennu atebolrwydd treth dirwyon gwastraff, gan gynnwys profi colled wrth danio;
    - Addasu rhyddhad;
    - Diwygio Rhestr 3, cynnwys anfoneb tirlenwi.

    Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig, yn bennaf, i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu trafod ac yn pleidleisio arnynt ym mis Ionawr 2018.

22. Roedd y darpariaethau eraill a gychwynnwyd yn cynnwys y canlynol:
    - Y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i ddal sylw ar yr amcan i leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru wrth roi eu pwerau a'u dyletswyddau ar waith o dan y Ddeddf.

23. Roedd darpariaethau eraill a gychwynnwyd ar 8 Tachwedd yn cynnwys y canlynol:

- Darpariaethau rhannu gwybodaeth i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth ag Awdurdod Cyllid Cymru;
- Y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

24. Bydd ail orchymyn cychwyn yn cael ei wneud ym mis Ionawr 2018 i roi cychwyn i ddarpariaethau penodol ym mis Ionawr, a bydd gweddill darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.

Cyfraddau

25. Cafodd y cyfraddau treth arfaethedig ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi eu cyhoeddi yng Nghyllideb amlinellol ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 ar 3 Hydref 2017[12].

26. Mae yna dair cyfradd o drethi – cyfradd is ar gyfer deunyddiau sy'n bodloni'r amodau a bennir yn y Ddeddf, cyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall, a chyfradd gwarediadau anawdurdodedig newydd ar gyfer gwarediadau trethadwy sy'n cael eu gwneud mewn mannau heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

27. Cafodd gwybodaeth am yr ystyriaethau a roddwyd i osod cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ei chynnwys yn *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru*, a gyhoeddwyd law yn llaw â'r Gyllideb amlinellol ddrafft[13]. Cafodd y rhagolygon refeniw trethi eu cadarnhau gan Brifysgol Bangor, ac mae disgrifiad o fethodoleg y rhagolygon refeniw trethi yn cael ei ddarparu yn ei hadroddiad[14].

28. Bydd rheoliadau i ddod â chyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi i rym yn cael eu gosod gyda’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ym mis Ionawr 2018.

29. Ym mis Rhagfyr 2017, ysgrifennodd CThEM i nodi na fyddai unrhyw gost i Lywodraeth Cymru wrth newid o’r dreth dirlenwi i’r dreth gwarediadau tirlenwi. Bydd CThEM yn trosglwyddo’r arbedion y bydd yn eu gwneud trwy beidio â gweinyddu’r dreth dirlenwi yng Nghymru bellach i Lywodraeth Cymru.

Cynllun Cymunedau y  Dreth Gwarediadau Tirlenwi

30. Mae cynllun cymunedau y dreth gwarediadau tirlenwi yn cael ei sefydlu i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff i dirlenwi yn cael effaith arnynt. Bydd y cynllun yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol.

31. Er mwyn sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cyrraedd ein cymunedau, bydd y cynllun yn cael ei ddarparu ar ffurf grant, gyda'r arian yn cael ei ddyrannu i drydydd parti, i'w ddosbarthu'n uniongyrchol i brosiectau.

[12] *Cynigion amlinellol Cyllideb Ddrafft 2018-19*: http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-budget-narrative-a-cy.pdf
[13] http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-welsh-tax-policy-report-a-cy.pdf
[14] Prifysgol Bangor (2017) *Gwaith Craffu Annibynnol ar Ragolygon Refeniw Trethi Datganoledig*: http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-bangor-report-cy.pdf

32. Ar 13 Rhagfyr 2016, cafodd papur diweddaru ei gyhoeddi, a oedd yn amlinellu penderfyniadau allweddol a wnaed hyd hynny o ran datblygu'r cynllun, ac yn pennu sut yr ydym yn bwriadu ei siapio. Daeth y cyfnod ymateb i'r papur i ben ar 7 Chwefror 2017, a chafodd crynodeb o'r ymatebion eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

33. Cafodd ymarfer caffael i benodi'r corff dosbarthu i weinyddu'r grant ei gyhoeddi ar 8 Medi, a daeth i ben ar 11 Hydref. Bwriedir penodi ym mis Rhagfyr.

34. Ar 3 Hydref 2017, dyrannodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol £1.5 miliwn y flwyddyn i'r cynllun, am y pedair blynedd nesaf, yn rhan o Gyllideb amlinellol ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru.

<u>Asesiad parodrwydd</u>

35. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar y cyd i asesu pa mor barod yw’r trefniadau i bontio o dreth dir y dreth stamp a’r dreth dirlenwi i’r dreth trafodiadau tir a’r dreth gwarediadau tirlenwi o 1 Ebrill 2018. Cynhelir yr asesiad hwn ar y cyd o 31 Rhagfyr 2017 ymlaen. Cynhelir cyfarfod o Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Swyddogion) yn gynnar yn 2018 i asesu pa mor barod yw’r trefniadau yn unol â’r meini prawf y cytunwyd arnynt, a bydd Gweinidogion yn cyfnewid llythyrau wedi hynny.

**Awdurdod Cyllid Cymru**

36. Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru ei sefydlu ar 18 Hydref 2017. Dyma'r adran Anweinidogol gyntaf i gael ei chreu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gyfreithiol gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymreig. Cynhaliodd Awdurdod Cyllid Cymru ei gyfarfod bwrdd cyntaf ym mis Hydref, yn ei bencadlys newydd yn Nhrefforest.

Casglu trethi

37. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i alluogi Awdurdod Cyllid Cymru i ymsefydlu, ac i fod yn weithredol ac yn barod i gasglu trethi o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Bydd cofrestru ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir yn dechrau yn gynnar yn 2018, a hynny er mwyn galluogi trethdalwyr ac asiantwyr i gofrestru eu manylion yn gynnar, gan sicrhau proses drosglwyddo lefn o ran ffeilio a thalu ffurflenni treth o fis Ebrill 2018 ymlaen. Bydd trethdalwyr ac asiantwyr yn gallu cofrestru a ffeilio eu ffurflenni treth ar-lein.

38. Disgwylir mai £6.3m fydd cost lawn rhoi Awdurdod Cyllid Cymru ar waith dros y cyfnod dwy flynedd 2016-17 a 2017-18, gyda chostau gweithredu blynyddol o £6m o 2018-19 ymlaen.

Penodiadau a phobl

39. Cafodd cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru, Kathryn Bishop, ei phenodi ym mis Gorffennaf 2017, a chafodd aelodau'r bwrdd eu penodi ym mis Medi. Cafodd Dyfed Alsop, cyfarwyddwr cyfredol rhaglen Awdurdod Cyllid Cymru, ei benodi'n brif weithredwr cyntaf Awdurdod Cyllid Cymru. Hyd yma, mae'r broses recriwtio wedi bod yn amserol ac yn effeithiol – mae dwy haen uchaf Awdurdod Cyllid Cymru bellach wedi'u sefydlu, yn cynnwys arbenigedd penodol o ran adnoddau dynol, cyllid, y gyfraith, strategaeth, cydymffurfiaeth, gweithrediadau a dadansoddi data. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn meithrin gallu dwyieithog trwy recriwtio'n allanol ar gyfer ei dîm delio â'r cyhoedd. Mae Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru wedi gweithio'n agos i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r sefydliad newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r trethi datganoledig.

Rhanddeiliaid a phartneriaid

40. Mae rhanddeiliaid wedi gwirfoddoli i brofi'r systemau trethiant a'r cyfarwyddyd. Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn cael ei brofi gan bwyllgorau trethiant perthnasol Cymdeithas y Cyfreithwyr a Sefydliad Siartredig Trethiant. Bydd ymarferwyr ledled y DU (yn cynnwys yr Alban) yn profi'r systemau a'r cyfarwyddyd, fel ei gilydd, a byddant yn cynnwys ymarferwyr a fydd yn gweithio ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Bydd y cyfarwyddyd ar gyfer cofrestru yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2018, a bydd pob cyfarwyddyd wedi cael ei gyhoeddi cyn 1 Ebrill 2018.

41. Mae memoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau rhannu gwybodaeth yn cael eu datblygu ar y cyd â'r Gofrestrfa Tir, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Chyllid yr Alban.

42. Mae gwaith wedi datblygu gyda CThEM i gadarnhau parodrwydd o ran trafodaethau ynghylch y gallu technegol i drosglwyddo data i CThEM o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth a chytundeb rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdod

Cyllid Cymru a CThEM bron â chael eu cwblhau, a byddant yn cynnwys gweithgarwch o ran rhannu data a chyd-gydymffurfiaeth o fis Ebrill 2018 ymlaen.

43. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei enwi mewn is-ddeddfwriaeth Gymreig fel corff y bydd Awdurdod Cyllid Cymru, o bosibl, yn dirprwyo swyddogaethau iddo. Bydd manylion y ddirprwyaeth honno yn cael ei chymeradwyo gan fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru.

**Treth incwm**

Mae Adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol sydd i'w pennu gan y Cynulliad Cenedlaethol trwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o ran pwy yw "trethdalwyr Cymru".

Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu gyntaf, roedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer refferendwm a oedd i'w gynnal yng Nghymru ynghylch a ddylai'r darpariaethau treth incwm a bennwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn ddiweddarach, cafodd y darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017[15].

44. Yn dilyn y cytundeb ar y fframwaith cyllidol a'r ddarpariaeth yn Neddf Cymru 2017 a oedd yn dileu'r angen am refferendwm, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wrth y Cynulliad Cenedlaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig ym mis Ebrill 2019. Mae hyn yn golygu y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn penderfynu a fydd yn amrywio'r cyfraddau treth incwm sy'n cael eu talu gan drethdalwyr Cymru, neu'n eu cadw ar yr un lefel â'r cyfraddau y mae trethdalwyr Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn eu talu[16].

45. Pan fydd cyfraddau treth incwm Cymreig yn cael eu cyflwyno, bydd Llywodraeth y DU yn parhau'n gyfrifol am bron pob agwedd ar dreth incwm, a bydd CThEM yn parhau i gasglu'r dreth yng Nghymru. Mae CThEM wedi cadarnhau y bydd yn gallu cwblhau'r paratoadau angenrheidiol mewn pryd i gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig erbyn mis Ebrill 2019.

46. Er bod y broses o weithredu cyfraddau treth incwm Cymreig yn disgyn ar ysgwyddau CThEM a Llywodraeth y DU, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb manwl yn y gwaith hwn. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi pennu pum blaenoriaeth ar gyfer Cymru, sydd wedi cael eu cydnabod gan Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys.

- Ymrwymiad gan Weinidogion Llywodraeth y DU ac uwch-swyddogion CThEM i ymgysylltu â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol;
- Cytundeb gan CThEM i rannu data treth incwm amserol ac o ansawdd uchel ar gyfer Cymru, fel y gall dadansoddiad gael ei ddarparu i gefnogi'r cyngor o ran pennu cyfraddau treth incwm, fel yr amlinellir yn y fframwaith cyllidol;
- Cytundeb o ran dull o ymdrin â chydymffurfiaeth â threth incwm, sy'n bodloni anghenion Llywodraeth Cymru a CThEM, fel ei gilydd;
- Diffiniad eglur a chytundeb o ran costau;
- Cyfathrebu da â threthdalwyr Cymreig, yn arbennig mewn perthynas â'r Gymraeg.

[15] Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted
[16] Senedd yr Alban sy'n penderfynu ar y cyfraddau treth incwm ar gyfer trethdalwyr yr Alban.

47. Mae bwrdd prosiect traws-lywodraethol, sy'n cynnwys CThEM a swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi cael ei sefydlu i reoli'r ddarpariaeth cyn y dyddiad datganoli yn 2019. Mae cyd-weithgor hefyd wedi cael ei sefydlu, sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu, yn arbennig o ran nodi pwy yw'r trethdalwyr Cymreig, ac mae iddo ffocws eglur ar y Gymraeg.

48. Bydd costau rhoi'r cyfraddau treth incwm Cymreig ar waith yn cael eu cwblhau gan CThEM. Ym mis Rhagfyr 2017, ysgrifennodd CThEM i nodi mai ei amcangyfrif cynnar, ar sail y profiad o gyflwyno cyfradd treth incwm yr Alban, oedd rhwng £5m a £10m. Mae hyn yn is na'r gost ar gyfer cyfradd treth incwm yr Alban (£20m-£25m yw'r amcangyfrif diweddaraf).

49. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu gwneud newidiadau i'w systemau i alluogi'r gwaith o gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig yng Nghymru, a disgwylir y bydd yn gwneud hyn mewn modd trefnus ac effeithiol.

50. Bydd y cyfraddau treth incwm Cymreig, ynghyd â'r rhagolwg, yn ffurfio rhan o'r Gyllideb amlinellol ddrafft ar gyfer 2019-20, a gyhoeddir yn ystod yr hydref 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi addunedu i beidio â chodi'r cyfraddau treth incwm Cymreig yn ystod y Cynulliad presennol.

51. Mae Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys wedi ymrwymo i roi gwybodaeth lawn i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Pwyllgor Cyllid yn ystod y broses weithredu. Mae CThEM wedi penodi ei Gyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Strategaeth Cwsmeriaid a Chynllunio Trethi fel swyddog cyfrifol ychwanegol ar gyfer y cyfraddau treth incwm Cymreig, a bydd ar gael i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar gais. Bydd y swyddfa archwilio genedlaethol yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar berfformiad CThEM mewn perthynas â'r cyfraddau treth incwm Cymreig.

**Y gallu i greu treth Gymreig newydd**

Mae Adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gallu creu trethi datganoledig newydd trwy Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan i ddrafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y Gorchymyn gael ei gyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gallai'r rhain fod yn drethi o'r DU y mae Llywodraeth y DU yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am sut y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y DU.

52. Ar 4 Gorffennaf 2017, arweiniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol drafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol, a oedd yn nodi pwerau Deddf Cymru 2014 i gynnig trethi newydd mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig, ac yn cydnabod yr angen i brofi'r mecanwaith[17]. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i ymgysylltu â'r cyhoedd, busnesau, arbenigwyr ac academyddion i gyflwyno syniadau ar gyfer y trethi newydd ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ffurfio llinyn o gynllun gwaith y polisi trethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin[18].

53. Yn ystod yr haf, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried amrediad o syniadau am drethi, gan gynnwys nifer a awgrymwyd gan y cyhoedd yn dilyn trafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â'r syniadau a gynigiwyd gan Sefydliad Bevan yn ei adroddiad yn 2016 ar y trethi posibl ar gyfer Cymru[19]. Roedd y dadansoddi cychwynnol yn cynnwys ystyried syniadau yn erbyn egwyddorion trethu Llywodraeth Cymru (gweler tud. 4) a nodau'r strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb.*[20]

54. Ar 3 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol restr fer ar gyfer pedwar syniad posibl o ran trethi[21]:

- Treth ar blastig untro;
- Ardoll i ariannu gofal cymdeithasol;

[17] Roedd y cynnig yn llawn, y cytunwyd arno'n unfrydol, yn cynnwys y canlynol:
1. Nodi bod Deddf Cymru 2014 yn caniatáu i drethi Cymreig newydd gael eu creu.
2. Cydnabod y bydd yn angenrheidiol profi'r agwedd newydd hon ar y peirianwaith datganoli.
3. Croesawu amrywiaeth eang o syniadau posibl ar gyfer defnyddio'r posibilrwydd cyllidol newydd hwn yng Nghymru.
4. Credu y dylai unrhyw drethi newydd gadw at y farn a fynegwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a hynny yn ei ddatganiad ariannol a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2016, sef 'ni ddylid cael unrhyw newid er mwyn newid'.
5. Galw ar Lywodraeth Cymru i wneud trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o unrhyw drethi newydd, gan ei gwblhau o fewn chwe blynedd iddynt gael eu cyflwyno.
http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/rop.aspx?meetingid=4302&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=04/07/2017&endDt=04/07/2017
[18] http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-workplan-cy.pdf
[19] Sefydliad Bevan (2016) *Tax for Good: New Taxes for a Better Wales (*Saesneg yn unig)*:* https://www.bevanfoundation.org/publications/tax-good-new-taxes-better-wales/
[20] http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
[21] *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru,* tudalennau 22-23: http://gov.wales/docs/caecd/publications/171003-welsh-tax-policy-report-a-cy.pdf

- Treth twristiaeth;
- Treth tir gwag.

55. Yn dilyn ystyriaeth bellach o'r dystiolaeth, ynghyd â thrafodaeth â rhanddeiliaid yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018 i gyflwyno un o'r cynigion, yn rhan o'r broses o brofi mecanwaith Deddf Cymru.

**Benthyca**

Mae adran 20 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian (i liniaru amrywiadau mewn derbynebau treth ac i fynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi, hyd at gyfanswm o £500 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Bydd y pwerau benthyca newydd yn dod i rym trwy Orchymyn Cychwyn gan y Trysorlys, a hynny ochr yn ochr â datganoli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi (a gynllunnir ar gyfer Ebrill 2018).

Bydd cychwyn ar Adran 21 o Ddeddf Cymru 2014 yn diddymu pwerau benthyca (mwy cyfyngedig) Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, sydd wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) hefyd yn datgan:

*Benthyca Cyfalaf*

- O fewn y trothwy o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Gellir benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (trwy Lywodraeth y DU) neu o fanciau masnachol yn unig;
- Nes i'r pwerau benthyca cyfalaf newydd ddod i rym (a gynllunnir ar gyfer Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu terfyn uchaf benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod pob Adolygiad o Wariant, a hynny yng ngoleuni amgylchiadau economaidd a chyllidol, a lefel y trethiant datganoledig.

Benthyca Refeniw

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa wrth gefn newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd trwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben' (er enghraifft, derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl) – yr alwad gyntaf ar refeniw dros ben fydd ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar hyn o bryd, ac ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i mewn i gronfa wrth gefn neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

<u>Benthyca cyfalaf</u>

56. O dan Ddeddf Cymru 2017[22], ac yn unol â chytundeb y fframwaith cyllidol, bydd terfyn Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyca cyfalaf yn cynyddu o £500 miliwn i £1 biliwn. Bydd y cynnydd hwn yn cael effaith o fis Ebrill 2018 ymlaen, pan fydd y trethi datganoledig Cymreig – y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi – yn

[22]Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

cael eu cyflwyno. O dan y fframwaith cyllidol, bydd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol yn cynyddu o £125 miliwn i £150 miliwn pan fydd y cyfraddau treth incwm Cymreig yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019.

57. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwneud defnydd o hyd at £375 miliwn o fenthyca cyfalaf yn ystod y tair blynedd nesaf (£125 miliwn ym mhob blwyddyn). Mae'r £50 miliwn sy'n weddill (£25 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2019-20 a 2020-21) yn cael ei gadw wrth gefn.

58. Byddir yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd o fenthyca cynlluniedig yn ystod pob cyfnod cyllideb, a dim ond pan fydd pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o gyllid cyfalaf sydd ar gael wedi cael ei disbyddu, y byddir yn gwneud defnydd ohono.

59. Mae’r ffocws cychwynnol wedi bod ar weithredu'r pwerau benthyca, felly nid oes cais ffurfiol wedi ei wneud i ysgogi'r pwerau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bondiau i godi arian marchnad[23].

<u>Benthyca refeniw a Chronfa Wrth Gefn Cymru</u>

60. Oherwydd methodoleg y gwrthbwysiad i'r grant bloc y cytunwyd arni ar gyfer treth incwm, yn rhan o'r fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r terfyn benthyca refeniw o £500 miliwn a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2014 fod yn ddigonol i gwmpasu anwadaliadau yn y ffrwd gyllid sy'n deillio o bwerau trethu datganoledig.

61. Fel y cytunwyd arno yn y fframwaith cyllidol, bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru newydd yn cael ei chyflwyno o fis Ebrill 2018 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi i adnoddau heb eu disbyddu o dderbynebau treth a'r grant bloc gael eu storio ar gyfer y dyfodol. Bydd cronfa wrth gefn Cymru yn cael ei chapio ar £350 miliwn, a bydd y gallu i dynnu arian i lawr yn cael ei gyfyngu i £125 miliwn ar gyfer gwariant refeniw, a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Ni fydd yna unrhyw derfyn blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

62. Fel rhan o'r addasiad a wnaed er mwyn datganoli cyfraddau annomestig yn llwyr i Gymru (Ebrill 2015), bydd Llywodraeth y DU yn ychwanegu £98.5 miliwn at Gronfa Wrth Gefn Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ychwanegu unrhyw danwariant o 2017-18 (hyd at derfyn o £251.5 miliwn) i'r gronfa wrth gefn.

[23] O ganlyniad i drafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol, cytunodd Llywodraeth y DU i estyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys cyhoeddi bondiau: Papur Gorchymyn *Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy’n para i Gymru* (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, t. 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

**Gweithdrefnau cyllidebol**

Mae Adran 22 o Ddeddf Cymru 2014, sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer ei weithdrefnau cyllidebol ei hun.

63. Nid oes angen adroddiad ar gynnydd tuag at sefydlu gweithdrefnau cyllidebol newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Cymru 2014; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol adolygu cynnydd.

64. Ar 21 Mehefin 2017, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygiadau i'w Reolau Sefydlog er mwyn rhoi proses newydd o graffu ar gyllidebau ar waith. Yn ychwanegol, cytunwyd ar brotocol cyllidebu, a oedd yn pennu manylion pellach o ran y broses ddiwygio. Cafodd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, a gyhoeddwyd mewn dau gam ar 3 a 24 Hydref, ei gosod o dan y gweithdrefnau newydd hyn, a chraffwyd arni.

65. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli pwerau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth gynhwysfawr ar gyfer fframwaith ariannol Cymru, sy'n ymgorffori trefniadau cyllidebol ac atebolrwydd.

66. Mae gwelliannau pellach yn cynnwys cysoni cynnig cyllidebol a chyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru â ffin gyllidebol Trysorlys ei Mawrhydi. Mae dull gweithredu fesul cam wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer rhoi'r broses gysoni ar waith. Gosodwyd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2017 ar 28 Medi 2017; roedd y ddeddf yn dynodi ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru a phump o is-gwmnïau Llywodraeth Cymru, gan gwblhau ail gam yr ymarfer hwn.

67. Bydd cyfnod nesaf y gwaith alinio yn ystyried pob un o gyrff eraill Llywodraeth Cymru a ddosberthir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i Sector y Llywodraeth Ganolog.

<u>Gwaith craffu annibynnol ar ragolygon refeniw trethi</u>

68. Yn dilyn ymarfer caffael, cafodd Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor ei chontractio i ymgymryd â gwaith craffu annibynnol ar ragolygon refeniw trethi Llywodraeth Cymru, sydd i'w cynnwys yng Nghyllideb 2018-19. Cafodd adroddiad y brifysgol, a oedd yn cadarnhau rhagolygon Llywodraeth Cymru, ei gyhoeddi law yn llaw â'r Gyllideb amlinellol ddrafft ar 3 Hydref.

69. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ystyried yr opsiynau mwy hirdymor ar gyfer llunio rhagolygon refeniw trethi yn annibynnol, gan gynnwys rôl ar gyfer y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR).

<u>Addasiad grant bloc ar gyfer trethi Cymru</u>

70. Yn rhan o'r fframwaith cyllidol, cytunwyd ar y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli pwerau trethu. Bydd yr addasiad ar gyfer 2018-19, mewn ymateb i gyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, a diwedd treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru, yn cael ei gyfrifo ar sail

Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Tachwedd 2017 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyhoeddi'r manylion erbyn diwedd y flwyddyn. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran i ba raddau y dylai'r addasiad hwn ganiatáu ar gyfer effaith ymddygiadol rhagbrynu[24].

[24] Mae hon yn effaith untro, lle bydd pryniannau yn cael eu dwyn ymlaen yn fwriadol fel y gellir eu cwblhau o dan y system dreth sy'n bodoli. Roedd y cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth yr Alban yn gynnar yn 2016 yn cynnwys diwygiad penodol i'r addasiad grant bloc ar gyfer treth yr Alban sy'n cyfateb i'r dreth trafodiadau tir (sef y dreth trafodiadau tir ac adeiladau), er mwyn rhoi ystyriaeth i ragbrynu.

**Atodiad 1: Ymgysylltu**

Y Grŵp Cynghori ar Drethi

Mae'r Grŵp Cynghori ar Drethi yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar bolisi trethi a systemau gweinyddu trethi, ac mae'n ystyried yr effaith y gall polisïau newydd ei chael ar bobl Cymru. Mae ei aelodaeth yn cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau ac arbenigeddau, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl Cymru yn cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf.

Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ac yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn.

*Cylch Gwaith*

- Darparu cyngor a chymorth o ran datblygu polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi trethi Cymru ar randdeiliaid, ac ar economi a gwead cymdeithasol Cymru;
- Helpu i wella cyfathrebu ar draws amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â pholisi trethi a systemau gweinyddu trethi, er mwyn cyfrannu'n well at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch trethi a deddfwriaeth trethi.

*Aelodau* [25]

Andrew Evans, Geldards LLP
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Janet Jones, Ffederasiwn y Busnesau Bach
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Martin Mansfield, TUC Cymru
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Ian Price, CBI Cymru
Leighton Reed, Broomfield & Alexander Ltd, yn cynrychioli Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan

Mae rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cynghori ar Drethi ar gael yn:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/tax-advisory-group/?lang=cy

Y Fforwm Trethi

Mae'r Fforwm Trethi yn ymgysylltu â phroffesiynau a sefydliadau cynrychioladol ynghylch polisi trethi a systemau gweinyddu trethi. Mae'n darparu sgwrs ddwyffordd â gweithwyr treth proffesiynol am ddatblygu polisi a deddfwriaeth trethi yng Nghymru. Mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r Fforwm Trethi yn cael ei gadeirio gan brif weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru.

[25] Aelodaeth ym mis Tachwedd 2017.

*Cylch Gwaith*

- Trafod, hysbysu a rhoi adborth mewn perthynas â'r dull o roi datganoli trethi ar waith yng Nghymru;
- Darparu cyngor a chymorth mewn perthynas â chyfathrebu ar ddatblygiad polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach trethi Cymru a pholisi trethi Cymru ar randdeiliaid yng Nghymru;
- Gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i alluogi cyfathrebu ledled rhwydweithiau sefydledig allweddol mewn perthynas â systemau gweinyddu trethi.

*Aelodau*

Daw'r aelodaeth o'r proffesiynau a'r sefydliadau hynny y bydd newidiadau o ran gweinyddu trethi yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'r aelodau sy'n bresennol yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r rheiny sydd wedi bod i'r cyfarfodydd hyd yn hyn yn cynrychioli'r canlynol:

Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Cymdeithas Technegwyr Trethiant
Ysgol y Gyfraith Bangor
Cyngor Caerdydd
Ysgol y Gyfraith Caerdydd
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
Sefydliad Siartredig Trethiant
Cyngor Conwy
Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cyfyngedig
Cyngor Gwynedd
Ffederasiwn y Busnesau Bach
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Y Gofrestrfa Tir
Cymdeithas Cyfreithwyr Lloegr a Chymru
Y Swyddfa Symleiddio Treth
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru
Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Swyddfa Archwilio Cymru
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Coed Cadw
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae rhagor o wybodaeth am y Fforwm Trethi ar gael yma:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/tax-forum/?lang=cy

Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad

*Y cyfryngau cymdeithasol*

Mae datganoli trethi yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrif Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru: https://twitter.com/TrysorlysCymru

Mae amrywiaeth o offer cyfathrebu, gan gynnwys inffograffeg, cardiau Twitter, SurveyMonkey a doopoll, yn cael eu defnyddio i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

*Cylchlythyr*

Mae cylchlythyr Trysorlys Cymru, a gyhoeddir bob dau neu dri mis, yn darparu diweddariadau byr am gynnydd, ynghyd â chysylltiadau i wybodaeth bellach.

Gall tanysgrifwyr newydd gofrestru yma:
https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new?topic_id=UKWALES_CY_45

*Gwefan*

Mae tudalennau Trysorlys Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnig gwybodaeth bellach am ddatganoli trethi yng Nghymru, yn cynnwys cyhoeddiadau i'w gweld neu i'w lawrlwytho – yn gyhoeddiadau ffurfiol ac offer cyfathrebu, er enghraifft taflenni ffeithiau a thaflenni.

**Atodiad 2: Rhagor o wybodaeth**

Mae amrywiaeth o wybodaeth bellach am ddatganoli trethi i Gymru ar gael ar y Rhyngrwyd.

Cefndir

*Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)*

Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru i ystyried y dull ariannu yng Nghymru a sut y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010). Mae'r rhain, ynghyd â deunyddiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn i'w cael yma:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/framework/reports/?lang=cy

*Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)*

Cafodd Comisiwn Llywodraeth y DU y dasg o ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal ag i newidiadau cyfansoddiadol perthnasol:
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075134/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol

*Ymgyngoriadau*

Casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/devolved-taxes/?lang=cy

Y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/land-transaction-tax/?lang=cy

Y dreth gwarediadau tirlenwi, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/land-transaction-tax/?lang=cy

*Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted

*Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno treth trafodiadau tir o fis Ebrill 2018 ymlaen, ac yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/contents

*Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno treth gwarediadau tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted

Llywodraeth a Senedd y DU

*Deddf Cymru 2014*

Deddfwriaeth y DU yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

*Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014*

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (megis dyddiadau targed, mynediad cynnar i fenthyca a'r ffordd o ymdrin â chreu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU: *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

*Papur Gorchymyn: Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru*

Roedd hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn golygu bod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gyflwyno cyllid gwaelodol o ran lefel y cyllid cymharol y mae'n ei ddarparu i Lywodraeth Cymru; i ystyried yr achos a'r opsiynau ar gyfer datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad dros Doll Teithwyr Awyr; ac i alluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi bondiau:
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

*Fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*
Mae hwn, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2016, yn disgrifio'r trefniadau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017.
http://gov.wales/docs/caecd/publications/161219-fiscal-agreement-cy.pdf

*Deddf Cymru 2017*
Roedd Deddf Cymru 2017, a oedd yn dileu'r gofyniad am refferendwm ar gyfraddau treth incwm Cymreig, ac yn cynyddu'r terfyn benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

**Atodiad 3: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

| | |
|---|---|
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales www.gov.uk/cymru

Simon Thomas
Chair
Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 646SUB 17

20fed December 2017

Annwyl Simon

Thank you for your letter inviting me to attend an evidence session with the Committee in the New Year. Unfortunately due to diary commitments I am unable to attend.

Last week I published the UK Government's Third Report into the implementation of part 2 of the Wales Act 2014. I attach a copy of this report for your information which the Cabinet Secretary for Finance has laid in the National Assembly. I am sure you will agree that this report demonstrates the significant progress that is being made towards implementing the Wales Act 2014 to ensure a smooth transition to devolved taxes from 1 April.

The Government included the requirement to report annually on the implementation of Part 2 of the Wales Act 2014 to ensure that the new tax and borrowing powers are transferred in a transparent manner and that the respective legislatures are kept informed of progress. I will therefore continue to report annually on this progress until Part 2 of the 2014 Act is fully implemented. I trust that the UK Government's reports are valuable in the Committee's considerations.

Yours,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# TRYDYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETH Y DU AR GYFLWYNO A GWEITHREDU RHAN 2 (CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014

# Y Trydydd Adroddiad Blynyddol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

I'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 23(1)(c) o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol, Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy'n dod o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn y cyfeiriad canlynol: correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk.

Fe'i argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## RHAGAIR

Mae’r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed i gyflwyno’r pwerau benthyca a threthu o dan ran 2 o Ddeddf Cymru 2014.

Mae Deddf Cymru 2014 yn rhoi pwerau newydd arwyddocaol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, sy’n sicrhau gwir atebolrwydd yn y drefn llywodraethu datganoledig yng Nghymru. Dair blynedd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, rydym yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru i’w rhoi ar waith yn llawn.

Yn fwyaf arwyddocaol, ym mis Rhagfyr y llynedd daeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gytundeb ar fframwaith cyllidol i Gymru. Mae’r fframwaith yn nodi trefniadau cyllido Llywodraeth Cymru i gefnogi’r broses o roi Deddf Cymru 2014 ar waith, yn cynnwys sut bydd y grant bloc yn cael ei addasu i ystyried datganoli trethi. Mae’r cytundeb hanesyddol hefyd yn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cael lefel deg o gyllid yn y tymor hir, wrth i ffactor seiliedig ar anghenion gael ei gyflwyno yn fformiwla Barnett ar gyfer Cymru. Yn sgil cyflwyno’r ffactor ar sail anghenion ar gyfer y Gyllideb, bydd gan Lywodraeth Cymru £69 miliwn ychwanegol o rym gwario dros y tair blynedd nesaf.

Mae Deddf Cymru 2017 wedi gwneud darpariaeth bellach ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca i’r Cynulliad, gan gael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn datganoli Cyfraddau Treth Incwm i Gymru a dyblu terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae hyn a’r datganoli pellach yn sgil Deddf Cymru 2017 fel rhan o’r setliad newydd, yn golygu y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn sefydliadau cryfach, mwy atebol a mwy aeddfed, gyda mwy o adnoddau i gefnogi twf economaidd yng Nghymru.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS ALUN CAIRNS AS**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

**PENNOD 1**

**CYFLWYNIAD**

**Cwmpas a Chynnwys yr Adroddiad hwn**

1. Hwn yw'r trydydd adroddiad ar gyflwyno Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.

2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

    - creu Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru;
    - datgymhwyso’r Dreth Dir ar Dreth Stamp y Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
    - datgymhwyso Treth Dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
    - darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca; a’r
    - pŵer i greu trethi datganoledig newydd.

3. Bydd y darpariaethau ariannol yn cael eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd, ac mae'r amserlenni ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi wedi'u cynnwys yn y Papur Gorchymyn[1] a gyhoeddwyd gyda Bil Cymru ym mis Mawrth 2014.

4. Er mwyn i'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) gael yr holl wybodaeth drwy gydol y broses hon, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ynghylch rhoi’r rhan hon o'r Ddeddf ar waith. Er mwyn i'r Senedd a'r Cynulliad wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth:
    - mae’n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd, a rhoi copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru;
    - mae’n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad, cyflwyno adroddiad eu hunain i'r Cynulliad, a rhoi copi i'r Ysgrifennydd Gwladol;
    - mae’n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ'r Senedd.

    Bydd y ddwy Lywodraeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau nes bydd blwyddyn wedi mynd heibio i’r diwrnod y daeth darpariaethau olaf Rhan 2 i rym.

[1] Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

5. Yn ôl Adran 23(7) o Ddeddf Cymru 2014, mae'n rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys y canlynol:

*(a) datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon;*

*(b) datganiad am y camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon;*

*(c) asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u cychwyn;*

*(d) asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon;*

*(e) effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac*

(f) *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

6. Yn Atodiad A rhoddir rhestr fanwl o'r paragraffau yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi sylw i bob un o'r gofynion hyn. Serch hynny, nid yw'r adroddiad yn gyfyngedig i'r gofynion hyn, ac fe gaiff hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r naill Lywodraeth neu'r llall yn credu eu bod yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i'r Senedd ac i'r Cynulliad.

**PENNOD 2**

**CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU**

7. Sefydlwyd drwy Ddeddf Cymru 2014 – yn amodol ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru – y byddai prif gyfraddau treth incwm y DU sy'n berthnasol i incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau yn cael eu gostwng 10c i drethdalwyr Cymreig, ac y byddai'r Cynulliad yn gallu gosod Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru bob blwyddyn a fyddai'n cael eu hychwanegu at gyfraddau gostyngol y DU. Mae gweddill y strwythur treth incwm yn dal yn fater heb ei ddatganoli, ac yn parhau i gael ei bennu gan Senedd y DU.

8. Mae Deddf Cymru 2017 – a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017 – wedi cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm, gan baratoi'r ffordd i gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru (CTIC) ym mis Ebrill 2019.

9. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn gweinyddu CTIC fel rhan o system treth incwm y DU. Mae gan CThEM brofiad o gyflwyno system debyg yn barod gan iddo roi Cyfradd Treth Incwm Yr Alban ar waith yn 2016, a mwy o bwerau treth incwm Yr Alban yn 2017. Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer treth incwm Yr Alban yn sail i'r dull y bydd CThEM yn ei ddefnyddio i roi CTIC ar waith, ond gydag addasiadau i ystyried y sefyllfa benodol yng Nghymru.

10. Mae CThEM wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y broses o roi CTIC ar waith a gweinyddu hynny yn y dyfodol. Llywodraeth Cymru sy'n talu costau'r broses o roi CTIC ar waith.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

*Rheoli'r prosiect*

11. Mae CThEM wedi cyflwyno llawer o drefniadau rheoli i sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol ar gyfer y broses o roi CTIC ar waith. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn gwbl ymwybodol o'r broses hon a'r costau cysylltiedig.

12. Ym mis Mai 2017 cafodd Jim Harra, Comisiynydd Sicrwydd Treth a Chyfarwyddwr Cyffredinol Strategaethau Cwsmeriaid a Dylunio Trethi, ei benodi gan CThEM yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer CTIC. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am roi CTIC ar waith a chasglu'r trethi hynny, a bydd yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgorau'r Cynulliad yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn llwyr

ymwybodol o'r broses hon ac yn cyfrannu'n llawn ati[2]. Bob blwyddyn, bydd darn o gyfrifon archwiliedig CThEM ar CTIC yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

13. Ym mis Gorffennaf 2017, sefydlodd CThEM fwrdd rhaglen newydd ar gyfer Datganoli Trethi Cymru. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob deufis o leiaf. Mae'n cael ei gadeirio gan un o Uwch Noddwyr Busnes CThEM, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Trysorlys Ei Mawrhydi a Swyddfa Cymru Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cynnig goruchwyliaeth uwch dros y broses gyflawni, yn sicrhau bod unrhyw risgiau neu faterion a allai effeithio ar y broses gyflawni yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac yn cynnig her a llwybr uwchgyfeirio o ran CTIC a Byrddau'r Prosiect ar y Cyd ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp / y Dreth Dirlenwi.

14. O dan Fwrdd y Rhaglen, mae CThEM wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Datganoli Treth Incwm Cymru i reoli'r broses o roi CTIC ar waith. Mae Bwrdd y Prosiect yn cwrdd bob mis, ac mae'n grŵp traws-lywodraethol o swyddogion sy'n cael ei gadeirio gan Uwch Noddwr Busnes CThEM gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thrysorlys EM. Mae Bwrdd y Prosiect yn gwneud penderfyniadau o fewn y terfynau gwario a ddirprwywyd; yn cynnig cyfeiriad ac arweiniad i'r prosiect, ac yn rheoli'r risgiau i'r broses gyflawni.

15. Mae CThEM hefyd wedi sefydlu dau is-grŵp misol ar gyfer cyfathrebu a risgiau, ac maent yn atebol i Fwrdd y Prosiect. Mae'r grwpiau hyn yn rhoi sylw i faterion penodol, yn goruchwylio ein prosesau cyfathrebu ac yn mynd ati i reoli ac adolygu risgiau.

16. Bydd CThEM yn cydweithio'n llwyr â Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno CTIC. I hwyluso hyn, mae CThEM a Llywodraeth Cymru wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mis Tachwedd 2017, sy'n nodi eu cyfrifoldebau o ran sefydlu a gweithredu CTIC yn effeithlon ac yn effeithiol. Er nad oes grym cyfreithiol ffurfiol i'r Memorandwm, mae'r ddwy Lywodraeth yn disgwyl y bydd ei delerau'n cael eu dilyn.

*Cyfathrebu*

17. Fel y soniwyd uchod, mae CThEM wedi sefydlu Is-grŵp Cyfathrebu misol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Mae'r Is-grŵp Cyfathrebu wedi dechrau ar y gwaith o lunio strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu a'i rhoi ar waith, er mwyn cefnogi'r broses o roi CTIC ar waith. Mae darpariaeth yn y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol i'r Is-grŵp wrth iddo gynllunio dulliau o gyfathrebu â threthdalwyr.

18. Yn benodol, bydd CThEM yn cydweithio â Llywodraeth Cymru o fewn yr Is-grŵp i nodi a datblygu elfennau allweddol o'r strategaeth cyfathrebu ac

[2] Mae'r holl fanylion am gyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu wedi'u nodi ym Mhennod 3 y ddogfen 'Managing Public Money' gan Drysorlys EM: http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_ch3.pdf

ymgysylltu. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiadau o randdeiliaid, y prif negeseuon a datblygu deunyddiau cyfathrebu dwyieithog.

*Adnabod trethdalwyr Cymreig*

19. Mae mynd ati'n gywir i adnabod trethdalwyr Cymreig yn hollbwysig er mwyn gweithredu CTIC yn effeithiol ac yn gywir. Bydd cofnodion cyfeiriadau CThEM yn cael eu defnyddio i adnabod trethdalwyr Cymreig. Mae CThEM yn ystyried y gofynion penodol ar gyfer CTIC sy'n codi yn sgil y rhanbarth poblog ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a'r problemau y gallai hynny eu hachosi wrth adnabod trethdalwyr Cymreig a goblygiadau hynny i waith sicrwydd a chyfathrebu CThEM.

*TG*

20. Mae CThEM wrthi'n datblygu'r system TG ar y cyd â chyflenwyr, a fydd yn nodi'n fanwl pa newidiadau TG y bydd rhaid iddo eu gwneud y flwyddyn nesaf er mwyn rhoi CTIC ar waith.

*Costau*

21. Yn ôl amcangyfrifon CThEM, bydd y broses o roi CTIC ar waith yn costio rhwng £5 miliwn a £10 miliwn i gyd.

22. Amcangyfrif cynnar yw hwn, sy'n seiliedig ar ein profiad o roi cyfradd treth incwm Yr Alban ar waith. Mae'r ffigurau'n is na'r rheini ar gyfer cyfradd treth incwm Yr Alban, gan fod CThEM yn gallu manteisio ar y newidiadau a wnaed eisoes i'r system ar gyfer cyfradd treth incwm Yr Alban.

23. Hyd at 14 Rhagfyr 2017, mae CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £69,077 ar gyfer rhoi CTIC ar waith.

*Lles*

24. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn paratoi i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w seilwaith er mwyn cyflwyno CTIC yn y flwyddyn dreth a fydd yn dechrau ar 6 Ebrill 2019. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu cytuno â Llywodraeth Cymru ar y trefniadau ariannol ac ymarferol i sicrhau bod y budd-daliadau trethadwy a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r systemau TG cysylltiedig yn cydnabod ac yn gallu defnyddio CTIC. Hefyd, bod y wybodaeth dreth gywir at ddibenion CThEM yn cael ei chofnodi ar gyfer y rheini sy'n cael budd-daliadau ac sydd hefyd yn drethdalwyr Cymreig.

25. Mae'n debyg y bydd y cytundeb â Llywodraeth Cymru ar ffurf gohebiaeth o lythyrau ynghyd ag Atodiad technegol manwl, a bydd yn cael ei gyhoeddi. Mae'r gwaith i weld pa systemau TG a phrosesau clerigol y bydd CTIC yn effeithio arnynt wedi cael ei gwblhau, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael y sêl bendith angenrheidiol er mwyn

gwneud y newidiadau a'u cwblhau erbyn y dyddiad rhoi ar waith, sef Ebrill 2019.

**Camau i'w cymryd yn 2018 i roi hyn ar waith**

26. Bydd llawer o'r gwaith angenrheidiol i roi CTIC ar waith yn digwydd yn 2018.

27. O ran TG, bydd hyn yn cynnwys newidiadau a fydd yn gwneud y canlynol:
    - Cyflwyno cod "C"[3] newydd yn y system Talu wrth Ennill er mwyn adnabod trethdalwyr Cymreig;
    - helpu cyflogwyr i wahaniaethu rhwng trethdalwyr Cymreig a threthdalwyr y DU;
    - diweddaru cyfrifianellau ar-lein CThEM ar gyfer Hunanasesiad a Thalu wrth Ennill;
    - diweddaru Cyfrif Treth Personol CThEM;
    - helpu datblygwyr meddalwedd trydydd parti i ddiweddaru eu cynnyrch eu hunain er mwyn cydnabod CTIC; a
    - diweddaru'r systemau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gorfodi a chydymffurfio.

28. O ran adnabod trethdalwyr Cymreig, bydd CThEM yn gwneud pob math o bethau yn ystod 2018 i wneud yn siŵr bod data cyfeiriadau CThEM mor gywir â phosib, cyn gweithredu CTIC. Bydd hyn yn cynnwys camau i ddynodi cyfeiriadau yng Nghymru ar systemau CThEM ac i sicrhau eu bod yn gywir.

29. Yn gefn i'r gwaith uchod bydd rhaglen gyfathrebu gyson a chydlynol a fydd yn targedu cynulleidfaoedd allweddol – fel cyflogwyr, asiantau, datblygwyr meddalwedd a threthdalwyr unigol – ac a luniwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Bydd CThEM yn defnyddio amryw o ddulliau cyfathrebu mewnol i roi gwybod i'w staff am y newidiadau a ddaw yn sgil CTIC, a'i effeithiau ar fusnes CThEM.

[3] Bydd trethdalwyr Cymreig yn cael eu hadnabod ar hysbysiadau codau treth gyda'r cod "C" yn hytrach nag "W", er mwyn adlewyrchu *Cymru* yn hytrach nag *Wales*

**PENNOD 3**

**Y DRETH TRAFODIADAU TIR A'R DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI YNG NGHYMRU**

**Cyflwyniad**

30. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru.

31. Yn ystod haf 2017, cafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 eu pasio gan y Cynulliad. Mae'r rhain yn paratoi'r ffordd ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a fydd yn cael eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2018. O'r adeg honno ymlaen, ni fydd trethi'r Deyrnas Unedig yn berthnasol yng Nghymru, a bydd grant bloc Cymru yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.

32. Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ei sefydlu ar 18 Hydref 2017, a bydd yn gweinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

33. Sefydlwyd prosiect ar y cyd gan CThEM yn 2016 i reoli'r broses o ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, a newid i ddefnyddio'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Mae Bwrdd y Prosiect ar y Cyd yn cynnwys cynrychiolwyr o CThEM a Llywodraeth Cymru (ACC ers mis Hydref 2017). Mae aelodau'r Bwrdd yn rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau i sicrhau bod y prosiect yn cynnig atebion effeithiol a gwerth am arian. Mae CThEM yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Prosiect Cyflawni a Pholisi Gweithredol Llywodraeth Cymru. Mae'n hynny'n galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i gadw golwg ar y penderfyniadau allweddol, ac yn cynnig dull cydlynol a chydweithredol i gyflawni'r prosiect.

34. Mae CThEM a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ar faterion cyfreithiol, gweithredol a threth er mwyn sicrhau bod y newid i'r trethi datganoledig yn digwydd yn ddidrafferth. I hwyluso hyn, mae CThEM a Llywodraeth Cymru wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Dreth Trafodiadau Tir a datgelu gwybodaeth yn 2016.

35. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau CThEM sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddod â Threth Dir y Dreth Stamp i ben yng Nghymru. Gan mai dim ond ar nifer fach o weithredwyr y Dreth Dirlenwi y bydd y newidiadau yn effeithio ac mai dim ond ychydig o newidiadau sydd angen eu gwneud i systemau CThEM, mae CThEM wedi cytuno na fydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Bydd yr arbedion a ddaw yn sgil rhoi'r

gorau i weinyddu'r trethi hyn yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo gan CThEM i Lywodraeth Cymru.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

*Rheoli'r prosiect*

36. Mae'r prosiect ar y cyd yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru (paragraff 14 uchod).

37. Ar 1-2 Tachwedd 2017, cafodd "Adolygiad Cyfaill Beirniadol" o'r Prosiect ar y Cyd ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi ei gynnal gan un o unedau mewnol CThEM, sef yr uned Newid, Sicrwydd a Buddsoddi. Cafodd y prosiect ei asesu fel un Oren-Gwyrdd, a daethpwyd i'r casgliad y bydd y prosiect "*yn gallu cyflawni hyn erbyn y dyddiad rhoi ar waith*". Diben yr adolygiad oedd rhoi sicrwydd annibynnol ar statws presennol y prosiect o ran rheoli, adnoddau a phrosesau, a'i fod ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcan i ddatgymhwyso'r trethi yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018. Mae'r prosiect yn gweithredu ar ddau argymhelliad yr adolygiad.

38. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion CThEM wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu a yw'r ddwy Lywodraeth yn barod i drethi'r DU gael eu datgymhwyso, ac i'r trethi cyfatebol gael eu cyflwyno yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu hyn, rhagwelir y bydd y ddwy Lywodraeth mewn sefyllfa i asesu a ydynt yn barod ar gyfer hynny yn unol â'r meini prawf erbyn 31 Rhagfyr 2017.

*Cyfathrebu*

39. Cafodd Grŵp Cyfathrebu ar y Cyd ("JCOMM") ei sefydlu ym mis Chwefror 2017 i ddatblygu dull cydweithredol rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru i gyfleu'r newidiadau treth. Mae'r Grŵp hwnnw'n cynnwys cynrychiolwyr o CThEM, Llywodraeth Cymru (ACC ers mis Hydref 2017) a'r Gofrestrfa Tir, ac yn atebol i Fwrdd y Prosiect.

40. Mae'r aelodau'n gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid allanol ar y gwaith o ddatblygu canllawiau ar y cyd i egluro trefniadau'r broses newid, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i ddiweddaru GOV.UK a rhanddeiliaid allweddol cyn y dyddiad newid.

41. Ym mis Hydref 2017 roedd ENTRUST – a benodwyd gan CThEM i reoleiddio'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi a fydd yn dod i ben yng Nghymru ar ôl cyfnod pontio – wedi cynnal gweithdy yng Nghaerdydd i gyrff amgylcheddol ynghylch dirwyn hyn i ben yng Nghymru. Roedd hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar ei wefan ym mis Tachwedd, ynghylch dod â'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi i ben yng Nghymru[4]. Bydd

[4] Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan ENTRUST: http://www.entrust.org.uk/landfill-community-fund/wales/

Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018[5].

*TG*

42. Mae'r gwaith wedi dechrau ar y newidiadau gofynnol i systemau CThEM, sef: newidiadau i systemau CThEM i rwystro trafodiadau'r Dreth Trafodiadau Tir rhag cael eu cyflwyno a'u prosesu ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp; a threfnu i drosglwyddo data am drafodion y Dreth Trafodiadau Tir o ACC i CThEM ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

*Costau*

43. Yn ôl amcangyfrifon CThEM, bydd y broses o newid i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru yn costio rhwng £1.75 miliwn a £2 filiwn i gyd. Mae hyn yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol a roddwyd i Lywodraeth Cymru - sef £1 miliwn - a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau i system Technoleg Gwybodaeth CThEM, a phrosesau a systemau seiberddiogelwch sy'n mynd yn fwy ac yn fwy soffistigedig.

44. Hyd at 14 Rhagfyr 2017, mae CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £289,893 ar gyfer y broses o newid i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd yn 2018 i roi hyn ar waith**

45. Disgwylir y bydd y newid i'r trethi datganoledig yn digwydd ar 1 Ebrill 2018. Dyma hefyd yw'r Prif Ddydd Penodedig, pan fydd y model cadw pwerau newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru yn dod i rym.

46. Bydd Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Swyddogion) yn cwrdd ym mis Ionawr i asesu a yw CThEM ac ACC yn barod i newid i'r trethi newydd, a bydd gohebiaeth rhwng y Gweinidogion yn dilyn hynny. Yn amodol ar gytuno ar y broses newid, bydd CThEM yn gwneud Gorchmynion Dydd Penodedig i ddirwyn Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi i ben yng Nghymru.

47. Bydd CThEM ac ACC yn cyhoeddi canllawiau ar y cyd ynghylch newid o Dreth Stamp y Dreth Dir i'r Dreth Trafodiadau Tir, a chanllawiau pellach ar drafodiadau trawsffiniol[6] ddechrau 2018. I gefnogi hynny bydd prosesau cyfathrebu eraill yn targedu rhanddeiliaid allweddol, bydd GOV.UK yn cael ei ddiweddaru, a bydd negeseuon yn cael eu rhannu i egluro'n glir beth yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r awdurdodau treth, wrth i ACC agor y broses gofrestru ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

[5] Mae rhagor: http://gov.wales/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/landfill-disposals-tax/communities-scheme/?lang=cy
[6] Mewn trafodiadau trawsffiniol, mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn rhedeg drwy eiddo

48. Bydd CThEM yn cwblhau ac yn profi'r system TG angenrheidiol i gefnogi'r newid.

49. Ar ôl sefydlu ACC, bydd CThEM ac ACC yn rhoi ar waith Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cytundeb rhannu gwybodaeth, a dull ar y cyd i gydymffurfio â'r trethi datganoledig er mwyn gallu cydweithio'n effeithiol ar ôl y newid.

50. Bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi sydd ond yn gweithredu yng Nghymru yn cael eu dadgofrestru ar gyfer y Dreth Dirlenwi. Bydd y Gronfa Cymunedau Tirlenwi yn dechrau ar gyfnod pontio o ddwy flynedd er mwyn cwblhau prosiectau'r gronfa yng Nghymru, a sicrhau bod holl arian y gronfa sydd ar ôl yng Nghymru yn cael ei wario. Bydd y cyfnod pontio yn dechrau ar 1 Ebrill 2018, ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Bydd deddfwriaeth yn nodi'r broses o ddatgymhwyso'r Dreth Dirlenwi, ac o ddirwyn y Gronfa Cymunedau Tirlenwi i ben, yn cael ei gosod gerbron ddechrau 2018.

**PENNOD 4**

**PWERAU BENTHYCA**

51. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca arian at y dibenion canlynol o fis Ebrill 2018 ymlaen:

- Yn y Ddeddf roedd pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500miliwn. Gall Gweinidogion Cymru fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw);
- Roedd y Ddeddf yn ehangu'r amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthyca arian ar draws blynyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod hyd at £200miliwn bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500miliwn) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd.
- Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy'n golygu y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £500miliwn i ariannu buddsoddiad cyfalaf. Gall fenthyca gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, banciau masnachol neu drwy ddyroddiadau bond. O fewn y terfyn cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o 2018-19 ymlaen). Gall hefyd ddefnyddio'r pwerau benthyca yn gynnar er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os yw'n dewis gwneud hynny). Rhaid i'r symiau y gall Llywodraeth Cymru eu benthyca ar gyfer y diben hwn cyn 2018-19 gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

52. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ragor o fanylion ynghylch pwerau benthyca Llywodraeth Cymru yn ei fframwaith cyllidol newydd[7], a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2016.

53. Mae cytundeb y fframwaith cyllidol yn nodi'r canlynol:

- O fis 2018-19 ymlaen, bydd terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cynyddu i £1bn, yn hytrach na'r

[7] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578836/Wales_Fiscal_Framework_Agreement_Dec_2016_2.pdf

£500miliwn mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar ei gyfer. Bydd cyfyngiad blynyddol benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cynyddu i £ 150m o 2019-20;

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu benthyca arian ar gyfer gwariant cyfalaf gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu drwy fenthyciad masnachol – ac yn dilyn cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu dyroddi bondiau;
- Bydd pwerau benthyca adnoddau Llywodraeth Cymru yn aros fel y maent yn Neddf Cymru 2014, a bydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio adnoddau ychwanegol i reoli'r gyllideb yn sgil Cronfa Wrth Gefn newydd i Gymru o fis Ebrill 2018 ymlaen (darllenwch 'Gweithgareddau eraill i roi hyn ar waith' ym mhennod 7 isod).

54. Yn dilyn hynny, mae Llywodraeth y DU wedi deddfu yn Neddf Cymru 2017 y bydd yn cynyddu terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru i £1bn.

**PENNOD 5**

**PŴER I GREU TRETHI NEWYDD**

55. Gyda chytundeb y ddwy lywodraeth, gellir datganoli rhagor o drethi sy'n bodoli eisoes drwy is-ddeddfwriaeth, a gellir rhoi pwerau i’r Cynulliad gyflwyno trethi newydd sy’n benodol i Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cynnig ffordd i'r Cynulliad sicrhau canlyniadau polisi, yn ogystal â sicrhau refeniw ychwanegol o bosib.

56. O ran trethi newydd sy’n benodol i Gymru, roedd y Papur Gorchymyn[8] a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2013 yn nodi meini prawf asesu arfaethedig Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys i ba raddau mae’r trethi newydd yn gwneud y canlynol:

- yn effeithio ar bolisi ariannol neu facro-economaidd y DU a/neu’r farchnad sengl;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE;
- yn cynyddu’r risg o osgoi trethi;
- yn creu baich cydymffurfio ychwanegol i fusnesau a/neu unigolion;
- yn cyd-fynd â chyfrifoldebau datganoledig.

57. Roedd y Papur hefyd yn nodi’r manylion y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu cynnwys mewn unrhyw gynigion ar gyfer trethi newydd, gan gynnwys y canlynol:

- amcan o’r refeniw a’r effaith economaidd;
- amcan o’r effaith ar refeniw’r DU neu ar y berthynas â threthi ar draws y DU;
- effeithiau disgwyliedig ar fusnesau ac unigolion (gan gynnwys effaith ddosbarthiadol);
- asesiad yn erbyn yr holl ddeddfwriaethau a chyfarwyddebau perthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol, rheolau’r UE ar Gymorth Gwladwriaethol, y Ddeddf Cydraddoldeb ac ati; a
- chynlluniau casglu a chydymffurfio.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

58. Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i roi proses ar waith i asesu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd sy’n benodol i Gymru.

59. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru restr fer o syniadau ar gyfer trethi newydd i Gymru yn ei Chyllideb ddrafft. Mae’n bwriadu cynnig un o’r trethi newydd canlynol i Lywodraeth y DU yn 2018 er mwyn profi’r pwerau i gyflwyno trethi newydd:

- Ardoll i gefnogi gofal cymdeithasol;

[8] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

- Treth ar dir gwag;
- Treth ar blastigion untro;
- Treth ar dwristiaeth.

## PENNOD 6

## EFFAITH PWERAU NEWYDD AR GRANT BLOC CYMRU

60. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli trethi yw bod elfen o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid am y gallu i godi trethi. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol i lywio trefniadau cyllido newydd Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys addasiadau i'r grant bloc ar gyfer datganoli trethi, a'u perthynas â fformiwla Barnett a chyllid gwaelodol Llywodraeth Cymru.

61. Mae fframwaith cyllidol newydd Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trefniadau canlynol i gyllido'r grant bloc:

- O 2018-19 ymlaen bydd ffactor seiliedig ar anghenion yn cael ei gynnwys yn fformiwla Barnett i bennu newidiadau yng nghyllid grant bloc Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datganoli gwariant;
- Bydd y ffactor seiliedig ar anghenion hwn yn cael ei osod ar 115%, ar sail yr amrediad sydd wedi'i awgrymu gan Gomisiwn Holtham a'r cyllid gwaelodol a osodwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015;
- Er bydd cyllid cymharol y pen Llywodraeth Cymru yn parhau'n uwch na 115%, bydd ffactor trosiannol o 105% yn cael ei osod;
- Bydd y newidiadau yng nghyllid y grant bloc o ran datganoli trethi yn cael eu pennu drwy'r model Cymaradwy;
- Bydd y system ar gyfer addasu'r grant bloc yn cynnwys didyniad sylfaenol cychwynnol i adlewyrchu'r refeniw trethi y mae Llywodraeth y DU wedi'i hepgor ar bwynt datganoli'r dreth; a mynegeio dilynol drwy'r model Cymaradwy, yn seiliedig ar newidiadau i refeniw trethi cyfatebol Llywodraeth y DU;
- Bydd y model Cymaradwy yn cael ei roi ar waith ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp, y Dreth Dirlenwi a'r holl fandiau Treth Incwm.

62. Mae'r fframwaith cyllidol hefyd yn rhoi sylw i drin effeithiau goferu (spillover), lle mae penderfyniad polisi un llywodraeth yn effeithio ar dreth neu wariant y llywodraeth arall. Cytunwyd yn y fframwaith y byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- Yn rhoi cyfrif am yr holl effeithiau uniongyrchol, naill ai drwy addasu'r grant bloc neu ar wahân ar ôl iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r rhain yn effeithiau ariannol a fydd yn digwydd yn uniongyrchol ac yn fecanyddol o ganlyniad i benderfyniad polisi un llywodraeth, cyn unrhyw newid cysylltiedig mewn ymddygiad;
- Yn rhoi cyfrif am effeithiau ymddygiad mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, lle mae'r effeithiau'n sylweddol ac yn gallu cael eu profi, a'r ddwy lywodraeth yn cytuno ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r rhain yn effeithiau ariannol sy'n deillio o newid yn ymddygiad pobl yn dilyn penderfyniad polisi;

- Yn peidio â rhoi cyfrif am effeithiau ail gylch. Mae'r rhain yn effeithiau economaidd ehangach sy'n gallu deillio'n fwy anuniongyrchol o benderfyniadau polisi.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

63. Cafodd trefniadau cyllido'r fframwaith cyllidol newydd eu cymhwyso gan Lywodraeth y DU i grant bloc Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf yng Nghyllideb yr Hydref 2017.

64. Roedd hyn yn cynnwys didyniadau o'r grant bloc yn ymwneud â datganoli Treth Tirlenwi a Threth Treth Dyletswydd Stamp yn 2018 -19, ac ychwanegu'r ffactor yn seiliedig ar anghenion Strwythur Barnett o ran gwariant penderfyniadau 2018-19 ymlaen. Nid yw'n cynnwys didyniadau ar gyfer Treth Incwm Cymru a fydd yn cael ei ddatganoli yn 2019-20. Caiff didyniadau ar gyfer Treth Incwm Cymru eu nodi yng Nghyllideb yr Hydref 2018.

65. Treth Roedd y didyniadau'n seiliedig ar y rhagolygon treth perthnasol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Gyllidebol â Chyllideb yr Hydref ac yn arwain at y newidiadau canlynol i grant bloc Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y rhagolygon cyhoeddedig diweddaraf:

| £miliwn | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y didyniadau ar gyfer treth | 269 | 277 |

66. Bydd cymhwyso ffactor seiliedig ar anghenion Barnett yn arwain at ychwanegiadau canlynol i grant bloc Llywodraeth Cymru:

| £miliwn | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol ar adnoddau cyllidol – heb ei glustnodi | 6.9 | 9.1 | |
| Terfyn Gwariant Adrannol ar adnoddau – wedi'i glustnodi (dibrisiant) | 0.6 | 1.2 | |
| Terfyn Gwariant Adrannol ar adnoddau – wedi'i glustnodi (diffyg ar fenthyciadau myfyrwyr) | 0.7 | 1.4 | |
| Terfyn Gwariant Adrannol ar Gyfalaf | 7.7 | 17.9 | 23.9 |
| *Fel arall, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol* | *1.2* | *2.1* | *1.7* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ychwanegiadau yn sgil y ffactor seiliedig ar anghenion yn fformiwla Barnett** | **16** | **29.6** | **23.9** |

## PENNOD 7

## GWEITHGAREDDAU ERAILL I ROI HYN AR WAITH

### Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

67. Dechreuodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gyhoeddi rhagolygon ar gyfer y trethi sy'n cael eu casglu yng Nghymru gyda Datganiad yr Hydref 2014. Bydd yn parhau i gyhoeddi'r rhagolygon hyn ddwywaith y flwyddyn, fel rhan o'i dyletswydd statudol i greu rhagolygon trethi ar gyfer y DU i gyd.

68. Fel y cytunwyd yn y fframwaith cyllidol, bydd rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r trethi sy'n cael eu casglu yng Nghymru adeg y datganoli yn cael ei ddefnyddio i bennu'r didyniad sylfaenol o grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer pob treth sy'n cael ei datganoli. Bydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei fynegeio ar sail y newidiadau yn nhrethi cyfatebol Llywodraeth y DU – bydd rhain yn seiliedig i ddechrau ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ac yna'n cael eu cysoni â'r data alldro pan fydd ar gael.

69. Mae'r fframwaith cyllidol hefyd yn nodi gofyniad i Lywodraeth Cymru ddefnyddio rhagolygon annibynnol o'r trethi datganoledig y bydd yn eu casglu. Fel y cytunwyd yn y fframwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu a yw am ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, neu roi trefniadau annibynnol eraill ar waith.

70. Wrth roi'r trefniadau hyn ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu llunio ei rhagolygon ei hun o'r trethi datganoledig, a bydd y rheini'n cael eu harchwilio'n annibynnol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hynny ar gyfer Treth Dirlenwi Cymru a'r Dreth Trafodiadau Tir yn ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref.

71. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei chyllideb ddrafft y byddai'n well ganddi ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi datganoledig yn y dyfodol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dal i ystyried opsiynau posib.

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

72. Roedd y Papur Gorchymyn (troednodyn 1) yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru dalu'r refeniw trethi sydd dros ben i gronfa arian parod, i'w helpu i reoli natur gyfnewidiol ei chyllideb yn sgil ei phwerau trethu newydd.

73. Mae fframwaith cyllidol newydd Llywodraeth Cymru yn nodi rhagor o fanylion ar gyfer Cronfa Wrth Gefn newydd i Gymru, a fydd yn cyfuno ei chronfa arian parod a'i gallu i ddefnyddio'r cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau.

74. Bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru yn dod yn weithredol ochr yn ochr â'r broses o ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi ym mis Ebrill 2018. Ni fydd dim terfyn blynyddol ar daliadau i Gronfa Wrth Gefn

Cymru, a fydd yn gallu dal hyd at £350miliwn gyda'i gilydd.  Bydd gan Lywodraeth Cymru derfyn blynyddol ar gyfer tynnu arian i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn, sef £135 miliwn ar gyfer adnoddau a £50 miliwn ar gyfer cyfalaf.

## PENNOD 8

## GOFYNION ADRODD ERAILL

75. Yn ogystal â'r elfennau a drafodwyd yn y penodau blaenorol (camau a gymerwyd i roi hyn ar waith, camau sydd eto i'w cymryd, ac effaith y darpariaethau ar y grant bloc), mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod adroddiadau blynyddol ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

- asesiad o’r broses o weithredu darpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
- asesiad o’r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys neu eu diwygio gan Ran 2;
- datganiad am effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
- unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.

76. Dyma’r trydydd adroddiad ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi fod holl ddarpariaethau Rhan 2 – yn unol ag adran 29(2)(b) o'r Ddeddf – wedi dod i rym ddau fis ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i CTIC a benthyca gan Weinidogion Cymru.

77. Roedd Adran 17 o Ddeddf Cymru 2017 yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn rhoi CTIC ar waith. Daeth yr adran hon i rym ddau fis ar ôl i’r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, ar 31 Mawrth 2017. Bydd y Trysorlys yn cyflwyno Gorchymyn i roi CTIC ar waith o 2019-20 ymlaen.

78. Cyflwynodd Trysorlys ei Mawrhydi reoliadau a oedd yn golygu bod adran 20 (benthyca gan Weinidogion Cymru) yn dod i rym ar 1 Ionawr 2017. Roedd Adran 18 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddyblu cap benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn. Daeth yr adran hon hefyd i rym ar 31 Mawrth 2017.

79. Fel y nodwyd yn y fframwaith cyllidol, bydd y terfyn blynyddol ar wariant cyfalaf hefyd yn cynyddu. Ochr yn ochr â chyflwyno CTIC, bydd y terfyn blynyddol yn cael ei osod ar 15% o’r cap cyffredinol ar fenthyca, sy’n cyfateb i £150 miliwn y flwyddyn.

**CASGLIAD**

80. Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu y dylai'r Adroddiad Blynyddol ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 o'r Ddeddf honno gael ei osod gerbron flwyddyn i'r dyddiad y cafodd Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), neu cyn hynny.

81. Gwelwyd mwy o gynnydd eleni i roi Deddf Cymru 2014 ar waith yn llawn. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i reoli'r broses o newid i'r trethi datganoledig ar 1 Ebrill 2018.

82. Mae'r fframwaith cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dweud sut bydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei addasu i ystyried datganoli trethi. Hefyd, roedd Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer pwerau trethu a benthyca Llywodraeth Cymru. Yn sgil cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm ar dreth incwm, a'r cytundeb ar addasiadau priodol i'r grant bloc, bydd modd datganoli CTIC o 2019-2020 ymlaen.

83. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf ar gyflwyno Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn unol ag Adran 23(3)(b) o'r Ddeddf, cyn 17 Rhagfyr 2018.

**Atodiad A – Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014, a ble maent yn cael sylw yn yr adroddiad hwn**

1. *datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith;*

   Pennod 2: Paragraffau 11-25
   Pennod 3: Paragraffau 36-44
   Pennod 4: Paragraffau 52-54
   Pennod 5: Paragraffau 58 a 59

2. *datganiad am y camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith;*

   Pennod 2: Paragraffau 26-29
   Pennod 3: Paragraffau 45-50

3. *asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*

   Pennod 8

4. *asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon;*

   Pennod 8

5. *datganiad am effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); a*

   Pennod 8

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

   Pennod 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2017-18 drwy broses y gyllideb atodol. Mae'r Comisiwn yn cynnig

- cynyddu'r gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol £0.700 miliwn

**Y gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol**

Mae cyllideb y Comisiwn ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Addasiad cyfrifyddu ydyw, yn hytrach na gofyniad arian parod.

Ni ellir cyfrifo gwir werth y gwariant a reolir yn flynyddol tan ar ôl 31 Mawrth 2018. Felly, mae'r Comisiwn yn ceisio amcangyfrif proffesiynol o'r gwerth diwedd y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cyngor actiwaraidd sydd wedi dod i law yn awgrymu y gallai'r rhwymedigaeth gynyddu i £1.744 miliwn[1], sy'n fwy na'r gyllideb. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cynyddu'r gyllideb gwariant a reolir yn flynyddol £0.700 miliwn. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gan fod y gyllideb hon yn cael ei rheoli'n annibynnol ar y Gyllideb Adnoddau.

[1] Mae Atodiad 1 yn darparu gwybodaeth bellach am yr amcangyfrif a ddarparwyd gan yr actiwari.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227


National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Mae'r effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2017-18 i'w gweld yn y tabl isod:

| | Cyllideb gymeradwy<br><br>Budget<br><br>£m | Cyllideb atodol arfaethedig<br><br>£m | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig<br><br>Revised<br><br>£m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb adnoddau | 52.545 | 0 | 52.545 |
| Cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol | 1.200 | 0.700 | 1.900 |
| | 53.745 | 0.700 | 54.445 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol ym mis Ionawr. Mae copi o'r ddogfen hon ynghlwm er hwylustod. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Suzy Davies
copi at Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Atodiad 1

Tabl 1

| **Cyfrifo costau cyllid pensiynau** | **2017-18** | **2016-17** |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | £2.03m | £1.47m |
| + cost llog | + £1.335m | + £1.37m |
| - llog ar asedau’r cynllun | - £0.901m | - £1.040m |
| - cyfraniadau'r cyflogwr | - £0.720m | - £0.720m |
| **Costau cyllid pensiynau** | **£1.744m** | **£1.078m** |
| | | |
| **Y gyfradd PUCM a ddefnyddir** | **44%** | **32.1%** |
| **Y gyfradd ddisgownt (net o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, sef y CPI)** | **0.3%** | **1.3%** |

Y cynnydd yng nghost gyfredol y gwasanaeth yw'r prif ffactor o ran y cynnydd cyffredinol yng nghostau cyllid pensiynau.
Cyfrifir cost gyfredol y gwasanaeth drwy gymhwyso cyfradd gyfrannu safonol y dull uned credyd rhagamcanol (PUCM) i gyfanswm y gyflogres dros y cyfnod o dan sylw.
Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli gwerth presennol y buddion sy'n cronni i aelodau gweithredol dros y flwyddyn. Mae'r gyfradd PUCM yn cael ei dylanwadu gan y gyfradd ddisgownt (net o'r CPI) ar ddechrau'r flwyddyn.

Cynigiwyd y tybiaethau ariannol gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ar 6 Ebrill 2017. Mae'n ofynnol mai'r gyfradd ddisgownt yw'r gyfradd adennill gyfredol ar fondiau corfforaethol sydd â statws credyd AA neu uwch, ac sy'n gyfwerth â rhwymedigaethau'r cynllun o ran y math o arian a ddefnyddir a'r cyfnod o dan sylw.

Ar 31 Mawrth 2017, cyfradd yr enillion blynyddol ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel (e.e. statws credyd AA) ac sy'n briodol o ran y math o arian a ddefnyddir a'r cyfnod o dan sylw oedd 2.65 y cant y flwyddyn. Mae'r actiwari wedi nodi y defnyddiwyd cyfradd chwyddiant CPI o 2.35 y cant y flwyddyn.

**Principal financial assumptions as at 31 March 2017**

| Assumption | 31 March 2017 % a year | 31 March 2016 % a year |
|---|---|---|
| Rate of return (discount rate) | 2.65% | 3.55% |
| Rate of return in excess of: | | |
| Pension increases (CPI) | 0.30% | 1.30% |

Y gyfradd ddisgownt net o CPI ar 31 Mawrth 2017, a ddefnyddiwyd i gyfrifo cost gyfredol y gwasanaeth ar gyfer 2017-18 oedd 0.3 y cant, a oedd yn ostyngiad sylweddol ar y gyfradd gyfatebol ar 31 Mawrth 2016, sef 1.3 y cant. Mae gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt net yn arwain at gynnydd yn y gyfradd PUCM a chost gyfredol y gwasanaeth presennol (er mwyn cael lefel benodol o fuddion yn y dyfodol, pan fydd y gyfradd ddisgownt yn is, mae angen cost uwch heddiw).


Cyfradd ddisgownt isel (net o CPI) = cyfradd PUCM uwch
Cyfradd ddisgownt uchel (net o CPI) = cyfradd PUCM is

Cyfradd PUCM * Cyfanswm cyflogres yr Aelodau ar gyfer 2017-18 = Cost Gyfredol y Gwasanaeth 17-18

Mae'r gostyngiad hwn yn y gyfradd ddisgownt wedi arwain at gyfradd PUCM uwch, sy'n cael ei chymhwyso i gyfanswm cyflogres yr Aelodau ar gyfer 2017-18 i roi cost gyfredol y gwasanaeth, sef £2.03 miliwn. Mae hyn llawer yn uwch na chost gyfredol y gwasanaeth ar gyfer 2016-17, sef £1.47 miliwn.

Mae'r costau cyllid pensiynau cyffredinol ar gyfer 2017-18 yn debygol o fod tua £1.744 miliwn. Pennwyd cyllideb o £1.2 miliwn ym mis Tachwedd 2016; y gyfradd ddisgownt a oedd yn pennu'r gost hon oedd y gyfradd ar 31 Mawrth 2017. Felly, mae'n anodd amcangyfrif y gost hon yn fanwl gywir ym mis Tachwedd 2016.

Mae'r swm ychwanegol y gofynnir amdano yn swm nad yw'n arian parod. Bydd yn cael ei neilltuo at y diben hwn yn unig (gwariant a reolir yn flynyddol).



# Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18
# **Memorandwm Esboniadol**

Rhagfyr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18
# Memorandwm Esboniadol

Rhagfyr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys

**01. Y cefndir** ..... **1**

Memorandwm Esboniadol ..... 1

Gwariant a Reolir yn Flynyddol ..... 1

Effaith y gyllideb ..... 1

**02. Cwmpas y gyllideb** ..... **2**

# 01. Y cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2017-18** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd 2016, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £53.745 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

– £36.613 miliwn i wasanaethau'r Cynulliad; a

– £15.532 miliwn i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £1.2 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

## Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r rhagamcanion.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Pwrpas cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn yw'r addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Pwrpas yr addasiad hwn yw sicrhau bod darlun cywir a theg o rwymedigaeth y Cynllun yn cael ei gofnodi yn Natganiad Sefyllfa Ariannol y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb Adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn.

Ni ellir cyfrifo'r gwerth terfynol tan ar ôl 31 Mawrth, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, mae'r amcangyfrif diweddaraf ychydig yn llai nag £1.8miliwn.

Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt. 0.3% oedd y gyfradd ddisgownt wedi tynnu CPI ar 31 Mawrth 2017, a ddefnyddiwyd i gyfrifo cost gwasanaeth cyfredol 2017-18. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r gyfradd gyfatebol ar 31 Mawrth 2016, sef 1.3%. Mae gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt net yn arwain at gynnydd yn y gost gwasanaeth cyfredol, un o brif elfennau'r gost cyllid pensiwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol gwariant a reolir yn flynyddol o £1.9 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol.

## Effaith y gyllideb

Mae'r cynnig ar y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

– cynnydd yn y gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.7 miliwn i 1.9 miliwn.

# 02. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 i helpu i lunio Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2017-18, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, isod yn Nhabl 1.

| **Tabl 1** | **Diwygiedig £000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 54,445 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 300 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill. | 50,245 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Table 2 Gofyniad arian parod £000

| | **2017-18** Diwygiedig |
|---|---|
| Gofyniad refeniw yr Aelodau | 15,532 |
| Gofyniad refeniw y Comisiwn | 36,513 |
| Gofyniad cyfalaf | 500 |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 1,900 |
| *Addasiadau:* | |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | (2,600) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (1,900) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 300 |
| | |
| Gofyniad arian parod net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru | 50,245 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy llythyr dyddiedig 11 Tachwedd 2017 ynghylch Adroddiad eich Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-2019 .

**Argymhelliad 5**

Fel y gofynnwyd, dyma roi'r wybodaeth ichi ynghylch y tanwariant a ragwelir mewn perthynas â'r arian a gafwyd i gyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gan ddangos sut y caiff y tanwariant hwn ei ddefnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad (mae'r manylion yn yr atodiad sydd ynghlwm).

Byddem bob tro'n ystyried yr opsiwn o ddychwelyd cyfanswm y tanwariant o gyllideb y Comisiwn (fel y gwnaethpwyd gydag ad-daliad trethi ym mis Chwefror 2014) lle na fyddem o’r farn bod gennym ddigon o gyfleoedd buddsoddi i'r Comisiwn ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn effeithlon ac yn effeithiol.

Oherwydd y galw mawr a’r pwysau sylweddol ar gyllideb y Comisiwn, nid felly y bu yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ein cynnydd o ran mynd i'r afael â dau argymhelliad arall a wnaed gan eich Pwyllgor. Mae'r Atodiad yn rhoi manylion am y cynnydd o ran argymhellion un a saith.

Rhowch wybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir



Suzy Davies

cc Comisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Atodiad: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-2019

Argymhelliad 5

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn baratoi diweddariad yn ystod y flwyddyn (cyn diwedd pob blwyddyn galendr) ar danwariant tebygol y Bwrdd Taliadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiectau y bwriedir eu hariannu drwy ddefnyddio'r tanwariant hwn.*

Rhagamcan o Danwariant a buddsoddiad 2017-18

Disgwylir i'r tanwariant rhagamcanol ar gyllideb Bwrdd Taliadau 2017-18 fod yn llai na £1m. Fel yr amlygwyd yn nogfen cyllideb 2018-19, mae penderfyniad rhagamcanol a thanwariant gweithredol yn cael eu hychwanegu at y buddsoddiad agoriadol a'r cyllidebau cyfalaf i ategu cronfa fuddsoddi'r Comisiwn.

Mae Tabl 1 yn dangos y gronfa fuddsoddi ddisgwyliedig ar gyfer 2017-18 a 2018-19.

| Tabl 1 | £'000 2017-18 | £'000 2018-19 |
|---|---|---|
| | | |
| Cronfa Fuddsoddi Agoriadol | £850 | - |
| Cyllideb Gyfalaf | £500 | £500 |
| Cyfanswm y gronfa Fuddsoddi yng nghyllideb graidd y Comisiwn ar gyfer eitemau blaenoriaeth/hanfodol | **£1,350** | **£500** |
| Amcangyfrifon o arian yn dod ar gael o danwariant o fewn: | | |
| Cyllidebau Gweithredol | £500 | £800 |
| Cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | £1,000 | £600 |
| Amcangyfrif o gyfanswm y cyllid a ryddhawyd/sydd ar gael | **£2,850** | **£1,900** |

Yn ystod y flwyddyn, caiff y gyllideb gyflawn ei monitro'n barhaus, gan gynnwys tanwariant a ragwelir, ac adolygir rhagolygon bob pythefnos. Daeth yn amlwg yn fuan yn y flwyddyn ariannol y byddai tanwariant yn y swm a neilltuwyd i ddiwallu

anghenion y Penderfyniad. Roedd hefyd yn glir bod galwadau dybryd a sylweddol ar yr adnoddau a ddyrannwyd i’r Comisiwn yn 2017-18, yn deillio’n arbennig o’r:

- cynnydd yn nifer y pwyllgorau a'r wythnos fusnes estynedig;
- heriau parhaus i'r Gwasanaethau Diogelwch ar ystâd y Cynulliad;
- blaenoriaethau'r Comisiwn a'r Llywydd, gan gynnwys diwygio maint y Cynulliad a’r system etholaethol, sefydlu senedd ieuenctid newydd a gwella ein gwasanaethau newyddion a gwybodaeth ddigidol;
- newidiadau cyfansoddiadol eraill yn sgil Deddf Cymru 2017 a Gadael yr UE;
- pwysau ar ein hystâd yn y tymor byr a'r hirdymor o ran anghenion llety;

Yn ystod 2017-18, defnyddiwyd y cyfuniad o danwariant y Penderfyniad a'r tanwariant gweithredol, y gyllideb gyfalaf a'r gronfa fuddsoddi agoriadol i ariannu'r eitemau blaenoriaeth a ganlyn:

Tabl 2

| Gwariant y Gronfa Fuddsoddi | | £'000 |
|---|---|---|
| **Effaith newidiadau 2016-17 ar gapasiti staffio** | | £1,000 |
| **Gwariant y Penderfyniad** | | £177 |
| **Marw yn y swydd, Staff Cymorth*** | **£60** | |
| **Marw yn y swydd, Staff Cymorth*** | **£65** | |
| **Cyflogau gweinidogol ychwanegol*** | **£21** | |
| **Taliadau diswyddo Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad*** | £31 | |
| **Ardoll Prentisiaeth:** | | £110 |
| **Gwariant Blaenoriaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau** | | £133 |
| **Byrddau Dosbarthu Trydan Rhan 2** | £29 | |
| **Gwelliannau i lifftiau'r Senedd a'r Pierhead** | £34 | |
| **Gwaith adfer asesiadau risg dŵr Tŷ Hywel** | £16 | |
| **Newid rhaffau lifftiau 1, 2 a 3 Tŷ Hywel** | £54 | |
| **Prosiectau (Tabl 3)** | | £1,262 |
| **Cyfanswm y gwariant buddsoddi** | | £2,682 |
| **Balans sy'n Weddill** | | **£168** |

* Ni ragwelwyd yr eitemau a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Tabl 3

| Gwariant Prosiect 2017-18: | £'000 |
|---|---|
| | |
| **System Rheoli Llyfrgelloedd** | £32 |
| **System Gyllid (cyfnod 2)** | £22 |
| **FySenedd, gan gynnwys:** | £156 |

| | | |
|---|---|---|
| – Rheoli’r Wefan a Chynnwys | £35 | |
| – Rheoli gwybodaeth | £22 | |
| – Cofnod y Trafodion | £52 | |
| – Y Swyddfa Gyflwyno | £32 | |
| **Gwaith ar y Llawr Gwaelod gan gynnwys TGCh ac offer darlledu** | | £513 |
| **Teledu Cylch Cyfyng** | | £362 |
| **Diwygio’r Cynulliad** | | £100 |
| **Cynllunio llety ar gyfer y dyfodol** | | £23 |
| **Weeping Window (Pabïau)** | | £44 |
| **Senedd Ieuenctid** | | £10 |
| **Cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer Prosiectau * (Tabl 2)** | | **£1,262** |

* Y gwariant gwirioneddol am y flwyddyn hyd yma yw £962k.

Bydd ein hadroddiad blynyddol a’n dogfen gyfrifon ar gyfer 2017-18 hefyd yn rhoi manylion llawn am ein gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhelliad 1**

*Gofynnwyd am gyllideb o 3.1 y cant ar gyfer Gwasanaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, sy'n uwch na chwyddiant a'r cynnydd yng ngrant bloc Cymru. O gofio'r toriadau parhaus a ddisgwylir ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn seiliedig ar y ffigurau dangosol a ddarparwyd yn nogfennaeth y Gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai cyllideb Comisiwn y Cynulliad, yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, fod yn uwch nag unrhyw newidiadau i grant bloc Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffigurau dangosol i'r Comisiwn ar gyfer y cynnydd yng Ngrant Bloc Cymru (Refeniw DEL a chyfalaf net o gyllid cyfalaf trafodion ariannol y gellir ei ad-dalu). Amcangyfrifir y bydd yn cynyddu 1.76 y cant rhwng 2018-19 a 2019-20.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd cyfanswm ffigurau DEL (namyn cyllid trafodion ariannol) fel a ganlyn: £15.803miliwn yn 2018-19 a £16.081miliwn yn 2019-20, cynnydd o 1.76 y cant.

Rydym wedi dechrau gweithio ar ein strategaeth gyllidebol ar gyfer 2019-20 a byddwn yn ymwybodol o argymhelliad y Pwyllgor na fydd cyllideb weithredol y Comisiwn yn cynyddu mwy na'r cynnydd yng Ngrant Bloc Cymru.

**Argymhelliad 7.**

*Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir, ond cydnabyddir bod gan y Cynulliad Brif Weithredwr a Chlerc newydd ac mai cyllideb 2018/19 fydd ei chyllideb gyntaf fel Swyddog Cyfrifyddu, ac felly mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb.*

Yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr, ystyriodd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (y Bwrdd) bapur ar gyflwyno Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2019-20. Argymhellodd y Bwrdd y dylai'r Comisiwn ystyried cyflwyniadau cyllideb amgen ar gyfer 2019-20, yn hytrach na pharhau â'r cyflwyniad presennol.

Ein nod wrth gyflwyno model diwygiedig fyddai mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch tryloywder a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid, a’r un pryd cynnal hyblygrwydd a lleihau risg i gyllideb y Comisiwn.

Bydd y Comisiwn yn adolygu cyflwyniadau cyllideb amgen yng ngwanwyn 2018. Dyma ddau o’r dewisiadau amgen i'w hystyried:

- cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau, wedi'i osod ar 100 y cant, gyda symiau nas defnyddir yn cael eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru trwy gyllideb atodol

- swm llai, e.e. cyllideb 98 y cant, wedi’i osod ar gyfer ariannu penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gyda chynnydd cyfatebol i’w weld yng nghyllideb weithredol y Comisiwn.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Rhagfyr 2017**

Eitem 9

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 2il Gyllideb Atodol 2017-18

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## Cefndir

Cynhwyswyd cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18 yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cyflwynwyd ar yr 20fed o Ragfyr 2016. Gwnaethpwyd newidiadau i'r gyllideb yn y Gyllideb Atodol 1af a gyflwynwyd ar y 27ain o Fehefin 2017. Nodir y newid arfaethedig canlynol i'r gyllideb honno isod:

### Incwm

Cytunwyd ar incwm ychwanegol mewn perthynas ag aelod o staff ar secondiad a chaiff ei ddefnyddio i gyflenwi'r swydd. Nid oes unrhyw effaith net ar adnoddau nac arian parod.

| 2il Gyllideb Atodol 2017-18 | Adnoddau | Arian parod |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 15 | 15 |
| | | |
| Incwm | -15 | -15 |
| | | |
| **Gofyniad adnoddau/arian parod net** | **-** | **-** |

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| Cyllideb Atodol 2017/18 | 2il Gyllideb Atodol 2017/18 | Cyllideb Atodol 1af 2017/18 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf** | 25 | 25 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,965 | 2,950 | 15 |
| Costau cysylltiedig ag LGPS | 0 | 0 | 0 |
| | **2,965** | **2,950** | **15** |
| Eiddo | 416 | 416 | 0 |
| Systemau cyfrifiadurol a chymorth | 191 | 191 | 0 |
| Costau swyddfa | 130 | 130 | 0 |
| Ffioedd cyfreithiol a chynghori | 294 | 294 | 0 |
| Cyfathrebu | 78 | 78 | 0 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 30 | 30 | 0 |
| Teithio a chynhaliaeth | 31 | 31 | 0 |
| Ffi archwilio | 20 | 20 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **4,155** | **4,140** | **15** |
| Incwm | -32 | -17 | -15 |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | **4,123** | **4,123** | **0** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 80 | 80 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw** (B+C) | **4,203** | **4,203** | **0** |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol** (A+B+C) | **4,228** | **4,228** | **0** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Symudiad ar LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Symudiad darpariaethau | 20 | 20 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20** | **20** | **0** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,248** | **4,248** | **0** |
| **Adnoddau Gofynnol** | **4,248** | **4,248** | **0** |
| Dibrisiant | -80 | -80 | 0 |
| Newid mewn Darpariaethau | -20 | -20 | 0 |
| Defnyddio Darpariaethau - LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio Darpariaethau - costau cyfreithiol | 42 | 42 | 0 |
| Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Gweithio | 20 | 20 | 0 |
| **Gofynion Arian Parod Net** | **4,210** | **4,210** | **0** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad, *Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth,* ac rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r argymhellion. Mae'r ymateb llawn wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhau i ddatblygu a gwella ein dull o asesu a chyflwyno goblygiadau ariannol deddfwriaeth. Ers diwedd y Pedwerydd Cynulliad, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r canllawiau ar gyfer datblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Biliau Cynulliad. Roeddwn yn falch o weld bod adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod bod y modd y mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cael eu cyflwyno wedi gwella yn ystod y Pumed Cynulliad.

Mae cryn dipyn o dir cyffredin rhwng yr argymhellion a geir yn yr adroddiad a barn Llywodraeth Cymru ei hun ynghylch sut y gellir gwella Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol. O'r 16 argymhelliad yn yr adroddiad, rydym wedi gallu derbyn 15 yn llawn neu mewn egwyddor. Bydd y cyngor a roddir i'r timau sy'n gweithio ar Filiau Cynulliad yn cael ei ddiwygio'n unol â hyn.

Hoffwn ddiolch drachefn i'r Pwyllgor am yr adroddiad defnyddiol hwn ac am barhau i graffu ar yr amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn dilyn ei ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth**

**20 Rhagfyr 2017**

---

**Mae'r ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod crynodeb o'r wybodaeth ariannol yn cael ei gynnwys mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pob Bil y mae'n cyflwyno, ac y nodir yn benodol p'un a yw'r costau yn gyfalaf neu'n refeniw.

**Ymateb: Derbyn**
Yn ystod haf 2016, datblygodd Llywodraeth Cymru dabl crynodeb ar gyfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, ac mae hwn wedi'i ddefnyddio yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â phob Bil Cynulliad a gyflwynwyd yn ystod y Pumed Cynulliad. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r tabl crynodeb hwn wrth gyflwyno Biliau yn y dyfodol, ac yn nodi'r gwahaniaeth rhwng costau cyfalaf a chostau refeniw yn naratif y tabl pan fydd hynny'n briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn parhau i ddangos y gwahaniaeth yn eglur rhwng costau ac arbedion arian parod, a'r gwerth ariannol a bennir i gostau a manteision eraill.

**Ymateb: Derbyn**
Yn unol â'r canllawiau presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i feintioli a phennu gwerth ariannol yr holl gostau a'r manteision cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl. Byddwn yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn fwy eglur wrth wahaniaethu rhwng costau ac arbedion arian parod, a'r costau a'r manteision hynny y mae eu gwerthoedd ariannol wedi'u pennu.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bennu cost newid diwylliannol a sicrhau bod hynny'n cael ei asesu a'i ystyried, cyn belled ag y bo modd, mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Dylai gynnwys ehangu ei Hasesiadau Effaith Rheoleiddiol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddyheadau'r ddeddfwriaeth ac nid dim ond y prosesau sydd eu hangen i weithredu'r newid.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried a phennu cost newid diwylliannol cyn belled ag y mae hynny'n bosibl mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Roedd y

dystiolaeth a roddwyd i'r ymchwiliad gan randdeiliaid amrywiol yn dangos unwaith eto pa mor anodd weithiau yw pennu cost newid diwylliannol a dyheadau deddfwriaeth. Byddwn yn chwilio am gydbwysedd addas rhwng yr angen i roi asesiad meintiol o'r costau hynny i'r Cynulliad a rhanddeiliaid, a'r risg o gyflwyno manwl-gywirdeb annilys yn yr asesiad.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd cyllidebau presennol yr adrannau'n talu am unrhyw oblygiadau ariannol newydd.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau p'un a yw'n bwriadu defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys mesur effaith dros gyfnod hwy.

**Ymateb: Derbyn**
Bydd gofynion Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a'r Rheolau Sefydlog yn parhau i ddarparu'r fframwaith ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru brosiect ar y gweill i ddwyn ynghyd y gwahanol asesiadau o effaith polisïau gan ddefnyddio'r fframwaith a geir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn rhan o'r ymateb i argymhelliad a wnaed gan adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, *Reducing complexity and adding value: A strategic approach to impact assessment in the Welsh Government*. Er bod adroddiad y Sefydliad Polisi yn crybwyll Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, nid oedd yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol arnynt ac, o'r herwydd, nid yw Asesiadau Effaith Rheoleiddiol o fewn cwmpas y prosiect presennol. Fodd bynnag, bydd yr asesiadau o effaith polisïau yn rhoi sail i'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

O ran y cyfnod arfarnu a ddefnyddir yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y canllawiau a'r dull presennol o weithio yn gymesur a'u bod yn rhoi digon o hyblygrwydd i ystyried a dewis y cyfnod arfarnu cywir ar gyfer pob Bil yn unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ystyried effeithiau dros gyfnod hwy na'r arfer pan fydd deddfwriaeth yn ymwneud â'r tymor hir.

**Goblygiadau ariannol:** Mae'r prosiect presennol yn cael ei gynnal gyda'r cyllidebau sy'n bodoli'n barod.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn drylwyr y goblygiadau ariannol ar gyfer pob rhanddeiliad mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys sicrhau bod y goblygiadau ariannol ar gyfer y sector preifat yn cael eu hystyried yn llawn.

**Ymateb: Derbyn**
Mae holl Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiad cymesur o gostau a manteision tebygol deddfwriaeth. Mae'r broses o ystyried yn ofalus effaith y ddeddfwriaeth ar bob rhanddeiliad yn ganolog i hyn (gan gynnwys yr effaith ariannol). Wrth ddatblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, mae pwyslais penodol ar sut y bydd deddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar y sector preifat. Mae pwyslais hefyd ar geisio gweld a fydd unrhyw effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o’r ymateb i’r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6**
Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei phrosesau sicrhau ansawdd drwy sicrhau mwy o waith craffu mewnol trylwyr ar Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cyn iddynt gael eu gosod.

**Ymateb: Derbyn**
Fel y trafodwyd yn ystod y sesiynau tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y dull presennol o weithio, lle bydd y Gweinidog a’r adran bolisi berthnasol yn gyfrifol am greu Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir, yn addas. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod lle i wella'r prosesau presennol er mwyn sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau neu fylchau yn y gwaith dadansoddi yn dod i’r amlwg cyn i’r Bil gael ei osod gerbron y Cynulliad. Byddwn yn ystyried y gweithdrefnau presennol ym mhob adran bolisi ac yn datblygu dull safonol o weithio yn hyn o beth.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o’r gwaith o edrych ar y prosesau presennol.

**Argymhelliad 7**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Aelod sy’n Gyfrifol roi crynodeb i’r Pwyllgor Cyllid a’r pwyllgor craffu perthnasol o unrhyw newidiadau i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys y goblygiadau ariannol.

**Ymateb: Derbyn**
Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor Cyllid a’r pwyllgor craffu perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau arwyddocaol i’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gan gynnwys y goblygiadau ariannol) pan gyhoeddir Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd adnoddau presennol yr adrannau’n cael eu defnyddio ar gyfer y goblygiadau ariannol sy’n deillio o’r ymateb i’r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol drafft fel rhan o’r ymgynghoriad ganddi wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol, ac y dylai adolygu ei strategaeth a’i chyngor ehangach i dimau Biliau ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid, a phwysleisio y dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ymgysylltu’n effeithiol â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn datblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cadarn. Nodwyd yn yr adolygiad o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad fod hwn yn faes y gellid ei wella, ac mae rhagor o gyngor wedi’i roi i dimau Biliau am bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae’r fersiwn diwygiedig o'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau’r Cynulliad* (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017) yn cyflwyno dull cam wrth gam sydd wedi’i ddiffinio’n gliriach ar gyfer datblygu Asesiadau Effaith

Rheoleiddiol, ac un rhan o hyn yw cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft fel rhan o ymgynghoriad. Bydd unrhyw dystiolaeth ychwanegol ac/neu wahanol a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei defnyddio'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd adnoddau presennol yr adrannau'n cael eu defnyddio ar gyfer y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff rhanddeiliaid perthnasol eu hymgysylltu â'r broses pan fydd yn creu costau ac y gall rhanddeiliaid roi sylwadau a mewnbwn i'r costau hynny a chadarnhau p'un a ydynt yn cytuno.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Fel y nodwyd uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol wrth asesu effeithiau tebygol deddfwriaeth. Bydd cynnwys Asesiadau Effaith Rheoleiddiol drafft fel rhan o'r ymgynghoriadau ar Filiau arfaethedig yn rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau a chyfrannu at y dadansoddiadau a wneir.

Ym mhob Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ceir asesiad Llywodraeth Cymru o gostau tebygol y ddeddfwriaeth a gall fod achosion pan fydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn anghytuno ynghylch hyd a lled ac/neu faint yr effeithiau hynny. Pan fydd hyn yn hysbys, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi hynny yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau'n ddatganiad sy'n cael ei wneud a'i berchnogi gan Lywodraeth Cymru a rhaid i'r cyfrifoldeb dros farn rhanddeiliaid barhau'n eiddo iddynt hwy yn y pen-draw.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth gryno mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio'n benodol at sut y bydd unrhyw gostau a nodir yn yr Asesiad yn cael ei ariannu a chan bwy.

**Ymateb: Gwrthod**
Mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn dadansoddi'r gwerth am arian ac eisoes yn nodi pwy sy'n debygol o orfod talu costau ychwanegol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth. Byddai ehangu'r dadansoddiad er mwyn ystyried sut y caiff y costau hynny eu cyllido yn mynd y tu hwnt i ddiben a bwriad yr asesiad.

Wrth gwrs, mae materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd a chyllid yn ystyriaethau pwysig i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Bydd materion o'r fath yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac yn y Penderfyniad Ariannol ar gyfer pob Bil.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfnodau gwerthuso yn ei hasesiad o gostau deddfwriaeth er mwyn caniatáu ar gyfer adolygu a gwerthuso cyllid trosiannol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Nid yw'n eglur i Lywodraeth Cymru beth yw ystyr yr argymhelliad hwn. Yn sgil y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi dehongli'r argymhelliad hwn gan dybio'i fod yn cyfeirio at brosesau gweithredu o fewn Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r modd y caiff Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eu datblygu. Pan fydd gweithredu deddfwriaeth yn cynnwys adolygiad interim o'r trefniadau cyllido, bydd y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r adolygiad interim hwnnw'n cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd adnoddau presennol yr adrannau'n cael eu defnyddio ar gyfer y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei hysbysu pan fo is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad yn newid costau'r ddeddfwriaeth sylfaenol gysylltiedig yn sylweddol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gosod is-ddeddfwriaeth er mwyn cychwyn neu weithredu deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd yn ddiweddar, a phan fydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth yn dangos costau sy'n sylweddol wahanol i'r rheini a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd hyn yn cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth. Bydd y prif resymau dros y gwahaniaethau mewn costau hefyd yn cael eu nodi.

Pan gaiff is-ddeddfwriaeth ei diwygio y tu allan i'r cyfnod arfarnu a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailedrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno diwygiadau yn ystyried costau a manteision ychwanegol y diwygiadau ochr yn ochr â'r opsiwn sylfaenol o 'Wneud Dim'.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu darlun mor llawn â phosibl o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gynnig deddfwriaeth sylfaenol.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r canllawiau diwygiedig yn y *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* eisoes yn egluro y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil gynnwys gwybodaeth am gostau a manteision unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i fonitro a gwerthuso goblygiadau ariannol deddfwriaeth er mwyn:

- Sicrhau nad yw cyrff cyhoeddus perthnasol yn rheolaidd yn mynd i fwy o gost neu'n cael llai o fanteision nag a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol perthnasol.
- Ei sicrhau ei hun o gywirdeb ei phrosesau ar gyfer llunio Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ei thechnegau amcangyfrif (lle bo'n briodol).

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen iddi wella'n barhaus y modd y mae'n mynd ati i greu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a bydd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer monitro a gwerthuso goblygiadau ariannol deddfwriaeth. Byddwn yn ymgysylltu â'r prif randdeiliaid fel rhan o'r broses hon.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith o ystyried opsiynau gwahanol.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod costau yn cael eu hystyried mewn adolygiadau ôl-weithredu yn y dyfodol a bod y Tîm Arfarnu Economaidd yn cymryd rhan pan fo timau polisi yn gwerthuso deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu hystyried.

**Ymateb: Derbyn**
Yn y dyfodol mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ystyried costau mewn adolygiadau a gynhelir ar ôl gweithredu deddfwriaeth. Mae'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* yn cyfeirio at nifer o 'nodau' sy'n berthnasol i adolygiadau ar ôl gweithredu deddfwriaeth, gan gynnwys:

*'ystyried y costau, yr arbedion, y manteision a'r anfanteision a amcangyfrifir – dylid ymchwilio i unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y costau, yr arbedion, y manteision a'r anfanteision a ragwelwyd sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r costau, arbedion ac anfanteision alldro, a'u hesbonio.'*

Fel y cydnabuwyd yn y dystiolaeth a roddwyd i ymchwiliad y Pwyllgor, nid yw costau o anghenraid yn cael eu cofnodi ar gyfer darnau penodol o ddeddfwriaeth, ac felly mae canfod y costau ar ôl gweithredu deddfwriaeth yn aml yr un mor anodd ag yw wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Serch hynny, byddwn yn ceisio cynnwys costau yn adolygiadau'r dyfodol pan fydd hyn yn bosibl.

Mae'n bosibl nad y Tîm Arfarnu Economaidd fydd y rhai mwyaf priodol i arwain yr arfarniad bob amser. Fodd bynnag, mae gan yr adrannau polisi a'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi ddadansoddwyr eraill sy'n gallu cynghori timau polisi yn ôl y gofyn.

**Goblygiadau ariannol:** Mae cyllidebau presennol yr adrannau'n talu am gost gwerthuso deddfwriaeth.

**Argymhelliad 16**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol yn gosod proses glir ar gyfer adolygiad ôl-weithredol o'r amcangyfrifon ariannol, gan gynnwys pryd a beth fydd yn cael ei asesu.

**Ymateb: Derbyn**
Mae hyn yn gysylltiedig ag argymhelliad 15. Pan fydd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd yn bosibl cynnwys ystyriaeth o gostau mewn adolygiad ar ôl gweithredu deddfwriaeth, byddwn yn pennu hynny yn yr adran berthnasol o'r Memorandwm Esboniadol.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd cyllidebau presennol yr adrannau'n talu am unrhyw oblygiadau ariannol newydd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon